# ECO'R WYDDFA

RHIF 56 CHWEFROR 1981 Pris: 15c

# ANRHYDEDDU GWŶR LLANBERIS

Enwyd dau o drigolion yr un stryd yn Llanberis yn rhestr Anrhydeddau Dechrau'r Flwyddyn, sef Mr Gwynfor Williams a dderbyniodd y B.E.M. a Mr Bert Thomas yr M.B.E. Triga'r ddau yn Stryd Newton.



*Mr Gwynfor Williams, Ynad Heddwch a B.E.M.*


Mae Mr Gwynfor Williams yn gweithio yn Adran Weinyddol Gwasanaeth Ambiwlans Gwynedd ers ugain mlynedd. Fe'i enwebwyd ar gyfer yr anrhydedd gan wasanaeth Ambiwlans Sant Ioan. Yn rhinwedd ei swydd wirfoddol fel trefnydd Sant Ioan yng Ngwynedd mae Mr Williams yn gyfrifol am drefnu a chynnal dosbarthiadau'r gwasanaeth ar hyd a lled y sir. Gwaith gwirfoddodl arall y mae'n gysylltiedig ag o ers ugain mlynedd bellach yw tîm achub Llanberis. Mae'n flaenor yng Ngorffwysfa ers yn agos i chwarter canrif. Bydd yn gorffen cwrs diwynyddol yng Ngholeg Bala Bangor yr haf nesaf.

Yn ddiweddar fe'i apwyntiwyd yn Ynad Heddwch. Bydd yn dechrau ar ei ddyletswyddau ar y Fainc at ddiwedd Chwefror.

Er bod Mr Bert Thomas bellach wedi ymddeol ar ôl blynyddoedd o wasanaeth gydag Adran Weinyddol y Swyddfa Bost, mae'n dal yn brysur iawn. Mae'n Ynad Heddwch, yn flaenor yng nghapel Preswylfa, ac fel aelod o'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth, mae'n rhaid iddo deithio i Lundain unwaith bob wythnos.



*Mr Bert Thomas, Ynad Heddwch ac M.B.E.*



*Y Cynghorydd Francis Jones — Ynad Heddwch*

Ein llongyfarchiadau i'r ddau ohonynt.

Llongyfarchiadau hefyd i'r Cynghorydd Francis Jones, Dôl Elidir, ar ei apwyntio yn Ynad Heddwch yn ddiweddar. Bydd yntau'n dechrau ar ei ddyletswyddau ynadol ymhen mis.

# BRIDIWR ADAR O FRI



*Raymond Williams gydag un o'i hoff golomennod yn sefyll wrth ymyl rhai o'r prif wobrau y mae wedi eu casglu yn ystod yr wyth mlynedd diwethaf.*

Pan gerddodd i ystafell mewn ffermdy ger Deiniolen yn ddiweddar bu bron i ohebydd yr Eco a chael ei ddallu. 'Nefoedd yr adar!' ebychodd, ac nid oedd ymhell o'i le. Gwobrau am arddangos colomennod oedd yn disgleirio o'i flaen. Yn sicr, dyma'r casgliad mwyaf o gwpanau a thlysau a wêl unrhyw un a fu allan i ystafell drysorau tîm pêl-droed Lerpwl!

Raymond Williams, Blaen Cae Isaf yw ceidwad balch y gwobrau hyn – ffrwyth tua deng mlynedd o arddangos colomennod mewn sioeau bach a mawr, ledled Cymru a Lloegr. Bellach enillodd Raymond, sy'n athro yn Llanrwst, gryn enw iddo'i hun nid yn unig yng ngwledydd Prydain ond hefyd ar y cyfandir. Yn ddiweddar cafodd gynnig gwerthu rhai o'i adar i fridwyr o'r Almaen a'r Iseldiroedd. Gwrthododd hwynt gan eu bod 'ar ôl yr adar gorau'.

Prawf arall o ddawn Raymond fel bridiwr yw'r mynych gynigion a gaiff i feirniadu mewn sioeau mawr enwog fel un y 'Devon County' (Sioe fwy nag un 'Frenhinol Cymru'), Sioe Caer, a llu o sioeau lleol. Mae ar hyn o bryd yn ystyried cynnig i feirniadu yn Sioe Belffast, Gogledd Iwerddon a gynhelir ddiwedd y flwyddyn hon.

Dechreuodd Raymond arddangos colomennod pan oedd tua 12 oed ac enillodd ei gwpan cyntaf yn Sioe Amaethyddol Caernarfon yn y flwyddyn ganlynol. Ers hynny mae wedi mynd ymlaen o nerth i nerth.

Ymhlith ei fuddugoliaethau mwyaf nodedig y mae cwpan sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd. (Yn y llun, mae'r cwpan tu ôl i'r darian yn y canol). Enillodd hon am wyth mlynedd yn olynol ac y mae yn ei feddiant yn barhaol erbyn hyn.

Y wobr sydd wedi rhoi'r pleser mwyaf iddo yw'r un ddiweddaraf iddo'i hennill – sef yr un yn sioe fawr Blackpool tua mis yn ôl. Daeth ei iâr goch yn gyntaf o dros 440 o adar eraill. Dyma'r tro cyntaf i fridiwr o Gymro gipio'r cwpan hardd a'r clod yn y sioe enwog yma.

Daeth hefyd i'r brig yn Sioe Genedlaethol Cymru ym Mhenybont ar Ogwr fis Rhagfyr a hynny am yr ail waith.

Enillodd ei wobr gyntaf un mewn sioe fawr ym Mhalas Alexandria yn Llundain – sioe yr 'Old Comrades' ym 1973. Ei golomen y 'Snowdonia Queen' (sydd yn y llun isod), ddaeth yn ail y tro hwnnw. Uchelgais Raymond yw ennill prif wobr yr 'Old Comrades'.

Cyfnod distaw yw'r un sy'n ei wynebu o hyn hyd fis Awst. Dyma dymor magu ei dîm o 80 o adar a'u paratoi at y gaeaf pryd y cynhelir y sioeau pwysicaf. Bwriada gystadlu gyda rhai o'r cywion mewn ychydig o sioeau amaethyddol ddiwedd yr haf. Pwrpas hyn fyddai eu hyfforddi a'u cael i gynefino â gofynion cystadlu – 'i'w cadw mewn trefn', chwedl Raymond. Yn ôl un o ohebwyr y cylchgrawn bridwyr colomennod 'The Racing Pigeon', eiddo Raymond yw un o'r timau gorau yng ngwledydd Prydain.

Cymer Mr a Mrs Arfon Williams, rhieni Raymond, falchder anghyffredin yn llwyddiant eu mab. Hwy yw ei gefnogwyr mwyaf selog ac maent wrth eu bodd yn teithio'r sioeau gydag o. Ond er cymaint diddordeb Mrs Williams yng ngorchestion Raymond – nid hi yw'r un sy'n glanhau'r holl dlysau a ddaw i'r tŷ. Gwaith **di-ben-draw fuasai hynny'n sicr!**



*'Snowdonia Queen' — ail yn yr 'Old Comrades' ym 1973.*

# ECO'R WYDDFA

**Rhif 56**
**CHWEFROR 1981**

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon*

*Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru*


## SWYDDOGION A GOHEBWYR

**GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:** Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)
**GOLYGYDD ERTHYGLAU:** Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Pont-rhythallt, Llanrug, (Caernarfon 3515).
**GOLYGYDD NEWYDDION:** Tony Elliott, Crud y Wawr, Bryneglwys, Penisarwaun. (Penyllyn 438)
**TREFNYDD NEWYDDION YSGOLION:** Iwan Lloyd Williams, Bryn Idris, Llanberis (Llanberis 515).
**DYDDIADUR Y MIS:** Miss Jane Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont, Ffordd Capel Coch, Llanberis. (Llanbeirs 220)
**FFOTOGRAFFWYR:** Ifan Parry, Morwel, Ceunant (Waunfawr 321). Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669).
**TREFNYDD HYSBYSEBION:** John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (C'fon 5605)
**TREFNYDD GWERTHIANT:** Ian Pierce, Swyn-yr-Awel, Llanrug (C'fon 3776).
**TRYSORYDD:** Gwyn Oliver Jones, 58 Pentre Helen, Deiniolen.
**TREFNYDD GWERTHIANT POST:** Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon 3227).
**GOHEBWYR PENTREFI:** Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:
**BETHEL:** Geraint Elis, Sycharth (Portdinorwic 726)
**BETWS GARMON:** Mrs Brenda Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)
**BRYNREFAIL:** D.G. Ellis, Gweledfa, Brynrefail (Padarn 223)
**CEUNANT:** Ifan Parry, Morwel (Waunfawr 321)
**CWM-Y-GLO:** Dafydd Price, Tŷ Capel (Llanberis 550)
**DEINIOLEN:** Meirion Jones, Minafon, Clwt-y-bont (Llanberis 452)
**DINORWIG:** O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 671)
**LLANBERIS:** Mrs Siân Thomas, Foelas, Stryd Newton (Llanberis 220)
**NANT PERIS:** T.J. Roberts, Llys Awel
**LLANRUG:** Mrs Eirlys Pierce, Swyn yr Awel (C'fon 3776)
**PENISARWAUN:** Mrs Mary Davies, 9 Llys y Gwynt, Penisarwaun.
**TAN-Y-COED:** Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Waunfawr 355)
**WAUNFAWR:** Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn, (Waunfawr 626).
**TREFNYDD PLYGU:** Gwyndaf Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug.
**TREFNYDD BUSNES:** Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.

## Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf
o'r wasg ar
26 CHWEFROR
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
erbyn 18 CHWEFROR
os gwelwch yn dda.

# Llythyrau

## PADARN ROC A DIOTA

Annwyl Olygydd,
Hoffwn pe baech yn cyhoeddi'r sylwadau canlynol sydd yn ymhelaethu ar yr erthygl a ymddangosodd yn y rhifyn olaf o'r cylchgrawn pop 'Sgrech', ar fy anfodlonrwydd i fel sefydlydd, ac un o drefnwyr Padarn Roc.

Fy nghynnig i Bwyllgor Carnifal Llanberis yn 1978 oedd nad oedd dim dilyniant mewn awyrgylch y Carnifal ar y nos Sadwrn i bobl ifanc y pentref. Teimlais mai doeth o beth fuasai cynnig 'disgo' awyr agored gydag efallai un grŵp yn perfformio ar lwyfan y Carnifal.

Oherwydd diffyg cefnogaeth ni wnaethpwyd dim y flwyddyn honno, ond erbyn 1979 ailgynigiwyd y syniad ond y tro yma penderfynais ar fenter fwy a allai fod o fudd ariannol i'r Carnifal yn ogystal â bod yn adloniant am ddiwrnod cyfan.

Fel y gwelwyd roedd hwn yn gyngerdd hynod o lwyddiannus, pan gafwyd cynulleidfa genedlaethol yno i fwynhau grwpiau mwyaf poblogaidd Cymru yn eu mysg, Edward H Dafis.

Ond ar ddiwedd y dydd, er fod elw sylweddol wedi ei wneud 'roedd gennyf deimlad mai esgus oedd yr adloniant gan y mwyafrif a fu yno i gael diwrnod o ddiota. Felly y flwyddyn diwethaf penderfynwyd cynnal Padarn Roc arall a'r tro yma adeiladwyd ar gynnwys y rhaglen pan wahoddwyd dau grŵp mwyaf poblogaidd Cymru, sef Geraint Jarman a'r Trwynau Coch yn ogystal â Bando, Tecwyn Ifan, Jaffync, Rhiannon Tomos, Weiran Bigog, Doctor a Bismyth. Cafwyd llawer o gyhoeddusrwydd i'r diwrnod ar y cyfryngau, yn wir 'roedd HTV yno yn ffilmio'r cyngerdd yn ogystal â chynnal cyngerdd 'Sêr dros Gymru' nos Wener, gyda Chrysbas a Crys.

Beth am y gynulleidfa ar y Sadwrn – pan oedd y tafarndai ar agor, yna gellir gweud yn eitha saff mai ychydig o gannoedd oedd yno, ond pan gaeodd y tafarndai chwyddodd i fyny, i tua dwy fil ar ei uchafbwynt. (O gofio fy mod yn mynychu cyngherddau o'r math yma yn Lloegr yn eitha rheolaidd e.e. Knebworth, Reading a Crystal Palace – y peth olaf sydd yn mynd drwy feddwl y gynulleidfa yno yw ble mae lleoliad y dafarn agosaf)!

Felly, gefnogwyr y byd 'pop' Cymraeg yn ogystal â'r ieuenctid sydd fythol yn cwyno nad oes yna ddim byd yn cael ei drefnu ar eich rhan, mae'n amser i chwi roddi tipyn mwy o gefnogaeth i'r fenter hon, gan mai yn sicr, nid fy nymuniad oedd cynnal gŵyl ddiota.

Nid wyf yn gofyn am i'r holl ddiota ddod i ben ond yn hytrach yn gofyn ar i bawb sylweddoli mai'r adloniant ddylai fod yn brif atyniad y diwrnod.

Efallai nad yw pobl ifanc, yn ogystal â rhai o sefydliadau Cymreig Cymru, yn teimlo bod safon y grwpiau yn haeddu eu cefnogaeth – os yw hynny yn wir yna yn sicr gellir dweud mai nid oherwydd diffyg brwdfrydedd yr artistiaid ond ar ddifaterwch y cefnogwyr y mae'r bai.

Os penderfynir cynnal Padarn Roc eto, erfynnaf arnoch am fwy o gefnogaeth i'r artistiaid Cymraeg sydd wedi datblygu erbyn heddiw mor broffesiynol i gystadlu â rhai o brif grwpiau'r byd.

Yn ddiffuant,
John G. Williams
Eirianfa,
Llanberis,
Gwynedd.

## 'GWRAIG OD'

Annwyl Syr,
Darllenais yn ddiweddar mewn llyfryn sydd yn cofnodi cymunroddion od, am gladdedigaeth gwraig od o Lanrug, ym 1895.

'Roedd yr ymadawedig yn wraig hynod, a chysegrodd ei bywyd i hela llwynog, ac ewyllysiodd ei chladdu yn ei gwisg hela. Y gweddill o'i dillad a'i cherbydau a losgwyd ddydd ei hangladd, a'r diwrnod dilynol llosgwyd yr holl stablau, a saethwyd chwech o geffylau hela gwerthfawr.

Ei gŵr, yr hwn a ofalodd fod telerau ei hewyllys yn cael eu cadw i'r llythyren, a etifeddodd £90,000 am ei ddiwydrwydd.

Oes rhywun all roi gwybodaeth am y wraig ryfedd hon, a chefndir y teulu, a'r man lle y trigent. Buasai yn ddiddorol cael ychydig o'u hanes.

Llew Hughes
Cwm y Glo

## ATEB I'R APÊL AM LUN O AP GLASLYN

*Annwyl Syr,*
*Ar ôl gweld yr apêl am lun Ap Glaslyn yn 'Eco'r Wyddfa', cofiais fod gennyf lun ohono yn rhywle, — llun a gafodd fy nhad gan Ap Glaslyn flynyddoedd lawer yn ôl, pan oedd ein teulu'n byw yn 'Cae Caled', y Waunfawr.*

*Erbyn hyn mae'r llun wedi ei yrru i Mrs Angela Owen, Dorset — mae hi'n wraig i ŵyr Ap Glaslyn. Cefais innau lythyr gan Angela Owen.*

*Yn gywir,*
*Mwynwen Jones.*
Y Waunfawr

## AWYRENNAU WEDI DISGYN

*Annwyl Olygydd,*
*Yn ddiweddar y mae tri neu bedwar ohonom yn Llanrug wedi cymryd diddordeb mewn awyrennau sydd wedi disgyn yn Eryri ac yn mynd i'r mannau lle mae'r gweddillion.*

*Hoffem drwy gyfrwng yr Eco ofyn am fwy o wybodaeth mewn unrhyw ffurf am yr awyrennau hyn. Os oes clwb mewn bodolaeth yn y cylch yn barod buasem yn dra diolchgar cael ymuno.*

*Yr eiddoch yn gywir,*
*D. Pritchard*
*9, Glanymoelyn*
*Llanrug.*

## GŴYL PAN-GELTAIDD CILL AIRNE 13-20 Mai, 1981

*Annwyl Olygydd,*
*Hoffwn dynnu sylw eich darllenwyr at gystadlaethau gwerin arbennig i ddewis cynrychiolwyr Cymru ar gyfer Gŵyl Cill Airne (Killarney), 1981.*

*Cynhelir y cystadlaethau yng Nghanolfan yr Urdd, Aberystwyth am 2.00 bnawn Sadwrn, Mawrth 28. Byddant yn cynnwys canu gwerin a dawnsio gwerin (unigol a pharti), canu'r delyn a chanu'r ffidil. Bydd y buddugol yn ennill gwobrau hael, lle ar fws Pwyllgor Cymru'r Ŵyl i Cill Airne, ac yn cystadlu yn enw Cymru yn yr Ŵyl.*

*Mae hwn yn gyfle heb ei ail i gymdeithasu â'n cyd-Geltiaid mewn ardal fendigedig yn Iwerddon, felly danfoner am fanylion pellach a ffurflen gystadlu at:*

*Tegwyn Williams,*
*Penbedw,*
*Ffordd y Bryn,*
*Llanelwy.*
*Ffôn: Llanelwy 583612*
*Yn Gywir, Anwen Hughes*
*39 Heol Clare,*
*Ystalyfera,*
*Abertawe*

## GWASANAETH NEWYDD I GWMNIAU DRAMA

*Annwyl Olygydd,*
*Carwn dynnu sylw'ch darllenwyr at wasanaeth newydd ym myd y ddrama a gynigir gan Wasg Carreg Gwalch, Llanrwst.*

*Ychydig iawn o gyhoeddi dramâu addas i gwmniau amatur fu dros y blynyddoedd diwethaf, a hynny er bod diddordeb mawr yn y maes yn ddiweddar, gyda llawer o'r diolch am hynny yn ddyledus i'r gwyliau drama a gynhelir gan rai papurau bro. Mae'n broblem gynyddol i gwmniau gael gafael ar ddramâu, ac yn broblem i awduron gynhyrchu copiau o'u gwaith ar gyfer eu dosbarthu, ac o ganlyniad ychydig o ddramâu newydd sy'n cylchredeg.*

*Bwriad Gwasg Carreg Gwalch yw cyhoeddi dramâu byrion newydd am bris rhesymol (50c y copi) gan gynnig gostyngiad ychwanegol o 20 y cant i gwmniau sy'n archebu dros ddeg copi yn uniongyrchol o'r wasg.*

*'Cyfres y Llwyfan' yw enw'r gyfres hon, a bydd y dramâu cyntaf yn ymddangos o'r wasg ym mis Chwefror sef:*
*1. Y Sul Hwnnw, Wil Sam.*
*2. Hunllef Huws, Nansi Pritchard*
*3. Gwely a Brecwast, Ifan G. Jones*
***4. Noson Gardio, Myrddin ap Dafydd.***
***Os am fwy o fanylion, cysyllter â'r** wasg.*

*Yn olaf, croesewir dramâu i ystyried eu cyhoeddi fel rhan o Gyfres y Llwyfan gyda chyrtans agored gan y wasg.*

*Yr eiddoch,*
*Myrddin ap Dafydd*
*Gwasg Carreg Gwalch*
*Llanrwst*
*(Ffôn: 0492 641329*

## LLYTHYRAU (Parhad)
### ARFERION PLANT DDOE A HEDDIW

*Annwyl Olygydd,*

*Buaswn yn ddiolchgar iawn pe baech yn gadael i mi wneud cais am wybodaeth gan eich darllenwyr yng ngholofnau eich papur. Rwyf ar hyn o bryd yn casglu gwybodaeth ar ran yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan am arferion plant yng Nghymru, ddoe a heddiw. Daeth peth gwybodaeth i law eisoes ond 'rwy'n sicr fod tipyn mwy ar gael ac felly dyma wneud apêl.*

*Tybed faint o'r darllenwyr fu'n Hel Calennig, ac os felly pa rigymau etc., oeddynt yn eu canu neu adrodd? Sut y byddid yn casglu a beth oeddynt yn ei dderbyn fel Calennig. Buaswn yn ddiolchgar am unrhyw wybodaeth. Hefyd beth am ddisgrifiad o arferion eraill tebyg fel 'Hel Crempog' — bu hyn yn boblogaidd yng Ngwynedd ar un adeg, neu 'Clepio am Wyau' a fu'n arfer gan blant Ynys Môn adeg y Pasg hyd yn gymharol ddiweddar. Mewn gwirionedd hoffwn gael gwybodaeth am unrhyw arferiad a berthyn i blant.*

*Rwyf hefyd yn awyddus i gofnodi cymaint ag y medraf o chwaraeon plant o unrhyw ardal yng Nghymru, rhai Cymraeg a Saesneg, neu y rhai heb eiriau o gwbl. Pa fath o deganau neu offer chwarae fyddai gan y plant? Sut oedd gwneud y rhain? Buaswn yn ddiolchgar am wybodaeth gan unrhyw un sy'n medru cofio. Medrwch gysylltu â mi yn*

**Adran Llên Gwerin.**
**Amgueddfa Werin Cymru,**
**Sain Ffagan,**
**Caerdydd. CF5 6XB.**

*Diolch yn fawr iawn,*
*T. Vaughan Jones,*
*Cynorthwywr Ymchwil.*

### OS AM ACTIO . . .

Os oes gennych ddiddordeb mewn drama, boed y diddordeb hwnnw mewn actio, cof weinyddu, cynorthwyo gyda'r goleuadau, gosod setiau neu gynhyrchu yna bydd Cwmni Drama Llanberis wrth eu bodd. Cysylltwch yn syth ag unrhyw un o'r aelodau. Ar hyn o bryd maent ar drafael o amgylch Gogledd Cymru gyda'r gomedi-ffars Twyllo Modryb Angelina.

Cofiwch gysylltu rŵan os oes ganddoch ddiddordeb. Byddant yn dechrau ar ddrama arall ar ôl yr haf.

### RHODDION

**Diolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at gostau'r Eco:**
**85c : Miss H. Munro, Corby, Northants.**
**£1.50: Mrs H.R. Davies, Wern Uchaf, Rhuthun**
**£3.00: Mr Owen Jones, Ponc-y-Fron, Llangefni.**
£2 – Mr Emyr Jones, 17 Hafan Elan, Llanrug.
£1 – Mr Emlyn Jones, 7 Glanffynnon, Llanrug; Mr a Mrs O.G. Lewis, 33 Hafod Olau, Deiniolen; Mrs J. Griffiths, 10 Tai'r Faenol, Deiniolen; Mr a Mrs D.J. Thomas, Tŷ Capel Sardis, Dinorwig.
£5.00: Mr a Mrs Arfon Williams, Blaen Cae Isaf, Deiniolen.
£2.00: Parch H. Thomas, Rheithordy, Llannor.

# LLAWER O'R FRO YN ACTIO

Perfformiwyd tair drama fer yn Theatr Seilo Caernarfon ychydig cyn y Nadolig gan Gwmni Eryri. Mae sawl un o fro'r Eco'n perthyn i'r Cwmni yma. Dyma luniau'r tri chwmni.



**1. LLUEST Y BWCI –**

*Cynhyrchydd Mrs Sian Jones. Y rhai â chysylltiadau â'r fro yn y llun yw Bert Parry (Llanberis) ail o'r chwith; Harry Thomas (gynt o Lanberis) 3ydd o'r chwith a Derfel Gruffydd (Prifathro Ysgol Gynradd Llanrug) 5ed o'r chwith.*

**2. Campbell o Killmohr –**

*Cynhyrchydd John Roberts. Y rhai o'r fro yn y ddrama. Yn eistedd: Len Jones 2il o'r chwith, Prifathro Ysgol Gynradd Penisarwaun; Katherine Jones, Waunfawr, 3ydd o'r chwith.*





**3. Lledaenu Newyddion –**

*Cyfieithiad y diweddar William Vaughan Jones. Cynhyrchydd Alwyn Pleming, Pennaeth yr Adran Gymraeg Ysgol Brynrefail. Yn sefyll o'r chwith i'r dde: Dafydd Evans, Penisarwaun, 3ydd; Rhian Ellis Waunfawr, 5ed o'r chwith; Arwel Jones, Llanrug, 7ed o'r chwith; Catherine Owen, Llanrug, 8ed o'r chwith; Iwan Lloyd Williams, Llanberis, 9ed o'r chwith. Yn eistedd — Gillian Wyn, Waunfawr 2il, Carys Aron gynt o Nant Peris 3ydd, Alma Jones, Waunfawr, 4ydd.*

### CWYNO?

Nid ar chwarae bach y daw'r papur hwn i'ch cartref. Os oes gormod o straeon digri ynddo, bydd pobl yn ein cyhuddo o fod yn wirion; os nad oes, yna byddwn yn rhy ddifrifol. Os bydd y golygyddion yn gorfod aros yn eu tai i sgwennu stwff ar gyfer y rhifyn nesaf bydd pobl yn holi amdanynt pan fydd rhywbeth o bwys yn digwydd. Os bydd y golygyddion allan ar drywydd stori, bydd pobl yn cwyno nad oedd neb gartre i ateb y ffôn neu i dderbyn newyddion.

Os na fyddwn yn cyhoeddi llythyrau ambell un, yna bydd yr ardal yn colli dawn llenor. Os byddwn yn cyhoeddi llythyr un arall, yna bydd y papur yn llawn sothach. Os byddwn yn cywiro ambell i waith cyn ei gyhoeddi – yna byddwn yn or-feirniadol; os na wnawn, yna byddwn yn ddihidio.

Os cynhwysir tameidiau o bapurau eraill, byddwn yn rhy ddiog i sgwennu ein stwff ein hunain; os na wnawn, byddwn yn rhy ddall i waith eraill. Mae'n fwy na thebyg y bydd rhywun yn ein cyhuddo o ddwyn y nodiadau hyn. – Wel dyna wnaethon ni!


**GWILYM JONES**
**Monumental Works**
**LLANRUG**
**FFÔN CAERNARFON 2898**

**Gwaith Coffaol o bob math mewn llechi a gwenithfaen gan grefftwyr lleol**

# PENISARWAUN

DIOLCH – Dymuna Anwen Jones, Meillionydd ddiolch yn gynnes iawn i'w pherthnasau a chyfeillion am y llu o gardiau, arian ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 21ain oed. Diolch yn fawr iawn.

CYDYMDEIMLAD – Mae llawer wedi cael profedigaethau yn ystod y gwyliau. Fe gollodd Capel Ysgoldy ddau o'i ffyddloniaid, sef Mr Owen Williams, Tŷ Capel a oedd yn flaenor ac yn codi canu; a Mr David J. Davies, 4 Bryntirion. Mae Mrs E.B. Jones, 6 Bryntirion wedi colli ei chwaer a Mrs N. Roberts, Vine Cottage wedi colli modryb. Mae Mr Nix, Talsarnau, wedi colli ei briod a Mr Ian Smith, Hafan wedi colli ei dad. Hefyd mae Mrs Griffiths, Tros Waen wedi colli ei modryb.

Mae cydymdeimlad y pentref gyda chwi oll yn eich profedigaeth.

CAPEL BOZRA – Fe gafwyd gwasanaeth llwyddianus iawn ar fore Sul Rhagfyr 21 gan y plant. Dymuna'r rhieni ddiolch i bawb a fu yn dysgu'r plant ar gyfer Pasiant y Geni.

LLONGYFARCHION i Miss Anwen Jones, Meillionydd ar ei phen-blwydd yn un ar hugain.

DIOLCH – Fe garai aelodau Sefydliad y Merched ddiolch i Mrs Pat Jones, 1 Tai Arthur am wneud parti 'Tupperware' a rhoi'r elw tuag at gronfa'r Sefydliad. Diolch yn fawr Pat.

CLWB YR HEULWEN – Fe gafwyd noson ddifyr iawn yng Ngwesty Glan Traeth gyda Bryn o'r Bryn yn canu. Fe garai'r aelodau ddiolch i bawb am eu rhoddion ac i bawb a brynodd dicedi raffl. Dyma'r rhai a enillodd y raffl – 1. Gwenan Jones, Carmel, 2. Teulu Williams, Careb, 3. Gethin, Tros y Waen.

LLONGYFARCHWN Mr a Mrs Eric Jones, 17 Bryntirion ar enedigaeth mab bach, sef Aled; brawd bach i Dyfed a Sioned, a hefyd dymunwn yn dda i Eric (Gilligan) yn Wimbledon gyda'r grŵp 'Tumbledown Wind'.

CROESO i Mr a Mrs Thomas, a'u baban bach o Fethel i'n plith. Fe fyddant yn cartrefu yn 4 Bryntirion.

YSGOL TAN-Y-COED – Cyngerdd Nadolig – Daeth cynulleidfa dda o rieni ynghyd i wrando ar eitemau amrywiol y gwahanol ddosbarthiadau. Cafodd pob plentyn gyfle i gyfrannu, a hyderir i bawb fwynhau eu hunain.



PRIODAS – Llun Richard Edward Healey, 2 Ffordd Pandy, Caernarfon a Brenda Elizabeth Williams, 20 Bryntirion, ar ôl eu priodas ar Ragfyr 6, 1980. Ein dymuniadau gorau iddynt.

EGLWYS SANTES HELEN – Llongyfarchwn Mrs S. Roberts, Ship gynt, yn awr Elidir View, Pontrhythallt ar ei phen-blwydd yn 90 oed – aelod hynaf yr eglwys.

Cafwyd noson o ganu Carolau a'r plant yn actio'r geni nos Sul, Rhagfyr 21. Diolch i Mrs E. Williams a Mrs Ann Paterson am ddysgu'r plant.

Fe gafwyd te parti Nadolig ar Ragfyr 22. Roedd hwn yn barti cyd-enwadol a daeth nifer o blant ynghyd. Daeth Siôn Corn i'r parti ac fe rannodd anrhegion. Dymunwn ddiolch i bawb a fu mor hael gyda'r rhoddion, ac am helpu i wneud y noson mor llwyddiannus.

LLONGYFARCHWN Mr a Mrs Iorwerth Griffiths, 5 Bryntirion ar fod yn daid a nain. Ganed mab bach i Beryl a Myrfyn. Croeso mawr i Dafydd Glyn.

DAMWEINIAU – Fe gafodd Mrs M. Munro, Tŷ Capel ddamwain hegar i'w choes cyn y Nadolig ac fe fu raid iddi fynd i'r ysbyty. Fe dorrodd Ceri Hughes, 12 Bryn Eglwys ei garddwrn hefyd.

YN YR YSBYTY – dros y Nadolig oedd hanes Mr Freeman, 11 Llys y Gwynt, a Mrs I. Jones, Plas Dulas, Waun ac fe fu Mr Sam Parry, Cefn Coed yn yr ysbyty hefyd.

Nid yw Mr W.A. Rowlands, Bryn Howel a Mrs N.M. Pritchard, 4 Bryn Hyfryd wedi bod yn dda yn ddiweddar.

Dymunwn well iechyd i chwi i gyd yn y flwyddyn newydd hon.

## TAITH Y CYMRY I'R WLADFA, PASG 1982

Gwahoddwyd Mr T. Gwyn Jones, Llanfairfechan a'r Parch Ddr. D. Ben Rees, Lerpwl i arwain mintai o Gymry i'r Wladfa dros dymor y Pasg 1982.

Bu Mr T. Gwyn Jones yn arwain pererinion ar fwy nag un achlysur i'r Wladfa, ond hwn fydd y cyfle cyntaf i'r Parch D. Ben Rees. Gobeithia'r ddau ddenu pobl i'r fintai a fydd yn barod i ddiddori'r Gwladfawyr mewn nosweithiau llawen. Bwriedir cynnal nifer o Gymanfaoedd Canu a Chyrddau Pregethu ar hyd y dalaith, a bwriedir treulio 17 o ddyddiau yn Neheudir yr Amerig gan alw yn Buenos Aires ar y ffordd allan ac os yn bosibl yn Rio de Janeiro ar y ffordd adref.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y daith oddi wrth **Dr D. Ben Rees, 32 Garth Drive, Lerpwl. L18 6HW. (051-724-1989)**

## CANLYNIAD CYSTADLEUAETH Y NADOLIG

Cystadleuaeth boblogaidd iawn, a barnu oddi wrth nifer y cynigion, a'r rhan fwyaf ohonoch yn adnabod y fro yn bur dda.

Gresyn na fuasem wedi rhifo'r lluniau i'ch helpu! Serch hynny, gwnaeth bob un ohonoch eich dewis yn berffaith glir.

Dyma'r atebion cywir (gan edrych ar y lluniau fel dwy golofn, 1-4 ar y chwith a 5 a 6 ar y dde):

1D (Llyfrgell Deiniolen); 2E (ger Craig yr Undeb); 3G (Hen ysgol Nant Peris); 4B (Ywen Llanddeiniolen); 5CH (ger Raca); 6FF (Cartref Dafydd Ddu Eryri, Waunfawr).

Yr enw gyda'r cynigion cywir cyntaf o'r het oedd Mr John Peris Roberts, 11 Maes Eilian, Dinorwig. Llongyfarchiadau. Mae £5.00 ar ei ffordd i chwi.

**CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR**

# TAN-Y-COED

LLONGYFARCHIADAU i Manon Llwyd Evans, ar lwyddo yn Arholiad Canu'r Piano Gradd 5 dan nawdd y Gymdeithas Gerdd Frenhinol. Disgybl i Miss Clarice Williams, Llanberis yw Manon.

YN GWELLA – Da deall fod cleifion yr ardal yn gwella – Miss Nance Williams, Cartref; Mrs Myfanwy E. Jones, 7 Maesgerddi; Mrs Jennie R. Hughes, Oerddwr a Mrs Nancy Morris, Awelfryn. Ein cofion a'n dymuniadau da i chwi ac i Mrs Catherine Evans, Preswylfa, a fydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 84 oed ar Ionawr 31.

Cyn y Nadolig cafodd Mr a Mrs W. Humphreys, Clawdd Llwyd ddamwain tra'n teithio yn eu car. Erbyn hyn mae Mr a Mrs Humphreys yn gwella o effeithiau'r ddamwain. Llwyr iachâd buan iddynt.

GWASANAETH – Pnawn Sul, Rhagfyr 21 cafwyd Gwasanaeth Plant Ysgol Sul Tan-y-coed a daeth cynulliad da o rieni a chyfeillion y plant i'r gwasanaeth. Yr oedd plant pob dosbarth yn cymryd rhan yn y gwasanaeth. Mrs Carys L. Evans, Carwyn a Mrs Beryl M. Jones, 3 Tai Tan-y-coed oedd wrth y piano. Rhoddwyd anerchiad i'r plant gan y gweinidog y Parch W.O. Roberts.

PLYGAIN – Yn y Cyfarfod Plygain Blynyddol a gynhelir ym Mhontrhythallt ymysg y rhai oedd yn cymryd rhan oedd tri o blant Ysgol Sul Tan-y-coed – Margaret E. Roberts, Tainewyddion, Manon Ll. Evans, Carwyn a Bethan L. Parry, Ael-y-bryn.

TE PARTI – Dwirnod te parti plant yr Ysgol Sul oedd Rhagfyr 22. Pnawn i'w gofio ydoedd – danteithion blasus ar y bwrdd, yna gwylio ffilmiau symudol lliwgar yn cael eu dangos gan Ditectif Selwyn Jones, Pant Clyd. Cyn diwedd y pnawn sicrhaodd Ditectif Selwyn Jones fod Siôn Corn yn troi i mewn i gyflwyno anrhegion i'r plant. Dyna groeso gafodd Siôn Corn. Tynnwyd llun y plant gyda Siôn Corn – gobeithio y cawn ei roi yn Eco'r Wyddfa y tro nesaf. Dymuna'r plant a'u hathrawesau ddiolch i Ditectif Selwyn Jones a Siôn Corn am roi pnawn mor hapus iddynt.

CYFARFODYDD – Yn ystod wythnos gyntaf Ionawr cafwyd tri chyfarfod yn Nhan-y-coed. Cyfarfod Gweddi nos Lun, Mrs Violet Blanchard, Y Llythyrdy; Mrs Katie Williams, Morawel, Mr Arfon Jones, 6 Tai Bryngwyn a Miss Megan Humphreys, Cadnant yn gwasanaethu.

Nos Fawrth cafwyd pregeth gan y Parch W.O. Roberts, a nos Fercher, Seiat Unedig. Mater y Seiat oedd 'Gweddi', a Mr T.W. Thomas, Berwyn draddododd yr anerchiad. Siaradwyd ymhellach gan y Rheithor Gwynfor Williams, y Parch W.O. Roberts a Mr Glyn Owen.

Ionawr 20 cyfarfu Cymdeithas Lenyddol Pontrhythallt a'r Cylch a gwahoddwyd Cymdeithas Lenyddol Waunfawr i ymuno â ni. Trefnwyd Cwis gan Mrs Jennie C. Williams, Bod Fair, Mrs Iola Butler, Haddef a Miss Megan Humphreys, Cadnant a Mrs Megan Williams, Tangaer, wrth y piano. Treuliwyd noson hwyliog a difyr, gyda chwmni diddan a'r festri'n llawn.

LLUN – Ydych chi'r plant yn cofio llun cath ddu ar gefn ceffyl yn Eco'r Wyddfa amser maith yn ôl? Y tro yma dyma i chwi lun cath arall o Bant Clyd. Fel y gwelwch, cwningen yw ffrind y gath hon. Diolch am gael benthyca'r llun gan Linda.



## ANTUR BRO

Ar Chwefror 12 bydd Cyngor Bwrdeistref Arfon, mewn cydweithrediad â Swyddfa Bangor o Uned Busnesau Bychain, Awdurdod Datblygu Cymru, yn amlinellu rhaglen fydd yn annog Cymunedau i greu gwaith newydd.

Yn y cyfarfod cyntaf yng Nghwellyn, Caernarfon gyda chynrychiolwyr cynghorau bro ac eraill sydd â diddordeb ceir cyflwyniad gan gynrychiolwyr y cyngor Bwrdeistref, Awdurdod Datblygu Cymru a Chanolfan Hybu Gwaith Gogledd Cymru ynghyd ag adroddiad ar y modd y gellir cefnogi mentrau o'r fath.

Yn dilyn y cyfarfod hwn cynhelir nifer o gyfarfodydd cyhoeddus yn y Fwrdeistref i roi cyhoeddusrwydd eang i'r antur.


**HEI SBIA!**

**GWASANAETH CYFLAWN**

Ar gyfer Ysgolion, Adrannau, Clybiau, Garejis, Pêl-droed, Criced, Tafarnau, Busnesau, Unigolion etc.

**BATHODYNNAU (dau faint 50mm a 30mm)**

Beiros, Cylch Allweddau, Cardiau Busnes, Penllythyr, Sticeri Ceir, Bocsus Matshus, Sticars ar Faniau etc. Yn wir

**UNRHYWBETH**

gyda'ch enw neu slogan chi arno

Am fanylion llawn a samplau cysylltwch ag

Eirug Wyn **CWMNI ADFER**

Yr Hen Farchnad

Caernarfon

# CWM-Y-GLO

LLWYDDIANT – Dewiswyd dyluniadau o waith Delyth Gwawr, merch Mr a Mrs Hywel Williams, Nant Forgan, sydd yn efrydydd yng ngholeg arlunio Caerwynt, ar gyfer Arddangosfa yn Frankfurt yn ddiweddar.

Caerwynt oedd cynrychiolwyr Prydain yn yr arddangosfa, ac i goroni llwyddiant Delyth, gwerthwyd rhan sylweddol o'i gwaith creadigol i ŵr o Dde Affrica.

Llongyfarchiadau; ymlaen bo'r nod.

PÊL-DROED – Ar Ionawr 1 fe chwaraewyd y gêm derfynol yng nghwpan Ferodo rhwng Cae Glyn, Caernarfon a Chwm-y-Glo. Gêm ddiddorol dros ben, ond colli wnaeth Cwm o un gôl i ddim. Ar ôl iddynt gyrraedd yn ôl cafodd y tîm a'u cefnogwyr fwyd yn y Ganolfan. Diolch i bawb a roddodd mor hael tuag at y tîm pêl-droed mewn unrhyw ffordd. Mae'r hogia i gyd yn dymuno gwellhad buan i Steven Owen, eu golgeidwad ar ôl iddo dorri ei fraich a chael triniaeth lawfeddygol yn yr ysbyty ym Mangor. Brysia i wella Steve. Enillwyr y raffl: Tun 'Quality Street' – Bill Jones, Milk Tray – Dewi Morris, Mint Crisps – Doreen Price, Brazil Nute – Neil Rowlands, Brazil Nuts – Dafydd Parry (Dyfarnwr), Matchmakers – Carys Williams, Nionod Picl – Evan G. Owen.

Hoffai'r pwyllgor unwaith eto ddiolch yn ddiffuant i'r Merched a drefnodd y bwyd a hefyd i bawb a roddodd mor hael tuag ato, a phawb a gefnogodd y tîm.

YR URDD – Nos Iau, Rhagfyr 11 daeth tymor y Nadolig i ben yng nghwmni difyr Mr Edward Morris Jones. Yn wir dymuna pawb iddo ymweld â'r adran yn fuan eto.

Ailddechreuwyd y tymor gyda 'Disgo'r Urdd' ar Ionawr 9. Mr Elfed Roberts, Swyddog Datblygu'r Urdd ddaeth i gynorthwyo gyda'r disgo. Fel Adran hoffem ddymuno'n dda iddo yn ei swydd newydd. Yn ystod y noson enillodd y canlynol docyn llyfr: Rhian Morris, Cwm-y-glo, Caron Jones, Brynrefail a Jaqueline Wager, Brynrefail. Mwynhawyd y noson gan bawb ac yn ystod yr egwyl cafwyd oren a sglodion tatws.

Nos Wener, Ionawr 16 ymgasglodd un ar ddeg o'r plant hynaf oddi allan i'r ysgol a disgwylient yn eiddgar iawn am fws i'w cludo i wersyll yr Urdd yng Nglanllyn. Yn ôl pob sôn cafodd y plant benwythnos i'w gofio ac yn sicr edrychant ymlaen at eu hymweliad nesaf â Gwersyll yr Urdd.

GRADDIO – Bu i Arwel, mab hynaf Mr a Mrs D.E. Jones, 4 Brynhyfryd, raddio o Brifysgol Salford gyda gradd Feistr mewn Adnoddau'r Amgylchfyd yn yr Adran Fywydeg. Cyn-ddisgybl o Ysgol gynradd Cwm-y-glo ac Ysgol Brynrefail yw, ac enillodd eisoes O.N.D. mewn Gwyddoniaeth o Goleg Technegol Gwynedd, Bangor, a gradd Baglor gydag anrhydedd mewn Bywydeg y Môr ac Eigioneg o C.P.G.C., Bangor. Mae ar hyn o bryd yn gweithio fel Warden Gwledig yn Nyffryn y Croal-Irwell ger Manceinion, gan obeithio dilyn ei ddiddordebau ymchwil yn y flwyddyn newydd.

MERCHED Y WAWR – Nos Fercher, Ionawr 16 derbyniodd aelodau'r gangen leol wahoddiad gan Ferched y Wawr, Bethel i dreulio noswaith gyda hwy.

Eu gŵr gwadd oedd Mr Gwilym Owen, y Darlledwr. Dangosodd Mr Owen ffilm ddiddorol iawn yn ymwneud â bywyd gwledig yng Nghymru yn y pedwardegau, gyda'u Nosweithiau Llawen yng ngheginau'r ffermydd.

Cafwyd cwis hefyd a lluniaeth wedi ei ddarparu gan aelodau'r gangen. Diolch yn fawr am baratoi noson mor ddifyr ar ein cyfer.

Edrychwn ymlaen at nos Fercher, Chwefror 17 pryd y gobeithiwn groesawu Madam Sera i'n plith.

Y TABERNACL – Yn ddiweddar enillodd tri gŵr ieanc o'r eglwys raddau mewn gwahanol bynciau. Y tri ydynt Mr Arfon Jones, B.Add, Seiont House, Mr Arwel Jones, MSc, Brynhyfryd a Mr Berwyn Hughes BA, Hyfrydle.

Mae'n bleser mawr gennym eu llongyfarch ar eu llwyddiant.

GWEITHGAREDDAU'R YSGOL – Yn ystod mis Rhagfyr cynhaliwyd Noson Goffi ac arwerthiant er budd Cronfa'r Ysgol o dan nawdd y Gymdeithas Rieni ac Athrawon. Dymuna'r prifathro, a'r staff ddiolch i bawb am bob cefnogaeth i wneud y noson yn llwyddiannus. Yn ystod yr wythnos olaf o'r tymor cynhaliwyd Gwasanaeth Carolau, a drama'r Nadolig 'Gobaith y Byd'. Hefyd cynhaliwyd y te parti Nadolig, a ddarparwyd gan Staff y Gegin, a Staff yr Ysgol. Cyflwynwyd tystysgrifau am bresenoldeb llawn drwy'r flwyddyn 1979-80 i Carys Williams, Andrew Wyn Roberts a Jacqueline Walters. Yn ystod mis Ionawr ymwelodd y plant â Theatr Gwynedd i'r perfformiad o'r Pantomeim 'Rasus Cymylau'.

CANOLFAN GYMUNED Y PENTREF – Ym mhwyllgor y Ganolfan ar Ionawr 21, penderfynwyd sefydlu is-bwyllgor i drefnu gweithgareddau ar gyfer yr haf at gynnal y ganolfan.

Gwahoddir unrhyw bentrefwr sydd â diddordeb i'r pwyllgor nesaf ar nos Iau, Chwefror 5, 1981, am 7.oo o'r gloch.

GOHEBYDD – Drwg iawn gennyf gyhoeddi na allaf gario ymlaen gyda'r gwaith o ohebu tros Gwm-y-Glo i'r Eco.

Byddaf yn ddiolchgar i unrhyw un â diddordeb mewn ymgymryd â'r gwaith, gysylltu â mi cyn i'r rhifyn nesaf fynd i'r wasg, er mwyn cyhoeddi'r enw a chyfeiriad newydd.

Dafydd Price, Tan-y-Graig.

MARW – Ddechrau Tachwedd bu farw Miss Hannah Jane Williams, Minafon, Allt Goch, yn Ysbyty Gallt y Sil, Caernarfon wedi gwaeledd hir. Yr oedd yn enedigol o Gwm-y-glo. Wedi gwasanaeth preifat yn eglwys y Tabernacl (A) claddwyd ei gweddillion ym mynwent eglwys St Mihangel Llanrug. Gwasanaethwyd gan y Parch W.O. Roberts, Llanrug. Cydymdeimlir â'i chwaer Miss Nellie Williams sydd ar hyn o bryd ym Mhlas Pen Gwaith, Llanberis, a'r teulu i gyd.

EGLWYS SANT GABRIEL – Fe gaed cynulleidfaoedd da i ddathlu Gŵyl y Nadolig yn Eglwys Sant Gabriel eleni. Gwasanaeth Naw Llith a Charol y Plant a roes gychwyn ar weithgareddau'r gwyliau. Addysgwyd y plant gan athrawon yr Ysgol Sul a chyfeiliwyd iddynt gan Judith Orritt, Morannedd. Darllenwyd y Llithoedd gan Cynthia Orritt, Doreen Price, Alison Jones, Sandra Williams, Sharon Hughes, Myfanwy Roberts, Mrs L. Orritt a Mrs J.E. Watkins. Y Rheithor a weinyddai'r Offeren Fore'r Nadolig a Miss C. Hughes, Pool Street oedd yr organydd. Arweiniwyd gwasanaeth Gwylnos Galan gan y Rheithor a Miss Hughes wrth yr organ a chaed gwasanaeth Carolau a Darlleniadau dan arweiniad y Rheithor ar Sul cyntaf y Flwyddyn Newydd. Yr organydd oedd Miss C. Hughes. Bu i'r plant hefyd fwynhau eu parti blynyddol yn y Ganolfan ar ddydd Gwener cyntaf y flwyddyn wedi ei drefnu gan athrawon yr Ysgol Sul a rhieni a chyfeillion y plant. Fe ddymuna'r Rheithor ddiolch i athrawon a phlant yr Ysgol Sul am eu parodrwydd bob amser i gynorthwyo gyda phethau ynglŷn â phlant a'r Ysgol Sul ac am eu ffyddlondeb drwy'r flwyddyn. Fe wneir apêl hefyd am rai i fod yn athrawon yn yr Ysgol Sul gan fod y baich yn syrthio ar yr un rhai o hyd.

Y CLEIFION – Anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb sydd wedi bod o dan unrhyw anhwylder yn ddiweddar. Da yw deall fod Mrs C. Owen, Isfryn yn dal i wella a Mrs M. Chick, Mairlys a Mr J.E. Watkins, Dolwen a hyderwn y bydd i'r flwyddyn ddod â llwyr feddyginiaeth i bawb.

**ATHRAWON YN CYFARFOD**

**Ar un o dudalennau eraill y rhifyn hwn o'r Eco gwelwch lun o dîm criced Ysgol Brynrefail 1943-44. Ar ddydd Sadwrn, Ionawr 24 daeth un o aelodau'r tîm yn ôl i'w hen fro i gael ei ddyrchafu'n Llywydd Sirol Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (U.C.A.C.), yng Nghynhadledd Sirol yr Undeb a gynhaliwyd yng Ngwesty Victoria Llanberis. Yr *un* hwnnw oedd Ifan Wyn Williams, gynt o Frynrefail, ond yn awr yn athro Mathemateg yn Ysgol Gyfun Llangefni. Ein llongyfarchiadau gwresog iddo.**

**Cafwyd diwrnod cyfan o drafod a dadlau (ffyrnig iawn ar adegau!), a braf oedd gweld aelodau cangen leol yr Undeb, sef Cangen Caernarfon, yn flaenllaw yn y trafodaethau. Mae holl aelodau'r Undeb yn ein hardal ni yn aelodau o Gangen Caernarfon. U.C.A.C. yw'r Undeb Athrawon mwyaf yng Ngwynedd o dipyn erbyn hyn, ac mae'r gwaith o drefnu Cynhadledd Sirol yr Undeb yn dipyn o gamp. Braf yw cofnodi felly mai dyn lleol yw Trefnydd y Gynhadledd, sef Mr Tegid Roberts, Arwel, Pontrhythallt, Llanrug.**


Awdurdod Datblygu Cymru

**A ydych chi mewn busnes?**
**A ydych chi'n meddwl cychwyn ar eich pen eich hun?**

**Mae Uned Diwydiannau Bychan yr Awdurdod yma i'ch helpu i fod yn llwyddiannus.**

**Fe gewch gyngor gan arbenigwyr profiadol ym mhob agwedd o redeg busnes. Yr ydym wedi dysgu sut i ddewis y ffordd orau i lwyddo ac yn gwybod am yr anawsterau.**

**Gallwch fanteisio ar ein cysylltiadau niferus gyda mudiadau eraill sydd yn awyddus i'ch cynghori, ac mae benthyciadau ar log isel ar gael i rai mathau o weithgareddau.**

**Mae eich swyddfa leol ym Mangor. Cysylltwch â ni i drefnu cyfarfod gydag un o'n cynghorwyr; cewch drafod eich syniadau a'ch gofynion yn rhad ac am ddim.**

Uned Diwydiannau Bychan,
Awdurdod Datblygu Cymru,
Isnant, Ffordd Glynne,
Bangor. Ffôn Bangor 52606

Welsh Development Agency



**NOSON GOFFI A STONDINAU**

yn y

**GANOLFAN LLANBERIS**
**7 p.m.**
**Nos Iau, Chwefror 5ed**

Mynediad: Oedolion 20c Plant 10c
Yr elw at Glwb Pêl-droed
Llanberis

# LLANBERIS

MARW – Ar fore'r Nadolig bu farw yn Birmingham, Richard Watkin Evans, mab y diweddar Mr a Mrs R.W. Evans, Roseward, Rhes Victoria. Bu'n byw am flynyddoedd yn yr ardal hon ac yn gymeriad hynod o hoffus ac yn boblogaidd gyda'r trigolion. Cymerai ddiddordeb mawr yn Eglwys Sant Padarn; ef oedd yn glanhau'r eglwys, ac yn twtio'r glaswellt a'r llwybrau oddi amgylch. Claddwyd ei weddillion ym mynwent Nant Peris gyda'r Canon Alun Jones yn gwasanaethu. Cydymdeimlir â'i weddw a'r plant a'r teulu oll.

Ar ôl iechyd bregus am rai blynyddoedd bu farw yn dawel yn ei gartref un o gymeriadau mwyaf hoffus yr ardal sef T.R. Williams, Stryd y Dŵr – neu fel y byddai pawb o'i gyfeillion yn ei adnabod – TOW. Bu'n chwarelwr ar hyd ei oes – wedi dechrau yn y chwarel ar ei union o'r ysgol. Roedd yn hynod o dawel a charedig ac yn fawr ei barch gan yr ardalwyr, ac yn ffefryn mawr gan y plant.

Cydymdeimlir â'i chwiorydd a'i frodyr a'r teulu i gyd yn eu colled.

GARTRE O'R YSBYTY – Mae amryw o'r trigolion lleol wedi bod yn bur wael ac wedi eu gorfodi i dderbyn triniaeth mewn ysbyty – ond erbyn hyn maent wedi dychwelyd adref ac yn gwella'n dda – **Evie Roberts**, Rhes Minafon – bu ef yn Ysbyty Môn ac Arfon. **Mrs Rosalind Lloyd Owen**, Y Stryd Fawr, hithau ac eraill hefyd wedi dychwelyd o'r un ysbyty sef, **Mrs Janet Pepper**, Stryd Newton, **Mrs Delyth Hughes**, Tan y Dderwen, **Mrs Betty Parry**, Min y Don.

CLWB Y MAMAU – Yn ystod Ionawr cafwyd dau gyfarfod pleserus iawn yn y Ganolfan dan lywyddiaeth Mrs Carys Hughes. Yn y cyfarfod cyntaf noson ddifyr gyda Mr Vernon Hughes, Bush Bank, a Mr Leslie Roberts, dau o Swyddogion yr Awdurdod Dŵr, yn dangos ffilmiau ac yn egluro llawer o bethau cymhleth ynglŷn â'r Cyflenwad Dŵr.

Yn ddiweddarach yn y mis cafwyd noson ddifyr arall yn gwylio lluniau a ffilmiau a ddangoswyd gan yr Ymwelydd Iechyd lleol. Diolchwyd iddi gan y cadeirydd.

CYDYMDEIMLIR – â'r cyfeillion canlynol yn eu profedigaeth o golli perthnasau agos iawn yn ystod gwyliau'r Nadolig a'r wythnosau dilynol: Mrs Robert Morris, Bronnydd a

Mrs Maisie Lewis, Llys Tudur wedi colli eu chwaer oedd yn byw yng Nghaernarfon.

Mrs Dilys Roberts, Dakota, hithau wedi colli ei chwaer yng nghyfraith oedd yn aros yng Nghartref Pen Gwaith ers rhai misoedd.

Mrs Eirlys Ellis, Rhes y Cae sydd wedi colli chwaer i'w thad o Gwm-y-glo, hithau yn yr ysbyty yng Nghaernarfon.

Mrs Clara Roberts, Anfield, a gollodd frawd yn Birmingham.

DAMWAIN – Disgynnodd Mrs Hughes, Pentre Castell yn ei chartref a thorri ei choes. Dymunir adferiad llwyr yn fuan iddi.

YR YSGOL FEITHRIN – Mae'r flwyddyn newydd yn dangos i ni fod cefnogaeth gref i'r Ysgol Feithrin yn dal o hyd. Bu'r rhieni yn brysur iawn tua'r Nadolig yn paratoi parti i'r babanod ac ar ôl y parti cafwyd hwyl a sbri gyda dawnsio a chwarae gemau. Daeth Siôn Corn ag anrheg i bob un o'r plantos. Ceir pob gwybodaeth am yr ysgol a'i gweithgareddau gan Mrs Eiddwen Thomas, Stryd y Ffynnon, yr ysgrifenyddes.

YN YR YSBYTY – Yn Ysbyty Môn ac Arfon Bangor mae amryw o'r ardalwyr wedi derbyn triniaeth lawfeddygol – Mrs Jane Lloyd Jones, Peris View, hefyd Mr William Hughes, Fflatiau Dôl Eilian; Mrs Arthur Roberts, Fflatiau Dôl Eilian a Mrs Meiriona Rowlands, Charlotte Street, Mr Riley, Coed y Glyn, yntau yn un o ysbytai Dinbych.

Dymunir iddynt adferiad llwyr yn fuan iawn ac y byddant gartre gyda'u teuluoedd a'u cyfeillion.

UNDEB Y MAMAU – Ar ddechrau'r flwyddyn cynhaliwyd Gwasanaeth o Ganu Carolau dan arweiniad y Canon Alun Jones. Pasiwyd cydymdeimlad â dwy o'r aelodau sef Mrs Williams, Woodleigh a Mrs Cheesman yn eu profedigaethau, a dymunwyd adferiad buan i fab Mrs R.H. Evans, Gwynllys. Talwyd diolchgarwch yr aelodau i Mrs Norman Jones, a Mr Dennis Hughes am eu gweithgarwch drwy'r flwyddyn. Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad i'r gwasanaeth gan Mrs W.H. Parry gyda Mrs Agnes Owens yn cefnogi.

CANIADAETH Y CYSEGR – Gwir fwynhawyd y rhaglen o Ganiadaeth y Cysegr o Jeriwsalem, Capel yr Annibynwyr ar Ionawr 18. Arweiniwyd y canu gan Mr John Ellis, a Mr Robert Lloyd oedd yr organydd, a chyflwynwyd y rhaglen gan y Parch Hugh John Hughes. Cafwyd cyfraniad i'r rhaglen gan blant o Ysgol Dolbadarn. Roeddynt yn eithriadol o swynol.

GWASANAETH UNDEBOL – Yn ystod wythnos yr Undeb Cristnogol cynhaliwyd gwasanaeth undebol yn eglwys Sant Padarn pryd y cymerwyd rhan gan arweinyddion yr holl eglwysi sef y Canon Alun Jones, y Tad Macnamara, y Parch Hugh John Hughes a'r Parch Marcus Robinson.

LLONGYFARCHIADAU i Ann a Vernon, Stryd Tomos ar gael merch fach – Leah, ac i Gloria a Bill Pitts, nain a taid Llanberis a Jane a Gordon, Ffestiniog am fod yn nain a thaid am y tro cyntaf.

Hefyd llongyfarchiadau i Carolyn a'i phriod, Stryd Siarlot gynt (nawr yng Nghaernarfon) am gael geneth fach – Clare – ac hefyd i Agnes a Gordon hwythau yn nain a taid am y tro cyntaf.

CYMDEITHAS LENYDDOL CAPELI LLANBERIS – Ionawr 5 – Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn o dan ofal Mr Hugh R. Jones, a chwiorydd y Gymdeithas yn cymryd rhan. Cawsom gyfarfod hyfryd a bendithiol iawn.

Ionawr 19 – Noson fythgofiadwy gyda Mr J.O. Roberts, yr actor a'r darlledydd, yn cyflwyno ei raglen 'Broc Môn' sydd yn bwrw golwg ar rai o bobl a chymeriadau arbennig Ynys Môn, ac yr oedd yn amlwg bod pawb wedi cael mwynhad wrth wrando arno. Llywydd y noson oedd y Parch M.W. Robinson, B.D.

Chwefror 2 – Bydd y noson dan ofal Mrs Dilys Baylis sydd wedi paratoi Cwis ar ein cyfer.

Chwefror 16 – Cyfarfod olaf y tymor, sef cinio'r Gymdeithas ym Mron Eryri.

Y mae'r tymor wedi bod yn un llwyddiannus iawn, ac y mae'r diolch i'r aelodau i gyd am eu cyfraniad ac am eu cefnogaeth i bob cyfarfod.

YN GWELLA – Da yw clywed bod ein Gohebydd yn Llanberis, Mrs Siân Thomas, Stryd Newton, wedi dod adref, ac yn gwella. Mae ei chydweithwyr ar y papur yn anfon eu cofion cynhesaf ati.

# BETHEL

DIOLCH – Dymuna Carys a Mansell Williams ddiolch i'r teulu a ffrindiau am yr anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas.

MERCHED Y WAWR – Cafwyd noson lwyddiannus iawn yng nghwmni Cangen Cwm-y-glo nos Fercher Ionawr 13eg. Dangoswyd y ffilm Noson Lawen gan Mr Gwilym Owen a chafwyd cwis diddorol ganddo ar ôl dangos y ffilm. Llywyddwyd y noson gan Mrs Madge Williams a diolchwyd i Mr Owen ar ran cangen Bethel gan Mrs Rita Williams ac ar ran cangen Cwm-y-glo gan Miss Mat Pritchard. Darparwyd lluniaeth gan y pwyllgor. Mrs Alice Jones a enillodd y raff.

Gofynnir i bawb sydd yn dymuno mynd i'r cinio Gŵyl Ddewi roi eu henwau a'r tâl i'r trysorydd yng nghyfarfod mis Chwefror.

EISTEDDFOD BETHEL – Coginio Gwau a Gwnïo – Bydd beirniaid y cystadleuthau coginio, gwau a gwnïo yn beirniadu ar y cystadleuthau yma yn y Neuadd nos Iau, Chwefror 12ed.

Dylai pawb sydd yn bwriadu cystadlu ddod â'r cynnyrch i'r Neuadd erbyn chwech o'r gloch gyda ffug enw ar y cynnyrch a'r enw mewn amlen.

Bydd arddangosfa o'r cynnyrch yn y Neuadd ar ôl y beirniadu a bydd croeso i bawb ddod draw i'w gweld. Tâl mynediad fydd 10c.

PWYLLGOR CARNIFAL – Cynhelir cyfarfod o bwyllgor y Carnifal nos Wener Ionawr 30 am 7.30 p.m. Erfynnir am bresenoldeb yr holl aelodau.



PRIODI – Dydd Sadwrn, Tachwedd 29 priodwyd Mansell Williams, 41 Rhyd Fadog, Deiniolen â Carys Wyn Parry, Hafod Elen. Cynhaliwyd y wledd yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis.

Dymunwn bob bendith i'r ddau yn eu bywyd newydd.


**AR WERTH**

**Beic Racer 3 gear i Ddyn neu Fachgen. Beic Merched 3 Gear. – Ymholiadau Port Dinorwig 670861.**



SETIAU TELEDU LLIW AIL LAW
MEWN CYFLWR RHAGOROL
SIOP DELEDU
T CEPAS
Ffordd yr Orsaf
LLANRUG
*(Ffôn: Llanberis 205 gyda'r nos)*



Y GERDDI, CAERNARFON



EIFIONNYDD

- SAFLE GODIDOG AR LAN Y FENAI
- BYTHYNNOD HARDD
- GWAITH ADEILADU DA
- PRISIAU RHESYMOL
- PRYNWCH NAWR

AM FANYLION GALWCH AR Y SAFLE (CAERNARFON 5989) NEU CYSYLLTWCH Â'R CWMNI

Datblygwyr tai a Thwristiaeth
CYMRODYR HIRAETHOG Cyf
Llys Hiraethog, Llain y Capeli, Dinbych, Clwyd Ffôn Dinbych (074571)3600

# O SIAMBR SELWYN

Wnaethoch chi rai? Ydach chi wedi torri nhw? Ie! yr addunedau dechrau blwyddyn 'na sy gen i dan sylw.

Llenwi fy nyddiadur ddechrau'r mis 'ma wnaeth i mi sylweddoli i mi dorri un adduned a wnês i'r llynedd. Addewais i mi fy hun na fyddwn i'n derbyn gwahoddiad i gymaint o 'Steddfodau i feirniadu ynddynt. Ond crwydro ledled Cymru fydd hi eleni eto os byw ac iach; ac mae'n debyg y caf fwynhad a phleser ymhob un o'r eisteddfodau, er gwaetha'r blinder.

Edrychaf ymlaen yn arbennig at un 'Steddfod, sef Gŵyl Fawr Glannau Merswy a gynhelir ym mhrifysgol Lerpwl ym mis Mawrth. Mae'r testunau yn ddiddorol ac yn uchelgeisiol iawn, a deallaf bod naws yr hen Eisteddfod Lewis' enwog ers talwm yn dychwelyd i'r ŵyl arbennig hon.

Fe hoffwn weld un peth yn digwydd yn ystod 1981, sef gweld hysbysebion am swyddi cyhoeddus gyda'r Cyngor Sir, Cyngor Arfon, y banciau, M.A.N.W.E.B. etc. yn dwyn yr amod – "gwybodaeth o'r Gymraeg yn hanfodol." 'Amhosib' meddwch. Tydi'r cymwysterau angenrheidiol ddim gan y mwyafrif o Gymry Cymraeg i gario allan y dyletswyddau. Tybed?

Fe'm cythruddir yn aml pan ffoniaf i ambell swyddfa gyhoeddus (gan gynnwys ambell, adran o Gyngor Sir Gwynedd) a chael fy nghyfarch "Sorry, I don't speak Welsh".

Diolch i Heddlu Gwynedd am iddynt anfon heddwas i Fethel, ond pam anfon un di-Gymraeg?

Sawl athro yng ngwasanaeth Pwyllgor Addysg Gwynedd sy'n uniaith Saesneg? Pam fy mod i, fel Clerc Cyngor Cymdeithas Llanddeiniolen yn derbyn ambell lythyr o Gyngor Arfon yn Saesneg yn unig? Rwy'n siŵr y byddai'r amod "gwybodaeth o'r Gymraeg yn hanfodol" yn sicrhau cryn dipyn o swyddi i bobl ifanc Gwynedd sy'n awyddus i weithio ac i ymgartrefu yn eu cynefin.

Yng nghanol gaeaf fel hyn, byddaf yn cael mwynhad wrth edrych drwy'r catalogau gwyliau. Mae't ŷ acw yn llawn ohonynt , a theimlaf rhyw gynhesrwydd a bodlonrwydd yng nghanol gerwinder gaeaf, wrth edrych ar ddarluniau o wledydd fy mreuddwydion.

Merched siapus yn torheulo ar draethau'r ynysoedd pellenig. Llong yn llithro'n hamddenol dros Fôr y Canoldir, neu'r miloedd yn sathru traed ei gilydd ar strydoedd lliwgar Hong Kong.

Ie, dyma'r adeg i drefnu eich gwyliau haf, ac i deithio ar adain dychymyg i bellafoedd daear, a gweld gwireddu'r breuddwydion pan ddelo Gorffennaf ac Awst.

Y ffordd gyflyma a'r leia trafferthus i deithio i'r Cyfandir yw drwy hedfan; ond mae 'na filiynau o bobl na fyddan nhw yn rhoi eu troed ar awyren am bris yn y byd.

Wyddoch chi, fod yna 25 miliwn o bobl America yn rhy ofnus i hedfan? Eto bob diwrnod yn y wlad fawr honno mae 'na 2,500 o awyrennau yn cludo ar gyfartaledd 650,000 o bobl o 400 o feysydd awyr heb ddamwain o gwbl.

Yn wir, yn ôl cwmni yswiriant Lloyds, mae'n 25 gwaith diogelach i deithio mewn awyren nag ydi mewn car.

Felly codwch eich pac, cadwch y car, a ffwrdd a chi yn llawn ffydd i bellafoedd daear mewn Jumbo Jet.

Fuo Nain erioed mewn awyren chwaith – mae hi'n berffaith fodlon os caiff hi olchi ei thraed yn y môr yn Ninas Dinlle unwaith bob ha.

Fe dreuliodd y gryduras ychydig o ddyddiau yn y *C & A* yn ddiweddar. Nyrs bach ddymunol yn dod ati un noson ac yn dweud wrthi – "Nain, rydach chi'n mynd i gael enima gynnon ni bora fory."

A Nain, yn ôl ei harfer, ddim yn awyddus i achosi trafferth i neb yn ateb, "Nyrs bach, peidiwch a mynd i drafferth o gwbwl, mi 'neith *Corn Flakes* yn iawn gin i."

Hwyl ichi – O ia, blwyddyn newydd dda hefyd!

# UN NOS OLA LEUAD AR DAITH

Gyda marwolaeth Caradog Prichard, y prifardd, nofelydd a'r newyddiadurwr a hanai o Fethesda, y llynedd collodd Cymru un o'i llenorion gorau. Cipiodd goron yr Eisteddfod Genedlaethol deirgwaith yn olynol a'r gadair unwaith yn ogystal ag ysgrifennu un o nofelau pwysicaf llenyddiaeth Gymraeg.

Fe'i ganwyd yn fuan wedi Streic Fawr y Penrhyn, ei eni yng nghanol tristwch teuluol, anghydfod diwydiannol a'r Diwygiad a dylanwadodd y digwyddiadau ysgytiol yma ar ei fywyd ac ar ei waith. 'Roedd ganddo hiwmor byrlymus a cheir hwyl a chwerthin ynghlwm wrth dristwch a dagrau yn ei bortread o ardal ei febyd a'i chymeriadau lliwgar.

Mae 'Un Nos Ola Leuad', addasiad llwyfan newydd John Ogwen, yn ffurf ehangach o'r cyflwyniad a welwyd gyntaf yn Theatr Fach y Maes fore Gwener y brifwyl y llynedd ac a ganmolwyd fel 'y profiad theatrig mwyaf gwefreiddiol a gefais yn Eisteddfod Dyffryn Lliw' gan Bob Roberts, Dyserth yn 'Y Faner'. Yn ogystal â John Ogwen a Maureen Rhys cymerir rhan gan Wyn Bowen Harries, Gwen Ellis, Grey Evans a Gwyn Vaughan Jones.

Yn dilyn y galw mawr ar y Cwmni i ymweld â chanolfannau llai eu maint na'r prif theatrau trefnir taith 'Un Nos Ola Leuad' i fynd i neuaddau lleol neu stiwdios ac ymwelir â nifer o ganolfannau am y tro cyntaf ers amser.

Bydd y daith yn dechrau yn Theatr Seilo, Caernarfon ar Chwefror 17 a gellwch brynu tocynnau ar gyfer y perfformiad yn Siop y Pentan, Caernarfon (Ffôn C'fon 5262). Bydd dau berfformiad yn nechrau mis Mawrth (y 5ed a'r 6ed) yn Theatr Gwynedd, Bangor.

## NANT PERIS

DIOLCH – Dymuna Morris Wyn Williams ddiolch o galon i'w deulu, cymdogion ac i'w ffrindiau yng nghantîn Glynrhonwy am eu dymuniadau da, cardiau a rhoddion iddo tra bu'n yr ysbyty.

LLWYDDIANT – Llongyfarchiadau i Jennifer Ellis, Hafan ar lwyddo Gradd 5 ar ganu'r piano. Mae Jennifer yn ddisgybl i Miss C. Williams, Summer Hill, Llanberis.

GWAELEDD – Croeso gartref a dymuniadau am adferiad llwyr a buan i David Emrys Griffiths, Bro Glyder ar ôl cael triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Môn ac Arfon.

CAROLAU – Cafwyd noson o ganu carolau yn Rehoboth nos Sul, Rhagfyr 28. Roedd yn noson lwyddiannus iawn, a graen ar waith y plant a'r rhai hŷn. Y rhai gymerodd ran oedd Llinos Haf, Alan, Iestyn, Siân, Sharon, Helen, Dafydd a Hefin, a chafwyd tair carol ar offeryn chwyth gan David, deuawd gan O.W. Humphreys a Helen Mai, a pharti deulais gan y merched. Llywyddwyd gan O.W. Humphreys. Diweddwyd gan Iwan.

PROFEDIGAETH – Cydymdeimlir yn ddwys â Mr a Mrs Keith Bingham a'r teulu i gyd ym Maes-yr-haul yn eu profedigaeth chwerw o golli eu merch fach yn bedwar mis oed yn frawychus o sydyn.

YN YR YSBYTY – Dymunir gwellhad llwyr a buan i D. Thomas, Gwesty'r Faenol sydd yn Ysbyty Lerpwl a Melfyn Pritchard, Llys Awel sydd yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor.

## BETWS GARMON

PEN-BLWYDD YN 18 OED – Llongyfarchiadau i Richard Davies, Gwesty Castell Cidwm ar ei ben-blwydd yn 18 oed ar Ionawr 14.

MARW – Ar noswyl y Nadolig bu farw Mrs Edith Peacock (Glandŵr gynt) yn 88 oed. Cydymdeimlir â'i merch, Mrs L. Hodgson, Wallasey, a ofalodd yn dyner am ei mam ers rhai blynyddoedd, ac â'i dwy wyres, Brenda, Ystrad Uchaf a Lillian, Glandŵr gynt, a'u teuluoedd.

Hefyd ar Ionawr 13 daeth y newydd trist am farwolaeth Mrs J. Jones, 9 Tref Eilian, Waunfawr yn 93 oed (Tŷ Capel a Graianfryn gynt). Roedd yn foneddiges hoffus, cymwynasgar a mawr ei pharch gan bawb. Daliai ei chalon yn y pentref hwn er iddi drigo am flynyddoedd yn Lerpwl cyn dychwelyd yma i fyw adeg yr ail ryfel. Symudodd i fyw i'r Waun rai blynyddoedd yn ôl. Cydymdeimlir â Mary ac Alice, ei dwy ferch, a'u teuluoedd, ac â'i chwaer Miss M. Pritchard, a'r teulu i gyd yn eu galar.

W.J.GRIFFITH
PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
*Ffôn: Caernarfon 3248*
GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW
GWRES BP
Aelod o'r National Association of Plumbing and Mechanical Services Contractors.
*Dim un dasg rhy fychan,*
*Dim un dasg rhy fawr.*



# O6I90 – O CHWECH I NAW DEG!

Sylwch fod y teitl yn aros yr un fath hyd yn oed ar ei ben i lawr!

## TUDALEN I'R PLANT: HEN AC IFANC

Gan DYFRIN Y DEWIN



### BLONDIN
### Y Cerddwr Rhaffau

Chwech oed oedd Blondin pan ddechreuodd ar ei alwedigaeth. Y flwyddyn – 1830. Daeth cwmni o acrobatwyr i'w bentref, ac aeth Jean François Gravelet i'w gwylio. Aeth o'r perfformiad i geisio efelychu'r acrobatwyr – a disgyn wrth gwrs. Ond daliodd ati, a buan y daeth yn eithaf da ar gadw cyd-bwysedd ar raff wedi ei chlymu rhwng dwy goeden. Anfonodd ei dad ef i ysgol arbennig i ddysgu bod yn acrobat, a dechreuodd berfformio'n gyhoeddus dan yr enw 'Y Rhyfeddod Bach'. Mewn amser, newidiodd ei enw i Blondin.

Un diwrnod, hysbysodd Blondin ei fod am groesi Rhaeadr Niagra ar raff. 'Doedd neb erioed wedi meiddio gwneud hyn o'r blaen. 'Roedd y rhaff yn 1,100 o droedfeddi o hyd, a byddai un cam gwag yn hyrddio Blondin i'r dyfroedd chwyrn islaw.

Ar Fehefin 30, 1859 'roedd y rhaff yn barod. Er iddi gael ei thynnu mor dynn ag oedd bosibl, 'roedd tua 50 troedfedd ohoni'n gollwng yn y canol ac yn ysgwyd yn y gwynt. Dyma fyddai'r rhan anodd i Blondin. Daeth miloedd o bobl i'w wylio – rhai yn betio ynglŷn â'i fedr.

Cerddoddd Blondin allan ar y rhaff gan gario polyn i helpu cadw'i gyd-bwysedd. Cyrhaeddodd y canol, ac eistedd i lawr! Yna, cododd a cherdded ar draws. Ar ôl gorffwys am ugain munud, dechreuodd groesi'n ôl, a chario cadair gydag ef. Yn y canol unwaith eto, rhoddodd y gadair i orffwys ar y rhaff, ac eistedd ynddi. Yna croesodd yn ôl i'r lle cychwynodd. Awr o berfformiad.

Croesodd Blondin ar draws Raeadr Niagra lawer gwaith ar ôl hyn. Rai troeon cariodd gadair a bwrdd drosodd, gan fwyta pryd o fwyd hanner y ffordd ar draws. Croesodd yn y nos – gyda goleuadau a heb oleuadau. Croesodd gyda mwgwd am ei lygad. Aeth a stôf gyda ef ar un tro – a choginio omlet ar y canol! Croesodd wysg ei gefn ddwywaith.

Ond mae'n siŵr mai'r trip enwocaf oedd croesi gan gario dyn arall ar ei gefn. 'Roedd tua 300,000 o bobl wedi dod i'w wylio y diwrnod hwnnw, ac yr oedd tywysog Cymru, Edward VII yn eu plith. Harry Colcord oedd y dyn dewr a oedd yn fodlon cael ei gario ar draws. 150 o droedfeddi ar draws, teimlodd Blondin fel gorffwys, a gofynnodd i Harry ddringo'i lawr a sefyll ar y rhaff wrth ei ochr! Bu'n rhaid i Harry Colcord wneud hyn amryw o weithiau wrth groesi, a dywedodd ddeugain mlynedd yn ddiweddarach ei fod yn parhau i gael breuddwyd ynglŷn â'r anturiaeth, ac yn deffro'n chwys oer drosto.


Beth ddigwyddodd i Blondin? Wnaeth o ddisgyn oddi ar ei raff? Naddo, bu farw'n dawel yn ei wely yn 73 mlwydd oed, ond bydd sôn am ei orchestion am flynyddoedd i ddod.

## ERS TALWM . . .



**Fyddwch chwi'n hoffi cael gwersi gwaith llaw yn yr ysgol? Dyma lun o ddosbarth o enethod diwyd yn ysgol Penisarwaun tua 1956.**
**Rwy'n siŵr eich bod yn adnabod y genod.**
**Pwy oedd yr athrawes? Beth oedd y genod yn wnïo?**
**Llun gan Mrs Jones, 13 Bryntirion, Penisarwaun.**

## LLUN I'W LIWIO – I'R PLANT LLEIAF



## WYDDOCH CHI?

Pryd cafodd y siwt danfor ei darganfod.

Ym 1797, dyfeisiwyd siwt gan Almaenwr o'r enw Klingert. Gallai'r person a wisgai'r siwt anadlu o dan y dŵr, oherwydd 'roedd pibell yn cyrraedd o'r siwt i'r cwch uwchben a'r awyr iach yn cael ei sugno drwyddi.

Ym 1837 dyfeisiwyd siwt arall gan Augustus Siebe. Hon oedd y siwt 'fodern' gyntaf ac fe'i gelwid yn wisg 'gaeëdig' – tebyg iawn i'r rhai a ddefnyddir hyd heddiw.

Yn llawer diweddarach, dyfeisiwyd yr aqualung er mwyn galluogi'r deifiwr i fod yn ystwythach o dan y dŵr. Erbyn heddiw, mae deifio SCUBA yn boblogaidd iawn.

GWOBR

Bydd £1 o wobr i'r un cyntaf i anfon i mewn i egluro ystyr y gair 'SCUBA'. Anfonwch eich ceisiadau i Dyfrin y Dewin, Gwasg Gwynedd, Caernarfon erbyn Chwefror 18fed.


**Wrth droed yr Wyddfa . . .**



**BWYTY FFERM**
**BRON ERYRI**
**LLANBERIS** Ffôn 391

Perchnogion: Mr a Mrs AW Hughes

Bwyty Trwyddedig · A la Carte · Bwyd Basgedi · Bwyd Môr Ffres

**Wedi eu paratoi gan ein Chef profiadol iawn**

Partion · Ciniawau · Gwleddoedd · Priodasau

*Lle i 110 ar y tro*
*Ffoniwch i fod yn saff o le*

# GOFALU AM BLANT (III)

## YMATEB

Angen mwyaf y Gwasanaethau Cymdeithasol yw dod o hyd i rieni maeth, sef yr aelwydydd hynny sydd yn fodlon derbyn i'w gofal ddeithriaid (am gyfnodau hir neu fyr).

Efallai na ddylswn alw plant a phobl ifanc yn ddieithriaid, ond dyna ydynt, a dyna hefyd fydd y rhieni maeth i'r plant. A dyna sydd yn gwneud y gorchwyl mor anodd. Mae'n ddigon hawdd derbyn cyfaill agosaf y ferch i aros dros y gwyliau, neu hyd yn oed y cariad, ond mater arall yw agor y drws i ofalu am blant diarth.

Ond dyma yn union yw'r angen. Dod o hyd i deuluoedd neu barau priod, sydd yn fodlon gofalu a chynnig cynhesrwydd ac awyrgylch teulu, rhodd disgyblaeth a ddeillia o ddeallusrwydd o fyd y plentyn a'i broblemau.

Nid peth hawdd yw creu yr awyrgylch gartrefol fydd yn ganllawiau i hapusrwydd a diogelwch i blant sydd rywfodd yn y gorffennol wedi colli yr union beth yna, sydd mor angenrheidiol. Anodd iawn yw ail-greu paradwys plant.

I lawer un, mae meddwl am dderbyn bachgen deuddeg oed a droseddodd yn creu dychryn, mae meddwl am gymryd merch bymtheg oed yn hunlle', ond dyna yn union yw'r angen. Mae'n haws cydsynio i dderbyn babi tair wythnos neu grwt tair oed – ond yr un yw'r angen, yr un yw'r gorchwyl.

Nid tasg hawdd mohoni o gwbl, taliad neu beidio. Nid pawb a all derbyn plant pobl eraill i'w cartredi – **ond** os oes diddordeb gennych, ac y carech fwy o wybodaeth, yna coeliwch fi buasem yn falch o dderbyn gair gennych.

Ein gorchwyl ni wedyn fuasai esbonio i chwi oblygiadau bod yn rhieni maeth; a cheisio disgrifio mor fanwl ag a fedrwn y broblem, a'r sialens.

Os oes gennych ddiddordeb a fuasech yn fodlon llenwi'r blwch isod a'i ddychwelyd inni? Gallaf eich sicrhau chwedl y gŵr busnes hwnnw, "That there is no obligation to buy".

Cedwir y cyfan yn gwbl gyfrinachol, ac nid yw llenwi'r blwch yn eich clymu mewn unrhyw fodd.

Mae diddordeb gennyf mewn trafod y posibilrwydd o fod yn rhiant maeth i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Enw:** ..............................................................................

**Cyfeiriad:** ..............................................................................

..............................................................................

..............................................................................

**Rhif Teliffon:** ..............................................................................

Dychweler i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol
Swyddfa'r Sir,
Llangefni
neu
Plas y Coed,
Port Penrhyn, Bangor.

neu ffoniwch Caernarfon 4441 a gofyn am Gethin Evans.

## O BWYLLGOR PLAID CYMRU, ETHOLAETH ARFON

Ym Mhwyllgor Etholaeth Plaid Cymru a gynhaliwyd yng Nghaernarfon yn Ionawr penderfynwyd, gan ei bod yn Flwyddyn Ryngwladol Pobl Fethedig, fod canghennau'r Blaid yn Etholaeth Arfon yn mynd i wneud archwiliad arbennig ar adeiladau cyhoeddus, siopau, ysgolion, toiledau etc. i ganfod eu haddasrwydd ar gyfer pobl fethedig. Y mae Mesur Preifat ein Haelod Seneddol, Mr Dafydd Wigley yn anelu at wella deddfau yn ymwneud â phobl o dan anfantais. Bydd y Gweithgor yn gwneud adroddiad a thynnu sylw at y cyrff a all wella'r cyfleusterau.

Cynigiwyd fod aelodau'r Blaid, ei Chynghorwyr yn arbennig, yn dinoethi'r twyll ydd ynglŷn â'r modd y mae'r llywodraeth Doriaidd yn disgwyl i gynghorau lleol wneud ei gwaith drosti, ac yn sicrhau cyhoeddusrwydd i'r anfodlonrwydd sydd ar hyn o bryd yn cael ei gadw o'r wasg. Ni ellir cyfiawnhau toriadau sydd yn golygu torri gwasanaethau a cholli swyddi tra bod polisiau'r llywodraeth ym mhob cyfeiriad yn achosi diweithdra a chwalu sail diwydiant. Dylai'r Blaid fod yn llais cyson i fynegi anniddigrwydd Cymru yn wyneb polisiau'r llywodraeth.

CLWB CANT PLAID CYMRU – Dyma enillwyr y ddau fis diwethaf: £10.00: O.E. Evans, Monallt. £2.50: Eryl Roberts, Tyddyn Alis. £2.50: Gwyndaf Hughes, 20 Glanffynnon. £10.00: Mr a Mrs Inigo Jones, Eilionwy; £2.50: Selwyn Williams, Cartref. £2.50: Derfel Griffiths, Caernarfon.

## OES GAFR ETO . . . gyda Leslie Larsen



Yn Saesneg fe ddefnyddir y gair feral (o'r Lladin, fer: anifail gwyllt) am anifail dof wedi mynd yn wyllt. Am wn i, nid oes gair Cymraeg am hyn ond y mae gennym enghraifft wych ohono yn yr afr wyllt. Y mae geifr gwylltion i'w cael, yn yr Alban lle ceir tua 60 o deuluoedd; mewn mannau yn Iwerddon a Lloegr; gyda nifer go dda o deuluoedd yng Nghymru.

Yn ein bro fe'u gwelir ar lethrau ac esgeiriau'r Glyder mewn teulu go fawr ac un llai niferus ar Gastell Cidwm a chlogwyni Mynydd Mawr. Tu allan i'n bro ni, trigant ar ambell fynydd yn yr hen Feirionnydd, ambell ynys, ambell benrhyn ac yng ngwlad Llŷn. Bu teulu o tua 14 ohonynt yn rhodio'r tir rhwng Carreg y Llam a Nant Gwrtheyrn hyd at yn ddiweddar. Daeth y Comisiwn Coedwigaeth yno i blannu coed bythwyrdd ac yn ôl yr hyn a glywais lladdwyd y geifr.

Dirgelwch o'r mwyaf yw sut y daeth y geifr hyn i fod yn wyllt. Honnai ambell un bod geifr o Iwerddon a gerddai drwy Gymru yn nyddiau'r Porthmyn yn dianc weithiau a mynd yn wyllt, eraill bod cyn-berchennog un o westai y fro wedi gollwng geifr dof ar y Glyder. Ychydig dros 200 mlynedd yn ôl yr oedd yr enwog Ddr. Samuel Johnson mewn cwch ar un o lynnoedd Llanberis ac un o chwaraeon y plant oedd gydag ef oedd cyfri geifr ar yr Wyddfa. Cyfrodd un eneth 143 ohonynt. Mi dybiwn felly bod mynd garw ar gadw geifr ar un cyfnod yng Nghymru, a hwyrach bod y rhain oedd yn dianc o bryd i'w gilydd a mynd yn wyllt.

Nid oes cysylltiad rhwng y gwahanol deuluoedd ac y maent fel defaid yn anifeiliaid sy'n cadw oddi mewn ffiniau eu tiriogaeth. Ar dywydd mawr o eira a lluwch fe ddont i lawr i dir isel i chwilio am flewyn glas; ym mherfeddion gaeaf fe'u gwelir weithiau wrth ymyl y ffordd o Gapel Curig i Ben y Gwryd. Nid yw'r ffermwyr yn eu herlid ond yn hytrach maent yn gadael llonydd iddynt am eu bod yn ddiogelach ar glogwyni peryglus nad yw defaid. Mae'r geifr yn pori'r clogwyni hyn gan fwyta'r glaswellt a fyddai'n demtasiwn i ddefaid ac yn eu denu i leoedd peryglus.

Flynyddoedd yn ôl yr oedd Mr A.W. Roberts (Wynnant) o Fryn Froch, Nant Peris, yn ysgrifennu mewn papur lleol ac yn dweud hanes mintai o Ffiwsilwyr Cymreig yn Nant Peris yn ystod y Rhyfel Cyntaf. Yr oedd arnynt angen 'mascot' ac ni thalai dim ond dal gafr wyllt at y gwaith. Gyda chymorth ffermwyr a chŵn ac ar Sadwrn braf, aethant ar y Glyder a llwyddo i ddal gafr. Daethpwyd â hon i lawr yn fuddugoliaethus i Nant Peris gyda'r seindorf yn arwain. Ond mae'n rhaid mai heddychwraig oedd yr afr oherwydd ychydig o wythnosau wedi iddi adael y Nant bu farw.

Mae'r afr wyllt yn llai o ran maint ac yn fwy blewog na'r un ddof. Y maent yn swil ac, yn wir, ychydig o wybodaeth sydd gennym amdanynt. Yn gynnar yn nhymor yr hydref bydd y bychod yn brwydro'n galed ac yn twlcio ei gilydd yn ddidrugaredd nes bod y lle yn diasbedain gyda'r sŵn. Gwnant hyn er mwyn i'r enillydd hawlio ffafr y menywod.

Wedi'r holl frwydro mae'n syndod gen i eu bod mewn cyflwr digon da i fanteisio ar hyn.

Yn gynnar yn y flwyddyn bydd y mynnod yn cael eu geni ac ymhen ychydig o oriau gall y rhai bach ddringo'r clogwyni yn ddigon da i godi cywilydd ar Sherpa Tenzing.

Maent yn ddiddorol ac yn haeddu lle ar ein mynyddoedd. Gobeithiaf caiff yr anifail swil hwn lonydd i barhau i fod yn rhan o'n hetifeddiaeth.

Gyda llaw diolch i Ymddiriedolaeth Naturiaethwyr Gogledd Cymru am yr hawl i ddefnyddio'r arwyddlun.


Y Bistro

**45 Stryd Fawr**

**LLANBERIS**

***Ffôn: PADARN 278***

**Pryd gorau'r fro.**

# DINORWIG




*Llun o Ddosbarth 4 neu 5 yn Ysgol Dinorwig tua 1909-10*
*Rhes Uchaf: Beni Roberts, Beudy Mawr; Robert Arthur Griffith, Pen Bwlch; Nesta Parry, Tan Bryn; Mary E. Hughes, Foel; Nell Edwards, Bryn Llys; Lizzie Edwards, Terfyn; Hannah H. Griffiths, Braich Poeth; Dic Seth Jones, Tyn Fawnog Uchaf.*
*Rhes Ganol: Ifor Jones, Gallod; Humphrey Closs, Nant Peris; Alice Ll. Roberts, Llythyrdy; Maggie Williams, Llidiart y Clo; Jeni Hughes, Foel; Katie Roberts, Fachwen; Minnie Thomas, Llidiart y Clo; Leus Jones, Tan y Fron; Tomi Morris, Caerfoel.*
*Rhes Isaf: Rt Emrys Owen, Caerfoel; Joni Parry, Tyn Pwll; Kate Parry, Tyn Fawnog; Annie Jones, Siop Chwarel; Mag Olwen Griffiths, Braich Poeth; Gwladys Price, Bigil; Alice Roberts, Bedwargoed; Lil Roberts, Maengwyn; Griff Pritchard, Pant Sardis.*
*26 o blant mewn un dosbarth. 'Roedd sbel tros gant o blant yn yr ysgol y pryd yna. Trist meddwl ei bod erbyn heddiw wedi cau. Byddai'r Pwyllgor Addysg yn y cyfnod yma yn rhoddi gwobrau am gadw'r ysgol yn ddi-dor am gyfnodau, a chafodd fy chwaer, Minnie Thomas, wobr o fedal, sydd yn fy meddiant o hyd, am gadw'r tair blynedd 1905-1908 yn ddi-dor a wats arddwrn am gadw y pum mlynedd, 1905-1910.*

# WAUNFAWR




Tynnwyd y llun yma yn un o Blasdai Llanfairfechan mewn Rali Merched y Lleng Brydeinig a Chymdeithas Gwirfoddol y Merched at Gronfa i groesawu'r bechgyn adref o'r fyddin. Gwnaed elw o gant a hanner a y stondin yma. Y nwyddau wedi eu gwneud i gyd gan yr aelodau dan lywyddiaeth fedrus Mrs Greenshields, Tyddyn Whisgin. Yn y darlun o'r chwith y ddiweddar Mrs Jones, Treflys; Mrs Hughes, Llys Meredydd; y ddiweddar Nyrs Wolendon, Treddafydd; Nyrs adref ar ei gwyliau o Kenya – hi oedd y sipsi oedd yn dweud ffortiwn; y ddiweddar Mrs Holbrooks, Bryngoleu gyda'i basged o flodau papur; y ddiweddar Mrs Georgeson, Dolerddi; Mrs Owen Trefeilian; a Mrs A. Hughes, Bryngoleu.

## 'MAGI'

gan Huw Thomas, Gwenallt, Llanrug

**O edrych drwy yr hanes**
**Ar ddail y Cyfrwng Mawr**
**Cewch yno lawer 'Magi'**
**Fel un sydd i ni'n awr.**

**Trwy gymorth sarff bu Efa**
**Yn temtio am amser maith**
**Ond 'hon' a demtiodd filoedd**
**A'u gadael yn ddi-waith.**

**Gwraig Lot yn golofn halen**
**o'i chorun hyd y llawr**
**Ond ofer yw gobeithio –**
**Rhy hallt yw 'hon' yn awr.**

**Saith morwyn ffôl i'r briodas**
**Heb olew; O, mor ffôl;**
**Pe buasai Magi yno**
**Ni fyddai 'hi'n' troi'n ôl!**

**Delila dwyllodrus**
**A dorrodd wallt ei gŵr**
**Ei nerth a gollodd yntau**
**Fel Cymru heb ei dŵr.**

**A yw y morfil hwnnw**
**A lyncodd Jona dlawd**
**Yn disgwyl am ei bwdin**
**O haearn ac o gnawd?**

**Salomi lon a ddawnsiodd**
**A'r wobr oedd ei ben**
**Gan hynny, gwyliwch chwithau**
**Rhag Magi'n wir; Amen**

# LLAWN
## OND 'CHYDIG I



# BETHEL

*Carnifal Mawreddog: rhan o'r orymdaith uchod ac isod. Pwy? Pryd? Lluniau gan Mrs Eirian Jones, 11 New Street, Deiniolen.*



## DINORWIG – eto!

*— y tro hwn gan mlynedd yn ôl: pigion o ddyddiadur William Morris, Bron Fuches.*

Meh 5. Marw John, mab y diweddar Barch John Jones, Sardis yn 24 oed.
Mehefin 7: Bore Heddiw trwch o eira ar yr Wyddfa, ac ar yr Elidir gan ised a chwarel y Terfyn.
Meh 8: Trwch adnewyddol o eira ar y mynyddau yn byr laes. Claddu Ev. Jn. Evan, Gorlan yn 33 oed. Cael ei daro gan ei geffyl yn Llangefni fel y bu farw yn y fan.
Gorphenaf 4: Marw Henry O Thomas, Terfyn gynt, yn 44 oed, ar ei ol wraig a 7 plentyn
Gorphenaf 6: Rwb mawr yn llenwi gwaelod y Braich a Bonc yr Efail.
Awst 25: Cymanfa Caernarfon. Ystopio y Chwarel
Medi 24: Marw y Parch Robert Ellis, Ysgoldy, yn 72 oed.
Hydref 1: Dwy wagan lwythog yn dod trwy y tyrnout ar allt y Terfyn, ac yn malurio y balast ar yr allt.
Hyd. 6: Wyth wagan lwythog o lechau o Ben y Garret yn ymollwng trwy y tyrnout yn falurion gan ddryllio yr allt a'r rhaffau.
Hyd 12: John Reed & Co (Blue Peris), 8 i gyd yn cychwyn am Affrica
Hyd. 25: Gosod rhaffau newyddion (yr ail raffau) a'r incline y terfyn ar ol galanastra
Tach 26: Marw Syr Hugh Owen yn Neheudir Ffrainc.
**O.N.** Marw, Chwaer Syr Hugh Owen, oedd ail wraig William Morris. Bu farw Ebrill 7, 1850, a chladdwyd hi yn Llangeinwen, Môn. Mae'r englyn hwn o waith Eben Fardd, oedd yn gyfaill mawr i William Morris, ar ei bedd.

**Gwraig oedd, ond er i'w gwr gweddw – nesau**
**Ni syfl pan y geilw**
**Nes del dydd sy'n wystl o dŵ,**
**Cnwd mawr y dyn had meirw.**

# LLUNIAU
## AWN O ENWAU!

### CWM-Y-GLO

*Anfonwyd y cerdyn post hwn o Walton, Lerpwl am 8.15 p.m. Hydref 6ed 1905 i gyfeiriad yng Nghlwt-y-bont, Deiniolen. Llun yw o hen orsaf rheilffordd Cwm-y-glo. Rhoddwyd benthyg y llun i ni gan Mrs J.E. Griffiths, Creigle, Clwt-y-bont a byddai'n falch o gael gwybod pwy sy'n sefyll o flaen y siop. Ond beth am y gweddill o'r bobl yn y llun? Gwybodaeth os gwelwch yn dda.*




### LLANRUG



*Lluniau o Ysgol Bryn Eryr tua 1922. Anfonwyd y lluniau gan Mrs E. Jones, 22 Bro Isaf, Bryngwran (gynt o siop Bryngwyn).*
*Llun o ddosbarth yn yr ysgol sydd uchod, ac isod Cân Actol wedi eu hyfforddi gan Mr Parry yr Ysgolfeistr.*



# Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

**'TAIR AWR FAWR ŴYL FAIR'**

Sut byddwch chwi yn dweud yr hen bennill tybed a beth yw eich esboniad arno?

**Awr fawr Calan** *(Ionawr 13)*
**Dwy ŵyl Eilian,**
**Tair awr fawr ŵyl Fair** *(Chwefror 13)*
**Wedyn y diwrnod ar ei hyd**

**Awr fawr Galan,**
**Dwy ŵyl Eilian**
**Tair Gŵyl Fair**
**Os nad pedair.**

**ERNIE YN EGLURO**

Dyma lythyr a dderbyniais wyth mlynedd yn ôl oddi wrth Mr Ernie Williams, Talwrn, sir Fôn, yn egluro'r hen bennill uchod.

"Wrth ddarllen hanes yr hen bennill Awr Fawr Calan daeth i'm cof sut y byddai fy nhad yn dweud.

**Awr Fawr Galan**
**Dwy ŵyl Eilian**
**Tair ŵyl Fair**
**A digon o ddydd o hynny allan.**

Y syniad o awr fawr Galan ydyw y bydd y dydd wedi ymestyn awr helaeth o'r dydd byrraf Rhagfyr 21 erbyn Ionawr 13, hanner awr y bore a hanner awr yr hwyr. Troiad y rhod bydd yn dywyll wyth yn y bore ac wedi nosi erbyn hanner awr wedi pedwar y prynhawn a'r gŵyn fydd fod y dydd mor fŷr fel nad oes yna ddydd ohoni.

Erbyn Ionawr 13 yn ôl amser yr haul bydd yn dechrau goleuo hanner awr wedi saith yn y bore, ac yn olau nes bydd wedi pump yr hwyr a phawb yn diolch fod y dydd yn dechrau ymestyn.

Dywedodd y diweddar Wil Ifan o Fôn wrthyf wrth drafod y pennill rai blynyddoedd yn ôl mai llinell lanw yw'r ail ac nad oes sail i fodolaeth gŵyl Eilian, a yw hyn yn wir ai peidio nis gwn.

Am y drydedd llinell, y dydd wedi ymestyn tair awr rhwng bore a hwyr ac arwyddion fod y gwanwyn bron wrth y drws. Dyna mae'n debyg yw'r syniad digon o ddydd o hynny allan. Mae'r dydd wedi dwad yn ddigon hir i ddyn allu gweithio diwrnod llawn o chwech yn y bore hyd chwech yn yr hwyr yn ôl yr hen arferiad.

Dyna fi wedi rhoi esboniad Mr Ernie Williams i chwi. Pwy arall sy'n barod i esbonio'r hen bennill?

Efallai mai estyniad yr awr o Ragfyr i Ionawr ac i Chwefror, neu yn syml estyniad y dydd a olygir.

Oes rhywun wedi clywed y fersiwn yma?

**Awr Fawr Calan**
**Dwy ŵyl Eilian**
**Tair gŵyl Fair**
**Pedair gŵyl Ifan**
**A digon o ddydd o hynny allan.**

**BLWYDDYN NEWYDD**

A glywsoch chwi'r hen bennill yma?


**Dyma flwyddyn newydd dirion**
**Lle mae deunaw mil o oriau hirion**
**A saith gant ar hugain hefyd**
**A thair awr a phedwar munud.**

**ROCHESTER MARCH**

Dyma ran o hen garol a genid ar y dôn 'Rochester March'. Y mae rhywun yn gwybod am y dôn mae'n siŵr. Y mae'r garol yn un faith ac wedi ei chyfansoddi gan Elias E. Prees, Tregarth. Y pedair llinell olaf sydd gen i yn unig.


**'Gwir Frenhin brenhinoedd ac Arglwydd arglwyddi,**
**Sydd erom yn wylo i ado'n truenil**
**Gostyngwn heb sen, rhown fawredd i'n Pen**
**Canmolwn Aer gwynfyd bob munud, Amen.**


AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .



**BWSIAU ARFON**
**LLANRUG**
**(ERIC MORRIS)**
Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

**BILL ac EILEEN GRIFFITHS**



**Antiques**
**Ivy Cottage**
**BETHEL**
*Ffôn:*
*Y FELINHELI 670556*

**PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU**
*Telir prisiau da*
*Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol*

# HANES Y BWTHYN GWAG

*(llun tud 2 rhifyn 55)*

**gan Mrs K. Hughes, Deiniolen**

Prin fod neb yn cymryd unrhyw sylw o'r bwthyn yma heddiw, er bod ugeiniau yn mynd heibio iddo bob dydd. Mae ei wedd wedi newid dipyn ers pan dynnwyd y darlun yma. Fe'i tynnwyd cyn troad y ganrif, beth bynnag. Nid oes neb wedi byw ynddo er y flwyddyn 1905. William a Hannah Griffith a'r mab ieuengaf Harri Griffith sydd yn y darlun. Credaf mai bachgen o'r ffermdy cyfagos sef Ynyscreuryn sydd yn eistedd ar ben y wal, a dyna yw enw'r bwthyn hefyd. Brodor o ardal Dolgellau oedd W.G., fy nhaid. Yn ôl ei hanes 'roedd yn gerddor pur dda, ac yn rhugl iawn yn ei Saesneg. Deuai llawer ato pan fyddent eisiau gwybodaeth am rywbeth fel llenwi ffurflenni ac arwyddo rhywbeth. 'Roedd yn dipyn o fardd hefyd. Mae gennyf yn fy meddiant gerdd o'i eiddo a oedd yn gyd-fuddugol yng Nghyfarfod Cystadleuol Seion, Mai 16, 1863, wedi ei hysgrifennu yn null barddoniaeth y cyfnod. Cerdd goffadwriaeth am 'Sian Seion' oedd, ac wedi cael ei hargraffu gan H. Humphreys, Caernarfon. Ganwyd fy nhaid a'm nain ym 1825. Bu ef farw ym 1902.

Credaf mai o deulu Humphrey Tomos, Tŷ Rhos, Seion, yr hanai fy nain. Dywedir mewn coffâd amdani yn 'Y Trefnydd', cylchgrawn y Wesleaid ym 1905 pan fu farw yn 80 oed, 'Hanai o hen gyff Wesleyaidd enwog. Yn ei marwolaeth collasom un o hen gymeriadau yr oes o'r blaen – hen gymeriad Cymreig plaen, syml a dirodres, wedi ei drwytho a grâs ac ysbryd yr Efengyl. Gadawodd bump o feibion a thair o ferched i alaru ar ei hôl. Mae dau o'r meibion, Lewis a Henry Griffith yn aelodau ffyddlon o eglwys Seion. Mae Thomas Griffith yn flaenor gyda ni yn Bootle, Lerpwl. Hefyd mae'r ddau fab arall ynghyd â'r tair chwaer yn aelodau o eglwys Crist mewn gwahanol fannau. Yr oedd hyn yn peri cysur i'r hen fam."

Yr oedd ganddynt ddeg o blant i gyd – pump o feibion a phump o ferched. Bu dwy o'r merched farw yn bur ieuanc Catherine yn 26 oed wedi cartrefu ym Mhenbedw a'i chladdu yno ym 1888. Bu Jane farw wedi cartrefu yn Wrecsam ym 1902 yn 44 oed. Tristwch pob cyfnod yng nghefn gwlad Cymru yw fod y plant hynaf yn ymfudo i chwilio am waith a chartrefu yno. Dyna wnaeth William, Thomas a Humphrey. Seiri meini oeddynt ac yn fuan wedi mynd i Lerpwl, sefydlu busnes adeiladu eu hunain. Aeth dwy o'r merched i'r de ac yno y buont.

Yn y chwarel y gweithiai f'ewythr Lewis a chafodd ei ladd yno tua 1923. Gwynt cryf yn ei chwythu wrth daflu rwbel o'r wagen dros domen. Os cofiaf yn iawn cafodd dyn arall ei ladd hefyd, un o Benisarwaun, a'r ddau yn flaenoriaid gyda'r Wesleiaid. Rhyw ddeng mlynedd yn ddiweddarach lladdwyd Harri ei fab pan oedd ar ei ffordd adref o Ddeiniolen. 'Roedd yn gweithio yn y Becws efo Mr a Mrs Pierce Rowlands. Beic oedd ganddo, a phan oedd ar y tro wrth ymyl Rhydau aeth beic modur i'w erbyn. Mae dau o wyrion f'ewythr Lewis yn weinidogion gyda'r Wesleiaid heddiw. Y Parch Geraint Parry yn Nhowyn, a'r Parch Cledwyn Parry yn Ninbych. Bu ef yn weinidog ar y Tabernacl yn Neiniolen am gyfnod.

Os oedd saith allan o ddeg o'r plant wedi trafeilio, mae'r dresal a welir yng nghefndir y darlun wedi trafaelio hefyd. Aeth o Ynyscreuryn i Seion, ac yna i Fethel. Adeg y Rhyfel Byd Cyntaf aeth f'ewythr Harri a'i deulu i Lerpwl i weithio fel llawer un arall. Yna ym 1940 pan oedd y bomio mawr yn Lerpwl daethant yn ôl i Geunant am rai blynyddoedd. Bellach ers deng mlynedd mae'r dresal yng Nghaernarfon.


STORFA
Mace
O.R. & M. PARRY
Sgwâr Llanrug
Caernarfon 2790
Dewis hael
o fwydydd, llysiau
â diodydd


## "FORTY YEARS ON WHEN AFAR AND ASUNDER PARTED ARE THOSE WHO ARE SINGING TODAY."

Dyma'r anthem i ddiweddu'r tymor yn yr hen ysgol ym Mrynrefail. Cân Ysgol Fonedd Harrow oedd hi, ond rhyw fodd fe'i trawsblanwyd yma, ac fe'i canwyd gydag arddeliad am flynyddoedd lawer. A phob amser, yn yr un gwasanaeth, darllenai Capten yr Ysgol "Cofia yn awr dy greawdwr yn nyddiau dy ieuenctid."

Atgofion melys i gannoedd am amser braf y gwyliau i ddod ar ôl llafur yr arholiadau a fu!

A dyma nhw "forty years on":

**Rhes flaen:** Francis Jones o Lanberis – cynrychiolydd Llanberis ar gynghorau Arfon a Gwynedd. Un o ddynion MANWEB; Islwyn Oliver o Lanberis? Dan Rowland Hughes o Ddeiniolen, yn feddyg ardal Llanrug a Llanberis ers dros chwarter canrif. Bertie Pritchard Jones o Lanrug, cynrychiolydd Cwmni Silcocks yng Ngwynedd; Huw Gwynfa Roberts o Bontrhythallt yn weinidog yng Nghapel Oaken Avenue Manceinion. Ifan Wyn Williams o Frynrefail yn athro mathamateg yn Ysgol Gyfun Llangefni, Ieuan Lewis Jones o Gorseinion – athro ffiseg i ddechrau ac wedyn prifathro'r ysgol newydd.

**Rhes ôl:** Gwilym Elias Jones o Lanrug sydd gyda'r Awdurdod Iechyd yn Southport; Stanley Williams o Ddinorwig, swyddog yn adran Ariannog Cyngor Arfon yng Nghaernarfon; Gwilym Wyn Williams o Frynrefail, swyddog yn Swyddfa'r Brifysgol ym Mangor; Arthur Cynfi Williams o Ddeiniolen, yn ddyn busnes yn Lloegr; Elfed Hughes o Lanberis swydd ynglŷn ag Amaethyddiaeth yn yr Alban; Kenneth Benjamin Thomas o Ddeiniolen yn amlwg fel arweinydd Undeb y Newyddiadurwyr yn Llundain.

Blwyddyn Newydd Dda i bawb sy'n cofio'r canu! a "Forty Years On" arall iddynt.

Coffadwriaeth am
SIAN SEION

Seion, Seion, mud yw'th delyn,
Prin y clywir swn y dant,
Gwelaf fod priddellau'r dyffryn
Yma'n agor am dy blant;
Cawri cedyrn o dy furiau
Syrthiodd, do, i byrth y bedd,
Collais frodyr a chwiorydd,
Dyna'th wnaeth yn brudd dy wedd.

Dy gynteddau a wefreiddiwyd
Gyda diolch mawl a chân,
Llawer calon a wresogwyd
Ynghymdeithas felus SIAN;
Llwythog yw dy fynwes, Seion,
Gan yr hiraeth ar ei hol,
Adgof prudd sy'n gwasgu'r galon,
Am ei symud hi o'th gol.

Dynion byd sy'n enill teitlau
Am greulondeb trais a brad,
Fe bwrcaswyd llawer enw
Wrth oresgyn tref a gwlad
Ond nid felly ein harwres,
'Nillodd hi yr oesol barch,
Sian o Seion, megys Miriam,
A Debora, gyda'r Arch.

Mae ei henw yn air teulu
Ar aelwydydd Cymru gyd,
SIAN o SEION, dyna'r enw
Sydd draddodiad yn y byd;
Son am dani bydd y mamau
Yn eu teiau oesau hir,
Son am dani y bydd Seion,
Enw Sian ni chyll o'n tir.

Tŷ y Fachell fydd gofiadwy,
Dyna'r fan y teimlodd Sian
Ddylanwadau argyhoeddiadol,
Gweithrediadau'r Yspryd Glân,
Yno y dechreuodd foli
Am y gwaed â melus lef,
Ac ni thawodd, na mae eto
'N uno â chôr y drydedd nef.

Teithiodd lawer fel pererin,
Gan sychedu am y gwin
Sugnai'i henaid mewn oedfaon,
Oedd fel diliau ar ei min;
Pan y byddai'r oedfa'r drymllyd,
Niwl a th'wllwch ol a blaen,
Y distawrwydd a gyffroid
Gyda moliant melus Sian.

Gwir Wesleyaid oedd ei henwad,
Eto carai'r plant i gyd,
Seion Duw, nid Seion Wesley,
Oedd ei chartref hi o hyd,
Nid oedd muriau sect yn ddigon
Uchel i'w llesteirio hi,
I ymofyn ymborth enaid,
Am Efengyl bydda'i chri.

Prin y medrai ddal heb waeddi
Diolch, pan yn son am waed
Crist a'i groes, a'i erchyll boenau,
A'i codai'n wastad ar ei thraed,
Ffurf a moes yn llwyr anghofiai,
Diystyra'i henaid dlawd
Bobpeth ond yr ysbrydolrwydd,
Cristion ydoedd yn y cnawd.

Dwy a deugain bu'n proffesu
A phroffesodd broffes dda,
Ni halogwyd ei chymeriad
Gan un pechod nac un pla;
Yn y dechrau gwaeddai diolch,
Daliodd ati yn ddigryn,
Dyna dorodd yn ddiweddaf
Ar ei gwefus yn y glyn.

Darfu, darfu yma'i gyrfa,
Tua'r beddrod tynu wnaeth,
Eglwys Seion yn ei cholli
Brofodd yr angeuol saeth,
Collodd un a feddai'r teimlad
Uchel, aeddfed gyda'r gwaith,
Dynodd gân o delyn Seion,
Oedd ar yr helyg lawer gwaith.

Chwith yw cofio'r hen oedfaon
Dreuliwyd gynt yn nghwmni Sian,
Haleliwia, moliant iddo,
Effaith y cysegrol dân,
Wyla'r pwlpud am ei chymhorth,
Galar drosto sydd yn llen,
Mwy ni chlywir yn dyrchafu
Yno'i melus fwyn Amen.


Cwsg yn dawel yn Deiniolen,
Y dywarchen ar dy fedd
Fyddo'n irlas fel dy enw,
'N perarogli mae mewn hedd;
Cefais newid dy gyfeillion,
Do, heb newid dim o'r gwaith,
Gyda'r seraph pur a'r angel,
Cei gyd-eilio'r nefol iaith.

*William Griffith,*
*Ynys Creyryn,*
*Llanddeiniolen*



Mae'r darlun yn dangos safle'r sêr ar wahanol adegau yn ystod misoedd y gaeaf. Dyma'r sefyllfa tua 2 a.m. ym mis Tachwedd; tua Hanner Nos ym mis Rhagfyr; tua 10 p.m. ym mis Ionawr, a thua 8 p.m. ym mis Chwefror. Mae'r ffigur (1) ar y darlun yn dangos y seren Polaris, sef Seren y Pegwn neu Seren y Gogledd. Dengys y ffigur (2) y seren Sirius, neu Seren y Ci, y seren ddisgleiriaf yn y nefoedd i'n llygaid ni. Ffigur (3) yw'r ddau efell, Castor a Pollux, a (4) yw'r Pleiades, neu'r Saith Chwaer.

# Y SÊR YN Y GAEAF




# DINORWIG

CANOLFAN IEUENCTID GYMDEITHASOL – Cynhaliwyd Pwyllgor o'r uchod nos Fercher, Rhagfyr 3 1980 pryd y gofynnwyd imi ar ran y Pwyllgor drwy gyfrwng yr Eco estyn ein diolchiadau unwaith yn rhagor i Mr G. Pritchard, Pen Dyffryn am ei gymorth inni fel Pwyllgor.

Diolch i'r Ieuenctid a rhai hŷn a fu mor brysur yn gwneud y Ganolfan yn barod i'w pheintio ac yna cario allan y gwaith mor ragorol. Erbyn hyn gallaf eich sicrhau fod gwedd newydd ar y ganolfan. A gaf i, unwaith yn rhagor, ofyn am unrhyw gymorth gan yr ardalwyr i wneud y gwaith o beintio'r porth. Diolch yn fawr am unrhyw gymorth bach neu fawr.

Carwn eich hysbysu hefyd ein bod wedi penderfynu'n unfrydol i roi golau trydan tu allan i'r ganolfan gan fod rai o'r ardalwyr wedi syrthio yno a chael mân niweidiau wrth fynd a dod i'r Ganolfan. Drwy hyn yr ydym yn gobeithio na ddigwydd niwed i neb eto, ac y bydd y golau yn profi o fudd a bendith mawr i'r ardalwyr yn y dyfodol.

Ar ran y Pwyllgor, Marian Jones (trysorydd).

CYMDEITHAS UNDEBOL DINORWIG – Nos Iau, Rhagfyr 18 yn Eglwys St Mair, cynhaliwyd noson o garolau o dan nawdd y gymdeithas uchod. Trefnwyd y noson gan Miss Annette B. Roberts a Mr Glyn Thomas. Yn wahanol i'r arfer cyflwynwyd y noson ar ffurf deialog rhwng dau berson gyda'r pwyslais ar amlinellu gwir ystyr y Nadolig. Cymerwyd rhan y ddau berson yma gan Meirion Thomas a Kelvin Pleming. Rhwng yr holl ddeialog cafwyd darlleniadau perthnasol o'r Beibl gan y canlynol: David Lloyd Hughes, Annette B. Roberts, Marina ac Olwen Roberts a Glyn Thomas. Hefyd cafwyd eitemau o garolau gan barti o blant a oedd yn cynnwys Dona Thomas, Anwen Jones a Ruth Jones. hefyd parti o enethod Tŷ'r Ysgol ynghyd â Shirley Williams. At hyn canwyd y 'Magnificant' gan ferched y Gymdeithas. 'Roedd yr holl waith cyfeilio yn nwylo Annette Roberts a Mrs Hughes, Groeslon Uchaf. I ddiweddu'r cyfan talwyd y diolchiadau a rhoddwyd y fendith gan y Parch Ifor L. Williams.

DRAMA'R GENI – Nos Sul, Rhagfyr 14, 1980 perfformiwyd 'Drama'r Geni' yn Sardis. Awdur a chynhyrchydd y ddrama, 'Ganwyd i chwi heddiw', oedd Mrs Gwladys Evans. Hi hefyd a chwaraeai ran Elizabeth. Gan fod yr holl aelodau a phlant yr eglwys yn cymryd rhan gwahoddwyd aelodau'r chwaer eglwys, Libanus, Clwt-y-bont, yn ogystal ag aelodau eglwysi eraill yr ardal i weld y ddrama, a mawr oedd y boddhad a'r fendith a gawsant o'i gwylio.

Cymerwyd rhan Mair gan Lona Lewis, a Joseff oedd John E. Thomas. Sacharias oedd David J. Thomas, a Simeon oedd Gwilym Jones, ac Eileen Thomas oedd y lletywr. Chwaraewyd rhan y bugeiliaid gan Medwen Griffith, Elizabeth Jones, Alice Griffith, a Megan Morris, a'r angel oedd Alison J. Jones. Y doethion oedd Alun Lewis, Andrew Griffith, ac Abram Jones. Y plant a gymerodd ran oedd Ruth E. Jones, Lowri, Nyfain, a Marged Wyn Morgan, a Sara Wood, G. Irfon Jones, Dylan a Gwyn E. Lewis.

Y darllenwyr oedd Dora Jones, Ellen W. Jones, Betty Jones, Margaret J. Jones, Trebor Thomas, a'r cyfeilydd Margaret E. Hughes. Ada Thomas a ofalai am y gwisgoedd. Cafwyd gair o werthfawrogiad ar ddiwedd yr oedfa gan y gweinidog, y Parch Ifor L. Williams

LLONGYFARCHIADAU i David J. Thomas, Tŷ Capel Sardis, ar gyrraedd oed ymddeol. Ein dymuniadau da iddo ar yr achlysur ac i'r dyfodol.

DIOLCHIADAU – Dymuna Mrs David Jones, 5 Maes Eilian, Dinorwig, ddiolch i'r teulu, perthnasau a chymdogion am eu caredigrwydd tra yn yr ysbyty, ac am bob dim a dderbyniodd. Diolch hefyd i'r nyrsus a doctoriaid Gwynedd Ward a'r doctoriaid lleol.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs Abram Jones, Foelgron, ar eni eu hwyres gyntaf Jennifer, merch Mr John a Karen Corless, Burnley, hefyd i Mrs Kate Jones, Foelgron, ar fod yn hen nain ar yr amgylchiad.

YN YR YSBYTY – Bu Mrs Annie Jones, 5 Maes Eilian, am driniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Dewi Sant. Da gennym ddeall ei bod gartref ac yn well. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

MARW – Yn ysbyty Eryri, Caernarfon, Ionawr 14, 1981 yn 91 mlwydd oed, bu farw Mrs Mary Davies, Bron Myfyr, Dinorwig, (gynt o Durban Road, Wallasey). Cydymdeimlwir â Mr a Mrs D.R. Jones, Bron Myfyr; Mr a Mrs H.S. Jones, Miss Ellen Thomas, Buarth Newydd, Mrs Annie Jones, Caernarfon, Mrs G. Jones, Bangor, chwiorydd a brodyr yng nghyfraith, ac â'r cysylltiadau teuluol eraill yn eu profedigaeth.

DIOLCHIADAU – Y mae David John Thomas, Tŷ Capel Sardis (B), yn dymuno diolch i gyfeillion o Gapel Sardis a gyflwynodd gardiau iddo pan oedd yn ymddeol ddydd Gwener, Ionawr 9 eleni. Hefyd fe hoffai gydnabod y rhoddion gwerthfawr a'r cardiau dymuniadau da oddi wrth ei gyd-weithwyr yn Swyddfeydd Cyngor Gwynedd, Caernarfon. Fe ddangoswyd ysbryd didwyll a charedig.

I'R YSBYTY – Aeth Mr John E. Thomas, Bwlch y Gwynt am driniaeth i Ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon. Ein dymuniadau gorau iddo a phob gwellhad buan yn y dyfodol.

TRAFODAETH – Bu Mr Glyn Tomos, 1 Bro Elidir, yn cymryd rhan mewn trafodaeth ar deledu HTV yn yr Wyddgrug gyda Mr Dafydd Wigley AS, a Mr Emyr Price, ar bolisiau Plaid Cymru. Yr holwr oedd Mr Gwilym Owen.

MODURDY MENAI



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI

Ffôn : Portdinorwic 670882
Perchennog : J. Evans

Mynnwch eich
PAENT a PHAPUR PAPURO
oddi wrth

E.WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

# LLANRUG

DIOLCH – Dymuna Mr Emlyn Jones, c.o 7 Glanffynnon, ddiolch o galon dros ei dad, Mr Ifor Jones, i'r holl gymdogion am eu cyfarchion da ac am y blodau a dderbyniodd ganddynt. Mae Mr Ifor Jones yn Adran yr Henoed, Ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon.

CROESO ADREF i Mrs Lovatt, Brwynog sydd wedi dychwelyd o Ganada lle bu'n ymweld â'i merch a'i mab yng nghyfraith a magu'r baban newydd, Shaun William.



*Shaun William — 4 wythnos oed.*

AR Y RADIO – Gwestai'r rhaglen 'Pe Meddwn i'r Ddawn' a ddarlledwyd ar Ionawr 14 oedd Mr Arwel Jones, Gwên-y-Wawr. Llongyfarchiadau iddo ar gyflwyniad difyr iawn.

Y SEINDORF – Nos Lun, Rhagfyr 22 aeth y Seindorf i Gaeathro i chwarae carolau o amgylch y goeden Nadolig oedd ar y sgwâr. Roedd y canu o dan ofal Mr Ifor Hughes. Maent yn ymarfer 'nawr ar gyfer cystadleuaeth gyntaf y flwyddyn yn Neuadd y Dref, Bolton ar Chwefror 15. Os oes rhywun yn awyddus i fynd i Bolton gyda nhw derbynnir enwau gan Mr Raymond Jones, yr Ysgrifennydd.

DIOLCH – Dymuna Mr a Mrs Harry Roberts, 2 Plastirion ddiolch dros Mrs Ellen Williams, Plas Pen Gwaith, (Bryn Awelon gynt) am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 92 oed ar Ragfyr 16. Diolch i aelodau Capel Hermon am y blodau hardd, ac i'r cyfeillion ffyddlon sydd wedi bod yn ymweld â hi. Hefyd i Mrs Roberts, Mrs Davies a Staff Plas Pen Gwaith am eu caredigrwydd diflino, ac i Staff Gallt y Sil am eu caredigrwydd hwythau yn ystod ei harhosiad yno.

MERCHED Y WAWR – Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen yn yr Ysgol Gynradd, nos Fawrth, Ionawr 13, gyda Miss Phyllis Ellis yn y gadair. Trefnwyd cwis o dan ofal Mrs Mary Vaughan Jones ar olygfeydd o wahanol rannau o Gymru. Diolchwyd iddi gan Dr Eirwen Gwynn.

Daeth gwahoddiad oddi wrth gangen Rhiwlas i Gwis ar Chwefror 3. Gofynnir i'r aelodau roddi eu henwau i Mrs Eirlys Pierce os ydynt yn bwriadu mynd. Paratowyd lluniaeth gan Mrs J.C. Williams, Mrs Enid Wh. Thomas, Mrs Nesta Pritchard, Mrs Amy Smith, Mrs Beryl Thomas a Mrs Dorothy Williams. Bydd y cyfarfod nesaf ar Chwefror 10 gyda John Ogwen yn siaradwr gwadd.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL – Nos Fawrth, Ionawr 20, croesawyd aelodau o Gymdeithas y Waunfawr i gymryd rhan mewn cwis, wedi ei drefnu gan Mrs Butler, Miss M. Humphreys, Tanycoed a Mrs Williams, Bod Fair. Cafwyd noson ddifyr iawn. Talwyd y diolchiadau gan y Parch W.O. Roberts a siaradodd Mrs M. Vaughan Jones ar ran aelodau y Waunfawr.

CYDYMDEIMLIR â Mr W.H. Williams, Arfryn, Tai Rhythallt ar farwolaeth ei dad yn Llandwrog.

GWELLHAD BUAN – Dymunir adferiad iechyd buan i Mrs Nesta Pritchard, Glanfa.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs Dafydd Meirion ar enedigaeth merch, Elin. Gwelwyd Dafydd (Cyhoeddiadau Mei) ar y teledu yn ei swyddfa newydd ym Mhenygroes. Ein llongyfarchiadau iddo, am ei fenter ynglŷn â'r gwaith argraffu. Mab yw i Mr a Mrs Huw Watcyn, Bronwylfa, Tai Rhythallt.

HAFAN ELAN – Bu Mr Gwynfor Williams, B.E.M., Llanberis yn dangos sleidiau ar waith y timau achub ar yr Wyddfa. Cafwyd noson ddiddorol iawn yn ei gwmni. Mwynhawyd Cinio Nadolig blasus iawn, drwy garedigrwydd Mr a Mrs P. Cordon, Glyntwrog, yng Ngwesty'r Foelas, ac adloniant yn dilyn gan Mr Arwel Jones.

Cynhelir Bore Coffi yn y Ganolfan bob bore Mercher am 10.30; estynnir croeso cynnes i unrhyw un droi i mewn atom.

CLWB BLODAU'R GRUG – Cynhaliwyd y Gwasanaeth Carolau yng Nghapel Hermon. Cymerwyd y rhan agoriadol gan y Rheithor, y Parch Gwynfor Williams a'r Parch W.O. Roberts. Arweinydd y Gân oedd y Parch Gwynfor Williams a'r organyddes oedd Mrs K. Williams, Tanycoed.

Dymunwyd adferiad buan i'r Parch Alun Francis, Gweinidog Capel Hermon, i Miss Dilys Jenkins ar ôl ei damwain, ac i aelodau eraill oedd yn wael. Cydymdeimlwyd â Mrs Jones, Bangor, ar farwolaeth ei gŵr. Roedd Mrs Jones yn ffrind mawr i'r Clwb. Darparwyd te yn y Sefydliad Coffa gan y Pwyllgor a chyfeillion. Enillwyd y raffl gan Mrs Williams, Delfryn. Dymuna'r Clwb ddiolch i'r Gofalwr, Mr Tommy Jones, Rhos Rug am ei gymorth a'i sirioldeb bob amser. Cyflwynwyd rhodd fechan iddo am ei wasanaeth.

Bu Swper Blynyddol y Clwb yng Ngwesty Bron Eryri, Llanberis ar Ionawr 12. Mwynhawyd y noson yn fawr a chafwyd cân gan Mrs Beryl Hall. Enillwyd y raffl gan Mrs A. May Williams, Glanffynnon a Miss Meirwen Roberts, Ganllwyd. Diolchwyd gan Mr Ivor Williams.

Y GOBEITHLU – Nos Lun, Ionawr 12 dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Karen Jones a Michelle Jones. Dangoswyd ffilm addysgiadol i'r plant gan yr Heddwas Selwyn Jones, Pant Clyd. Diolchwyd iddo gan y Parch W.O. Roberts.

Yng nghyfarfod Ionawr 19 cymerwyd rhan agoriadol gan Siân Wyn Jones a Sandra McGuiness. Dysgwyd caneuon newydd o'r Detholiad a hyfforddwyd y plant yn y 'Modulator' gan Mrs M. Jones, Ogwen. Cymerwyd rhan mewn canu ac adrodd gan Ceryl Roberts, Mandy Jones, Bethan Lloyd Roberts, Lowri Angharad Roberts, Iola Thomas, Wayne Jones, Ellen Parry a Ryan Jones. Llywyddwyd gan Mrs N. Roberts, Annedd Wen.

CYMDEITHAS LENYDDOL CAPEL MAWR – Cynhaliwyd cyfarfod o dan lywyddiaeth Mr John Wyn Owen ar Ragfyr 11. Cafwyd trafodaeth fywiog ac adeiladol gan banel o gyfeillion ar gwestiynau gan aelodau'r Gymdeithas. Yr holwr oedd Mr Derfel Gruffydd, prifathro'r Ysgol Gynradd ac aelodau'r panel oedd, Mrs Iola Butler, Haddef; Mrs Margaret Parry, Bro Dawel; Dr Eurwyn Evans, Carwyn a Mr Tegid Roberts, Arwel. Rhoddwyd y te gan Mrs Mair Jones, Ogwen a Mrs Jean Davies, Plas Gwyn. Diolchwyd yn gynnes i bawb gan Mrs M. M. Evans, Lloc, Mrs Gwyneth Jones, Danwyn a'r Parch W.O. Roberts.

Nos Iau, Ionawr 15 o dan lywyddiaeth Miss Meirwen G. Roberts, Ganllwyd cafwyd dadl frwd ar y cwestiwn 'Ai mantais, ai anfantais fyddai agor y tafarnau trwy Gymru ar y Sul?' Cymerwyd yr ochr mai mantais fyddai eu hagor gan Mr Oswald Davies, Plas Gwyn, yn cael ei gefnogi gan Mrs Catherine Owen, Glanffynnon, tra dadleuwyd yn erbyn gan Mr Selwyn Jones, Pant Clyd yn cael ei gefnogi gan Mrs Mary Roberts, Bedw Gwynion. Pasiwyd gyda mwyafrif mai anfantais fyddai agor y tafarnau ar y Sul.

Diolchwyd yn gynnes i'r siaradwyr gan Mr Cledwyn Williams, Tŷ'r Ysgol a Mrs Eileen Williams, Afon Rhos. Roddwyd y te gan Mrs L.A. Horman, Venice a Mrs I. Parry, Morannedd.

GWASANAETH CAROLAU – Nos Sul, Rhagfyr 21 yn Festri Capel Mawr cynhaliwyd Gwasanaeth Carolau o dan nawdd y Gymdeithas Lenyddol. Trefnwyd y gwasanaeth gan organyddion y capel, a llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Nancy Roberts, a arweiniodd mewn defosiwn ar y dechrau. Cymerwyd rhan gan barti o blant o'r Ysgol Gynradd dan arweiniad eu hathrawes Mrs Mair Huws.

Y PLYGAIN – Am saith o'r gloch fore'r Nadolig yn Festri Pontrhythallt cafwyd Gwasanaeth Plygain o dan nawdd Cyngor Eglwysi Llanrug. Yr oedd yr ysgoldy yn orlawn. Cymerwyd rhan gan blant, pobl ieuainc a rhai hŷn mewn darllen, gweddio a chanu carolau. Cafwyd oedfa fendithiol iawn pryd y teimlodd pawb oedd yno iddynt gael cychwyn da i ddathlu'r Nadolig.

GWYLNOS – Cynhaliodd Cymdeithas Lenyddol y Capel Mawr eu Gwylnos, nos Fercher, Rhagfyr 31 pryd y mwynhaodd yr aelodau swper blasus wedi ei baratoi gan y chwiorydd a'i gyflwyno gan frodyr y Gymdeithas. Dilynwyd y Swper gyda chwaraeon diddorol ac addysgiadol a drefnwyd gan Mrs M. Jones, Ogwen a Ms J. Davies, Plas Gwyn. Croesawyd y Flwyddyn Newydd gyda Gwasanaeth Crefyddol o dan arweiniad y Parch W.O. Roberts.

CYFARFOD GWEDDI POBL IEUAINC – Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan Eilir Jones, Karen Lewis, Linda Jones, Aled Jones, Carol Ann Jones, Susan Morris, Siân Jones, Sharon Lewis, Anwen Davies a Delyth Jones. Anerchwyd y bobl ieuainc gan y Parch W.O. Roberts.

YN YR YSBYTY – Dymunwn adferiad buan i Mr Tom Griffith, Bryn Alaw sydd yn Ysbyty Môn ac Arfon.

YN GWELLA – Da deall bod Mrs Hughes-Jones, Sŵn-y-Gwynt yn gwella ar ôl damwain yn ei chartref.

EGLWYS SANT MIHANGEL – Bu gwasanaethau da a graenus yn Eglwys Sant Mihangel dros dymor y Nadolig. Y Rheithor a weinyddai yng ngwasanaeth y Cymun Bendigaid ar Noswyl y Nadolig ac ar fore'r Nadolig. Yr organydd yn y Gwasanaeth Hanner Nos oedd Mrs M. Griffiths Williams, Pen Buarth, a da oedd gweld cynulleidfa mor dda. Mr J.T. Morris, Erw Wen, Glanffynnon oedd yr organydd ar fore'r Nadolig a da oedd gweld cynifer wedi dod ynghyd. Y Sul wedi'r Nadolig caed gwasanaeth y plant a chymerwyd rhan gan holl blant yr Ysgol Sul yn y Carolau. Darllenwyd y llithoedd gan Gwawr Owen, Llinos Davies, Alan Jones a chyhoeddwyd y carolau gan Nia Wyn Jones. Yn ystod y gwasanaeth bedyddiwyd merch fach Mr a Mrs Melfyn Evans, Ystâd Talybont. Yr organydd oedd Mr J.T. Morris. Y Rheithor oedd yn arwain y gwasanaeth. Ar Sul cyntaf y flwyddyn newydd caed gwasanaeth Carolau yn ystod y Gosber. Fe ddaeth yr ŵyl i ben gyda pharti y plant yn y Sefydliad Coffa wedi ei drefnu gan athrawon yr Ysgol Sul, rhieni'r plant ac eraill ac yn glo i'r cyfan fe aed â'r plant i weld y Pantomeim 'Rasus Cymylau' yn Theatr Gwynedd Bangor. Y mae ein diolch i athrawon yr Ysgol Sul am eu sêl ar hyd y flwyddyn ac am eu parodrwydd i helpu gyda pharti'r plant.

CASGLIAD Y DEILLION – Yn ystod mis Rhagfyr fe fu casglyddion o dŷ i dŷ yn yr ardal yn casglu arian er budd Cronfa Genedlaethol y Deillion a da yw cael cofnodi i £84.55 gael ei hel at yr achos teilwng yma. Dyma fel y casglwyd yr arian: Miss Gwennie Griffiths, Disgwylfa Terrace – £10.90; Mrs M.A. Jones, 6 Rhos Rug – £12.13; Mrs E. Lloyd Jones, Lyndale – £7.75; Mrs Ceinwen Roberts, Tanycoed – £10.64; Mrs W.R. Jones, 7 Dolafon – £4.46; Mrs Harris a Mrs Rowlands, Cwm-y-glo – £7.34; Mrs Williams, Y Rheithordy a'r Rheithor – £31.33. Dymuna'r Rheithor a Mrs Williams ddiolch i'r casglyddion am eu cymorth a'u cydweithrediad bob blwyddyn ac i'r cyhoedd am eu hymateb ardderchog.

LLONGYFARCHION – Estynnwn ein llongyfarchion i Mr Arthur Jones, 18 Hafan Elan ar gael ei ethol ar Gorff Llywodraeth yr Eglwys yng Nghymru am dymor o dair blynedd.

GWAELEDD – Drwg oedd gennym glywed fod Mrs Buddug Morris, Hafan Elan wedi bod yn wael ei hiechyd dros wyliau'r Nadolig yn nhŷ ei merch yn Llanfairpwll ond da yw deall ei bod yn gwella yn foddhaol. Drwg oedd gennym am y ddamwain flin a ddaeth i ran Miss M. Owen, Tai Plas Tirion yn ddiweddar a hyderwn y caiff adferiad llwyr a buan.

LLWYDDIANT PIANO – Bu'r tri canlynol yn llwyddiannus yn eu harholiadau piano yn ddiweddar. Delyth Wyn Huws, Eithiniog, Afon Rhos (Graddfa 4); Einir Parri, Morwel, Ceunant (Graddfa 4); ac Euros Lyn, Sycharth, Bryn Moelyn (Graddfa 2). Eu hathrawes yw Mrs Mair Huws, Cilmeri, Glanffynnon.

## PLANT CAPEL PONTRHYTHALLT



*Yng nghwasanaeth Nadolig Ysgol Sul Pontrhythallt cymerwyd y rhannau arweiniol gan Susan a David McNall; Sharon, Diane ac Ian Thomas; Jean a Barry Roberts; Gwen Williams; Dwynwen Williams; Martin Roberts a Gareth Lloyd Jones.*

*Dyma lun o'r plant lleiaf oedd yn y ddrama. Iwan Llŷr, Mandy a Meinir Williams; Ieuan ac Iolo Griffith; Christine, Adrian a Steven Lloyd Jones; Dyfed a Catrin Whiteside Thomas; Rhodri a Gwion Ap Llwyd; Martin Davies; Angela Owen a Marian Roberts.*

## DAL Y FANDALS?

Dew, mae hi'n rhyfedd byw mewn dinas estron, ymhell o'm cynefin, o draddodiad fy ngwlad. Mae'r llais yn codi rhyw octef neu ddwy, a'r llygaid yn tynhau ychydig tua'r conglau. Pobol ydi pobol meddan nhw, yn siarad yn wahanol efallai, rhai mewn gwlanan llwyd twt yn gafaelyd yn dyn yn eu *Daily Telegraphs*, eraill yn rhedeg i'r siop chips mewn ofarols seimlyd – pobol serch hynny. Ond wyddoch chi, mae rhywbeth ar goll yma.

Gwarden gwledig yn nyffryn y Croal-Irwell, ychydig i'r gogledd o Fanceinion, dyna i chi deitl crand i geidwad y mannau hanner gwyllt a ddyfalbarhant rhwng y tarmac a'r concrit; gwarchodwr y coed, yr afonydd, y llwybrau, a'r pontydd pren. Gwasanaeth od i hogyn o Eryri, lle newidia ychydig ond lliw y dail, a thrwch a glendid gwlân y defaid. Pa bynnag newid sydd yno, y ffermwyr sy'n atebol, gan godi waliau yma ac acw, a phlannu tatws yn ambell i gae. Nid fandaliaeth mohoni yng Ngwyrfai, ond effaith yr hin a'r tymhorau, y gwynt a'r glaw, y rhew yn hollti creigiau a chwyddo pridd, y dylifoedd yn bwyta glannau ac ail-osod gwaddod. Syrthia hen goeden ynghanol rhu rhyw noson wyllt, a chodai'r haul y llwch. Delweddiad ramantus rwy'n sicr, ond dyna Eryri i mi.

Gwahanol iawn yma. Yr hwligans sydd piau hi bellach; rhu y motobeics a chlec y .22s. Cowbois y presennol, gwylltineb llafnau Salford.

"Hey pal, who you lookin' at", meddent

Minnau gydag addysg a rhesymeg, bathodyn a gramadeg yn ceisio egluro pwysigrwydd yr *'ecological balance'*, y *'diversity of species'*, y *'long term potential'* iddynt.

"You what," meddent.

Malu coed maent, neidio ar y brigau, saethu llygod mawr a chwningod, malu giatiau a ffensys – dew, mae eisiau gras! Ond pwy ydw i i ddadlau? Bu gang hogia Cwm yn gwneud yn union yr un peth yn eu dydd – torri brigau, codi tanau, dwyn afalau, dal adar – nid oedd gwarden gwledig yno, ond ffermwyr ffyrnig gyda'u cŵn, a dynion call yn palu gerddi yn llewys eu crysau. Y fath hwyl taflu cerrig at dai gwydr, y gang yn edrych ar ei gilydd, calonnau yn eu gyddfau, dwylo chwyslyd a chlustiau tanllyd – y gêm, yr ysfa. Yna rhedeg i ffwrdd yn chwim o flaen y dynion dychrynllyd, a'u cŵn ffyrnig.

"Ar i hola nhw Fflei, y cnafon bach".

Dew, mae hi'n rhyfedd, ond ydi hi? Dyma fi, yn gall ac awdurdodol, yn erlid hwligans oes ddiweddarach.

Yng nghysgod gorsaf bwer enfawr Agecroft a'i phedwar tŵr yn pesychu ager eiriog i'r amgylchedd, yr afon Irwell yn frown ddibysgod, gwelaf yr Wyddfa a'i phen yn eira, a'r Seiont yn ymdroelli tua Phontrhythallt, y snafad, yn siglo, y cerrig yn slip. Yma mae cronfa neu bwll addurnol, gydag ambell i frachyn neu ddraenogiad, nid y torgoch na'r dyfnder llechlas. Bûm yn pysgota am soffas heddiw, heb feddwl dod ar draws Riley Elf yn wenfflam ger yr afon, y paent yn berwi, y tanc yn ffrwydro, a'r fandals yn rhedeg i ffwrdd. Ymhen amser, fe orchuddia'r ffromlys a'r helyglys y gragen rydlyd, ond aros mae'r gwylltineb a'r blinderwch. Oes, mae rhywbeth ar goll yma.

Graffiti ar y waliau, beddargraff i drefn, *'VIOLENCE IS GOLDEN'* mewn paent coch o Woolworth. Welodd Kilroy erioed rai fel rhain. Soniai Walter Greenwood yn ei nofel 'Love on the Dole' (hanes Salford yn ystod y Dirwasgiad) am fechgyn digywilydd yn braslunio'n anfoesgar ar ganllaw pont y gamlas, a sgrechian ffieidd-dra i gyfeiriad genod y ffatri gyfagos. Sialc oedd eu cyfrwng ym 1933, ond ychydig yw'r newid fel arall. Mae'r diweithdra a'r trueni yma byth. Pawb yn weddol ddigarpiog bellach, ond diflas yw'r ddinas serch hynny. Felly graffiti amdani, a malu ffenestri, a chodi twrw. Unwaith eto, fe grwydrai fy meddwl yn ôl, a gwelaf *'ENGLISH GO HOME'* ar greigan lefn yn Nyffryn Llanbêr, yr unig raffiti i mi gofio ei weld acw.

'Does fawr o groeso iddyn nhw yn Salford chwaith.

**Arwel Jones**
**Tachwedd 1980**

## CWMNI THEATR IEUENCTID CENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU

### Cynhyrchiad 1981

Yn ystod Pasg 1981 fe fydd y cwmni uchod yn paratoi ei wythfed cynhyrchiad ar gyfer theatrau Cymru. Cynhelir rihyrsals am wythnos yn Llangrannog, ac yna fe fydd y cwmni yn mynd ar daith o gwmpas Theatr Clwyd, Theatr Gwynedd, Theatr y Werin a Theatr y Sherman, Caerdydd, am wythnos gyfan. Eleni mae'r cwmni wedi dewis cyflwyno 'Yr Opera Pishin Tair' gan Bertolt Brecht, (cyfieithiad Emyr Edwards o 'The Threepenny Opera'). Mae'r ddrama hon yn garreg filltir yn hanes y theatr Ewropeaidd, ac yn waith enwog drwy'r byd erbyn hyn. Mae'n ddrama sydd yn cynnwys caneuon, gyda miwsig wedi ei ysgrifennu'n arbennig ar gyfer gwaith Brecht gan ei gyfaill Kurt Weill.

Mae Cwmni Theatr yr Urdd wedi dilyn polisi comisiwn i awduron newydd ers tro bellach, ac wedi cyflwyno nifer o ddramâu gyda cherddoriaeth, ac operâu roc. Eleni yr oedd y cwmni'n teimlo y dylid ymhel â rhywbeth sylweddol byd enwog, gan gofio bod nifer fawr o dalentau actio, canu a dawnsio wedi eu meithrin ers nifer o flynyddoedd trwy'r cynhyrchiadau. Dewiswyd felly 'Yr Opera Pishin Tair'. Fe fydd eisiau cast a cherddorfa arbennig iawn i fentro ar y gwaith hwn.

Mae'r 'Opera Pishin Tair' yn cyflwyno stori Mac y Gyllell a'i helyntion ym myd Soho, Llundain, dauddegau'r ganrif hon. Mae Brecht wedi lleoli ei ddrama yno er mwyn dychanu imperialaeth, cyfalafiaeth a hefyd draddodiad yr opera felodramatig. Mae Mac y Gyllell yn hoff o'r merched ac yn priodi mwy nag un; dyna'i ddiwedd; daw'r heddlu a'i garcharu, a'i ddwyn i'r grocbren; ond y mae'r ddrama'n gorffen yn ddychanllyd o hapus. Mae'n waith sydd yn llawn eironi a dychan. Mae'n waith hefyd heb ei ail yn ei fywiogrwydd theatrig.

Fe ddewisir yr actorion, y cantorion, y technegwyr a'r offerynwyr o bob rhan o Gymru yn ystod mis Tachwedd 1980, a bydd y rhai ffodus yn rihyrsio adeg y Pasg 1981.

### TEITHIAU MERCHED Y WAWR YN 1981

Eleni, mae dwy daith, un yn y gwanwyn a'r llall yn yr hydref.

Yn y gwanwyn, Ebrill 22-25, taith i Antwerp ac i Amsterdam. Nodweddion: aros mewn gwesty 4 seren yn Antwerp, ymweld â gerddi blodau enwog Keukenhof ger Amsterdam, ymweliad â Brwsel. Manylion: bws (lle i 50) o Dde Cymru fore ebrill 22 i Dover. Bydd courier o Gymru gyda'r teithwyr. Pris £81.50, yn cynnwys yswiriant llawn, i'w dalu ar unwaith. Mae hon yn daith boblogaidd iawn ac mae'n debyg y bydd galw mawr amdani ac y llenwir y bws mewn dim amser.

I'r rhai o Ogledd Cymru sy'n dymuno mynd gellir trefnu bws i'w cludo i'r man cychwyn yn y De y diwrnod cynt, sef Ebrill 21.

Yn yr hydref, mis Hydref 6 am wyth niwrnod, taith i Ynys Creta yn cynnwys pedair noson yn Iraklion a thair noson yn Chania. – Aros mewn gwesty modern. Pris: £277.70 yn cynnwys yswiriant llawn. Os ydych yn bwriadu mynd ar y daith yma gofynnir am flaendal o £77.70 i'w dalu erbyn diwedd Chwefror.

Ceir yr holl fanylion am y ddwy daith oddi wrth Mair Elvet Thomas, Tre Llywelyn, 26 Gerddi Plasturton, Caerdydd CF1 9HF (Ffôn: 22589)


**E.W.Pritchard**
**CENTRAL GARAGE**
**Llanberis**

Ffôn 202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI





**BECWS DEINIOLEN**
(D.E. & R.P. JONES)
Ffôn: LLANBERIS 232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS
Dosberthir drwy'r fro
*HEB UNRHYW DÂL YCHWANEGOL*

# DEINIOLEN

DIOLCH – Dymuna teulu'r ddiweddar Mrs Gaynor Davies, 85 Pentre Helen, ddiolch o galon am bob amlygiad o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch i feddygon y teulu, y weinyddes leol, diolch am y blodau, ac i'r Parchedigion Trefor Lewis, Deiniolen a Gwilym Parry, Penmaenmawr, am eu gwasanaeth ddydd yr angladd.

Yn arbennig iawn diolchwn yn gynnes iawn i'r rhai hynny a fu yn ymweld mor gyson a ffyddlon, ac am eu parodrwydd i wneud cymwynas i ysgafnhau'r baich drwy ei misoedd o waeledd.

PWYLLGOR BRENHINES Y CARNIFAL – Daeth yr amser unwaith eto i ddewis Brenhines y Carnifal ac aelodau'r Llys. Rhaid i'r Frenhines a'r Tywysog fod rhwng 11 oed a 14 oed; y ddwy eneth i weini rhwng 9 oed a 10 ml 11 mis oed, a'r ddau fachgen rhwng 4 oed a 6 oed. Rhoddwch yr enwau ynghyd â 50c i Gloria Thomas, Hilda Parry neu Joyce Jones.

Cynhelir Noson Goffi ar Chwefror 20 i ddewis y rhai llwyddiannus. Bydd y Noson Goffi yn yr Ysgol.

DIOLCH – Dymuna Mrs Sheila Jones, Cheltenham ddiolch i berthnasau am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag ati yn ei phrofedigaeth ddiweddar o golli ei mam, Mrs Laura Bozman, 3 Deiniol Road, Deiniolen. Diolch yn arbennig i gymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd ac yn enwedig i weinyddwyr a thrigolion Plas Pen Gwaith Llanberis am eu caredigrwydd tuag at ei mam yn ystod ei harhosiad yno, a thuag at Sheila yn ei phrofedigaeth.

DIOLCH – Dymuna Mrs Jane Griffiths, 10 Tai'r Faenol, ddiolch i'w pherthnasau, cymdogion a chyfeillion am bob arwydd o garedigrwydd a ddangoswyd tuag ati yn ystod ei harhosiad yn Ysbyty Môn ac Arfon yn ddiweddar. Diolch hefyd i'r meddygon teulu a'r meddygon a'r gweinyddesau yn yr ysbyty.

DIOLCH – Dymuna Mr a Mrs O.G. Lewis, 33 Hafod Oleu ddiolch unwaith eto i drigolion ardal Deiniolen am eu rhodd o radio-casét ac am yr arian i Catherine. Hefyd diolch i dîm Dartiau'r Bull Inn a gweithwyr siop F.A.B. M.B.Z. Llanberis am eu rhodd hael o arian iddi. Diolch yn fawr iawn i bawb.

YR YSGOL FEITHRIN – Mwynhaodd plant a mamau yr Ysgol Feithrin eu parti Nadolig ar Ragfyr 11. Roedd yr adeilad wedi ei addurno i'r pwrpas gan y ddwy athrawes Mrs R. Worth a Mrs G. Marzelos. Daeth Santa Clos yno, sef Mr W. Iolen Hughes, i rannu anrhegion, a Mr Ossie Shaw i dynnu lluniau. Enillwyr y raffl oedd – Hamper Nadolig – Mrs Jean Evans, Hamper Nadolig – Eamon c/o Ieuan Bysiau, Cyw Iâr – Eleri, Tŷ'r Faenol, Sieri – John Morris, Crown, Siocled – Carol Regan, Llanrug.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd at y parti a'r raffl.

Y SEINDORF – Llongyfarchiadau i'r Seindorf ar ddod yn gyntaf yng nghystadleuaeth Rali Gogledd Cymru. Dywedodd y beirniad eu bod yn deilwng o'r wobr er nad oedd neb yn eu herbyn yn nosbarth B.

Dydd Sadwrn, Rhagfyr 6 gwelwyd y Seindorf yn arwain Santa Clos i lawr y stryd yn Mangor.

Nos Fawrth Rhagfyr 9 cafodd clwb henoed Deiniolen a oedd yn cael eu cinio Nadolig yng Ngwesty Bron Eryri, Llanberis ymweliad annisgwyl gan y Seindorf a diddorwyd hwy mewn cân ac eitemau eraill gan yr aelodau.

Nos Iau, Rhagfyr 18 buont o amgylch yr ardal yn casglu arian tuag at Gymorth Nyrsio Deiniolen.

Enillwyr Clwb 200 – Rhagfyr – 1. £25, Rhif 194, E. Baum, Tŷ Capel, Y Ffôr; 2. £15, Rhif 181, K. Evans, 5 New Street, Deiniolen; 3. £5, Rhif 73, H. Saynor, 3 Green Terrace, Deiniolen. Gwobrau Nadolig – 1. £15, Rhif 8, A. Jones, 8 New Street, Deiniolen, 2. £5, Rhif 29, Mrs M. Jones, 5 Maes Eilian, Dinorwig. Ionawr 1981 – 1. £25, Rhif 79, B. Williams, Tŷ Capel Disgwylfa; 2. £15, Rhif 87, G. Morris, 13 Talybont, Llanrug; 3. £5, Rhif 95, D. Jones, 29 Maes Hyfryd, Caernarfon.

Cynhaliwyd cyngerdd llwyddiannus dros ben yn Theatr Gwynedd, Bangor ar Ionawr 11. Yn cymryd rhan oedd Hogiau'r Ddwylan, Leah Owen a Seindorf Deiniolen, dan arweiniad Mr Charles Williams.

DIOLCH – Dymuna Mrs Katie Jones, Emrys ac Arwel, 7 Cynfi Terrace, ddiolch o galon i'r teulu, y cymdogion a chyfeillion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch hefyd am y llu o gardiau a dderbyniwyd.

**CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR**

**ENNILL RECORD**

Llongyfarchiadau i Iola Llywelyn, Deiniolen ar ennill y record 'Plant y Fflam' yng nghystadleuaeth y Nadolig.

## CADW'N GYNNES YN Y GAEAF

Mae'r Cyngor Addysg Iechyd wedi paratoi pamffled sy'n cynnwys argymhellion perthnasol i'r henoed a all ddioddef hypothermia yn ystod misoedd oer y gaeaf. Prif fwriad y cyngor yw ceisio lleihau nifer y marwolaethau sy'n digwydd yn ystod yr adeg yma o'r flwyddyn.

Mewn cyfnod oer mae yna 300 o farwolaethau ychwanegol bob dydd o ganlyniad i afiechyd y galon, strôc a niwmonia, a chredir bod hypothermia yn ffactor annatod mewn llawer achos er mai yn anaml iawn y caiff ei nodi fel achos ar dystysgrif marwolaeth.

Gellir cael y pamffled 'Keeping Warm in Winter' yn rhad ac am ddim oddi wrth Uned Addysg Iechyd, Awdurdod Iechyd Gwynedd, Bodfan, Ysbyty Eryri, Caernarfon. Ffôn: C'fon 5970.

Mae'n bosib i ni, sy'n dod i gysylltiad â phobl mewn oed, sicrhau nad ydynt yn dioddef oerfel y gaeaf hwn drwy gymryd y 6 phwynt yma i ystyriaeth wrth ymweld â'u cartrefi.

**1. Ydy'r Ystafell i'w theimlo'n ddigon cynnes?**
Dywed yr henoed yn aml iawn nad ydynt yn teimlo'r oerni ond os ydych yn teimlo yn oer eich hun, mae'n bosib i'r person fod mewn perygl heb wybod hynny.

**2. Ydyn nhw'n cadw'n gynnes yn ystod y dydd a'r nos?**
Mae llawer o ddillad yn gallu helpu i gadw hen berson yn gynnes. Defnyddiau naturiol yw'r gorau, megis gwlân, a gall het a menyg helpu i gadw'r oerfel draw. Mae'n hynod bwysig cadw'n gynnes yn ystod y nos, felly gwnewch yn saff nad yw'r gwely yn erbyn wal allanol y tŷ a bod digon o flancedi drosto. Gellir cymeradwyo 'Duvets' yn ogystal â phlanced drydan uwchben matras y gwely.

**3. Ydy eu dwylo'n teimlo'n oer?**
Mae'n bosibl i'r henoed ddweud eu bod yn gynnes. Ond os yw eu dwylo'n teimlo'n oer gallant fod mewn perygl.

**4. Ydyn nhw'n bwyta digon?**
Mae bwyd da yn helpu pobl i gadw'n gynnes, ac mae'n bwysig cymryd bwydydd poeth. Mae llond fflasc thermos o gawl yn arbennig o ddefnyddiol i helpu'r henoed yn ystod y dydd. Efallai eich bod mewn sefyllfa i helpu rhywun naill ai trwy baratoi bwyd neu trwy fynd ar neges i'r siop.

**5. Ydy hi'n bosib gwella'r system wresogi?**
Yn ystod y gaeaf mae'r syniad da i fyw mewn un ystafell a chadw honno yn gynnes drwy'r amser. Efallai y gallech helpu drwy ad-drefnu'r dodrefn neu argymell sut i wresogi'r ystafell yn fwy effeithiol. Dylech chwilio am ddrafftiau o gwmpas drysau, lloriau a ffenestri. Mae 'Cling Wrap' y tu mewn i ffenestr yn ffordd rad ac effeithiol o ddyblu'r gwydriad.

**6. Ydyn nhw'n gwybod y gallant fod mewn sefyllfa i hawlio lwfans gwresogi?**
Mae'r Llywodraeth wedi nodi lwfans ychwanegol ar gyfer gwresogi ac insiwleiddio cartrefi. Gellir cael y manylion o swyddfa leol yr Adran Iechyd a Nawdd Cymdeithasol ac fe welir y cyfeiriad yn y Swyddfa Bost leol neu'n y cyfarwyddiadur ffôn.


*Ai chi sy'n darllen*
**CURIAD?**
PAPUR BRO
CYMRU GYFAN





Ar werth yn eich siop bapur holwch amdano 30c

**J.M. JONES A'I FAB**
**GWAITH CERRIG BEDDAU**
**DEINIOLEN**
**Ffôn: Y FELINHELI 670124**

**OSMOND W. SHAW**
Peiriannydd Radio a Theledu & Gwasanaeth Awdio
BWLCH UCHAF
**DEINIOLEN**
*Ffôn Llanberis 545*
*Gwasanaeth 'run diwrnod os ffoniwch cyn 10 o'r gloch*

CARPEDI **ALUN GLYNJONES** LLENNI
**(Wetton a Thomas)**
**14, Ffordd Garth, BANGOR Ffôn 53705**
**(gyferbyn â'r orsaf fysiau)**
**Gostyngiad sylweddol am arian parod**
**Gosodir pob carped am ddim**
**Dibynnwch ar ansawdd lle bo ansawdd yn cyfrif**





# WAUNFAWR

LLWYDDIANT CERDDOROL – Roedd y canlynol yn llwyddiannus mewn arholiadau gyda'r piano yn ddiweddar – Gradd 1 – Siân Lloyd Jones, Dôl y Coed, Jonathan Davies, Dôl Gwyrfai; Gradd 2 – Huw Ynyr, Tan y Fron, Kevin Roberts, Sŵn y Gwynt (gyda theilyngdod); Gradd 3 – Joyce Benham, The Haven, Joanna Marston, Blaen y Nant.

CYFLAWN AELODAU – Pnawn Sul, Rhagfyr 7 yng Nghapel Moreia derbyniwyd y ddwy chwaer Janet ac Anne Dawson, yn gyflawn aelodau. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parch J. Ronald Williams, Salem, Caernarfon.

YN YR YSBYTY – Drwg gennym ddeall bod Mrs E.M. Owen, Dôl Peris a Miss Rosa Hughes, Tref Eilian yn yr ysbyty. Hefyd fe syrthiodd Mrs A. Jones, Y Garn yn y tŷ a thorri ei choes ac aethpwyd â hi i'r ysbyty.

Anfonwn ein cofion cynhesaf atynt am wellhad buan.

ADREF O'R YSBYTY – Croeso adref i Miss Janet Dawson, Bro Waun; Miss Linda Jones, Crud yr Awel; Mrs Mwynwen Jones, 19 Tref Eilian; Mrs Stanley Williams, 10 Bryn Golau; Mrs Idris Humphreys, Arwelfa; Mr Huw Morris Thomas, Bro Waun; Elliw Haf Iwan, Penyberth; a Miss Sharon Jones, 5 Stad Tŷ Hen. Gobeithio eu bod yn dal i wella.

Anfonwn ein cofion hefyd at Mr Gwilym Hughes, Mr Huw Owen a Mrs W. Griffiths, y tri o Stad Tref Eilian ac a anafwyd yn ddiweddar.

YR YSGOL – Wythnos brysur iawn oedd wythnos ola'r tymor Nadolig yn yr ysgol. Dydd Mawrth, 16 Rhagfyr, yr oedd yn 'Ddiwrnod Agored' i'r rhieni ddod i'r ysgol i weld a thrafod gwaith eu plant. Rhoddwyd Cyngerdd Cerddorol i'r rhieni gan blant Safon II, III a IV wedi eu hyfforddi gan Mrs Eames. Yr oedd Mr John Huw Davies, Prif Drefnydd Cerddoriaeth Gwynedd yn bresennol a rhoddodd anerchiad byr ar werth dysgu cerddoriaeth yn yr ysgol.

Dydd Mercher, 17 Rhagfyr cafwyd y Te Parti blynyddol wedi ei baratoi gan staff y gegin a'r athrawon. Ymwelodd Siôn Corn a dosbarthodd anrheg i bob plentyn.

Bore Iau, cafwyd Gwasanaeth arbennig ar gyfer y Nadolig. Yr oedd y Parch Ganon Glyndwr Williams, y rheithor yn bresennol a chafwyd anerchiad pwrpasol ganddo. Amser cinio mwynhaodd y plant sydd yn bwyta cinio ysgol eu Cinio Nadolig wedi ei baratoi'n ofalus gan staff y gegin. Yn y prynhawn cafwyd Cyngerdd Nadolig pryd y cymerwyd rhan gan holl blant yr ysgol. Dymuna'r prifathro a'r athrawon ddiolch yn gynnes iawn i'r rhieni a chyfeillion a gyfrannodd gyda rhoddion, yn nwyddau ac arian tuag at y parti.

Yn ystod y tymor casglodd y plant £50 trwy eu 'Casgliad Ceiniog' ac anfonwyd yr arian tuag at achosion da. Diolch eto i'r rhieni am eu cefnogaeth.

GYRFA CHWIST – Cynhaliwyd Gyrfa Chwist lwyddiannus nos Lun Ionawr 12 gan bwyllgor Carnifal yr Ysgol Feithrin. Defnyddir yr elw a wnaed i gynnal y Carnifal.

Dyma ganlyniadau'r noson – Merched – 1. Nerys Thomas; 2. Mrs M. Hughes; 3. Carys Owen. Gwobr Hanner Amser – Nerys Thomas; 'Booby' – Rhian Jones.

Dynion – 1. Twm Jones; 2. John Nathaniel; 3. Eifion Williams. Gwobr Hanner Amser – John Nathaniel; 'Booby' – Elwyn Jones.

Enillwyr y 'Knockout' ar y diwedd oedd John Nathaniel a Mrs Katie Hughes. Enillwyd y raffl sef Bocs o Nwyddau gan Carys Jones.

Rhoddwyd y diolchiadau gan yr arweinydd, Edgar Owen. Dymuna'r pwyllgor ddiolch am bob cefnogaeth a chyfraniad a gafwyd.

CLWB GWYRFAI – Bu cyfarfod o'r clwb yn Neuadd yr Eglwys Ionawr 15 pryd y rhoddodd Miss Katie Roberts adroddiadau a deialogau, a chanwyd caneuon gwerin ac emynau gan Mrs Menai Williams. Diolchodd Mr T.H. Williams i Miss Roberts a Mrs Williams am bnawn mor ddifyr. Cafwyd te arbennig wedi ei baratoi gan Nyrs Jones-Evans, Mrs Parry Williams a Mrs Griffith, Caeau Gwynion. Yn y cyfarfod nesaf Ionawr 29 y gŵr gwadd fydd Mr Arthur Williams.

ADRAN YR URDD – Eleni mae Adran lewyrchus o'r Urdd yn y pentref gyda deugain o blant wedi ymaelodi.

Mae'r Urdd yn cyfarfod yn yr ysgol am 6 o'r gloch bob nos Fercher dan arweinyddiaeth Cefin Jones, Crud yr Awel. Agorwyd y tymor diwethaf gyda 'Noson y Gwrachod' a phawb wrth eu boddau yn 'tocio' 'falau. Yna daeth Noson Tân Gwyllt, pryd y darparodd y Pwyllgor Arddangosfa Tân Gwyllt, cawl a chŵn poeth i'r aelodau.

Dangoswyd ffilm o daith ganŵ i lawr yr Eferest gan Elfed Roberts trefnydd yr Urdd a chafwyd amryw o nosweithiau difyr eraill.

Daeth tymor y Nadolig i ben gyda thrip i'r Pwll Nofio yn Llangefni, ac yna 'bagiad o chips' i bawb cyn cychwyn adref.

Cynhelir Noson Goffi yn Neuadd yr Eglwys nos Wener, Chwefror 6 am 6.30 o'r gloch gydag elw'r noson yn mynd i'r adran leol o'r Urdd.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL – Yn Festri Croesywaun, Ionawr 12 dan lywyddiaeth Beryl Lloyd Jones, Dôl y Coed cafwyd cyfarfod diddorol ar hanes teulu ac ardal chwe aelod – Winnie Evans, Lleifior – Eifionydd a Cheiriog; Annie Roberts, Bod Idris – William Owen, Prysgol; Gweneirys Jones, Cartrefle – Cwm Eithin; Bessie Jones, Bron Eryri – egwyl o fiwsig gan ddwy nith; Phyllis Jones, Rhoslan – Nantlle; J.M. Spark, Tremnant – Gandhi. Trefnwyd y rhaglen gan Mary Vaughan Jones.

MERCHED Y WAWR – Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau, Chwefror 26, pryd y cawn ffilmiau am yr Aifft gan Mrs Mary Vaughan Jones.

DRAMA NADOLIG YSGOL SUL CROESYWAUN – Perfformiwyd drama Nadolig Ysgol Sul Croesywaun nos Lun, Rhagfyr 29. Daeth tua 40 o bobl ynghyd i'r Festri Fawr i weld y perfformiad ac roedd pawb i'w weld wedi mwynhau'n fawr.

Ysgrifennwyd y ddrama gan Mr Rhodri Prys Jones, ac fe'i cynhyrchwyd gan athrawon yr Ysgol Sul. Drama ar fydr ydoedd, yn portreadu stori'r Geni mewn dull syml ond difyr, a chafodd y plant hwyl ar ei chyflwyno. Ar ddiwedd y noson gwnaethpwyd casgliad at yr Ysgol Sul.

Dyma restr o'r plant a fu'n cymryd rhan – Mair: Sandra Wyn Jones, Joseff: Kevin Roberts, Canwriad: Llion Iwan, Abraham: Euros Wyn, Ruth: Karen Roberts, Angel Gabriel: Elliw Iwan, Martha: Iona Williams, Lletywr: Iwan Ellis, Gwraig y Lletywr: Siân Lloyd Jones, Gwas: Euros Wyn; Doethion: Llion Iwan, Telor Iwan, Gwyndaf Williams, Angylion: Karen Roberts, Gwennan Jones, Ella Wyn Jones, Nia Lloyd Jones, Bethan Wyn, Elain Medi Owen, Anwen Jones, Kailey M. Jones, Bugeiliaid: Gareth Rhys Jones, Rhys Siôn, Rhodri Siôn, Martin Roberts, Gerallt Williams, Darllenwyr: Siân Lloyd Jones a Karen Roberts.

Rhaid diolch yn fawr i'r canlynol: i holl athrawon yr Ysgol Sul am gydweithio i baratoi'r ddrama; i Mr Dafydd Iwan a Mr E. Wyn Jones am arwain a chyfeilio i'r canu cynulleidfaol ar ddiwedd y perfformiad; i blant hŷn yr Ysgol Sul am eu cymorth ar y noson; i'r mamau am ddilladu'r plant yn fendigedig; ac yn fwyaf oll i'r plant eu hunain am eu holl waith caled.

LLONGYFARCHIADAU arbennig iawn i Mrs Olwen Williams, Llidiart Wen am lwyddo hefo'i phrawf gyrru. Deallaf bod cynlluniau mewn llaw gan y Cyngor Sir i ledu'r ffordd o gwmpas y capel!

YR YSGOL FEITHRIN – O Ionawr 26ain bydd yr Ysgol Feithrin yn agored o 10 o'r gloch hyd 12 o'r gloch.

NEWID TŶ – Dymuniadau gorau i Mr a Mrs Gwilym Williams, a'r genod, Delyth a Bethan yn eu cartref newydd. Mae oriau o waith caled iawn wedi eu treulio gan Gwilym ym Modhyfryd.

Dymuniadau gorau i Mr a Mrs Borth Jones, sydd wedi symud o'r Waun yn ddiweddar i Gaernarfon.

LLONGYFARCHIADAU i Graham Rowlands, 5 Bryn Golau ar gael ei ddewis yn un o'r tri ricriwt cyntaf i'r Cynllun arbennig o 4 blynedd ar gyfer Prentisiaeth a Hyfforddiant gyda Bwrdd Dŵr Cymru.

I Mr a Mrs G. Taylor, 10 Dôl Erddi am fod yn daid a nain unwaith eto, ganwyd merch i Catherine.

I Mr a Mrs Idris Humphreys, Arwelfa am fod yn daid a nain.

I Mr a Mrs Lloyd Roberts, Y Gables ar enedigaeth eu mab.

I Luned Pritchard a Gwyneth Williams, Bro Waun ar eu priodasau yn ddiweddar.

I Ian Williams, 18 Bro Waun ar ei ddyweddiad â Beth Lewis Jones o Lanrug.

I Mr a Mrs Clifford Pierce, Ty'n Twll Mawr ar ddathlu eu priodas arian.

I Susan Hughes (gynt Dawson) ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 21ain oed.

GWASANAETH NADOLIG Y PLANT – CAPEL BETHEL – Pnawn Sul, Rhagfyr 21 yn Festri M.C. cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig y Plant. Canwyd carolau a chafwyd eitemau unigol. Yn ogystal cafwyd Rhaglen Ddarlledu wedi'i llunio a'i threfnu gan Miss Marilyn Roberts.

Yn yr hwyr cafwyd cyfarfod eto i ddathlu'r Nadolig wedi ei drefnu gan Miss Bessie Jones. Cymerwyd rhan gan Einir Jones, Anna Lloyd Hughes, Nia Jones, Gweneirys Jones, Myra Turner, Thomas John Pritchard, Llifon Jones a T.H. Williams.

CANMLWYDDIANT EGLWYS SANT IOAN – Cafwyd diweddglo bendigedig i'r Canmlwyddiant yn Neuadd yr Eglwys nos Iau Ionawr 15.

Cymerwyd y ffurf 'Can Mlynedd o Wisgoedd' gydag aelodau o'r eglwys a'r 'Guild' a'u plant yn modelu dilladau o'r cyfnod rhwng 1880-1980.

Yr oedd yn noson hynod o ddiddorol gyda chefnogaeth dda.

Ar ran Pwyllgor y Canmlwyddiant hoffai'r ysgrifenyddes Mrs A. Chadwick, ddiolch i bawb a gymerodd ran, hefyd y rhai a fu'n helpu, ac i bawb a oedd yn bresennol yn y gwahanol gyfarfodydd.

Bydd 1981 yn flwyddyn i'w chofio yn hanes Sant Ioan.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cynhaliwyd cyfarfod mis Ionawr o'r Sefydliad yn Neuadd yr Eglwys nos Iau Ionawr 1af.

Croesawodd Mrs C.A. Jones, y llywydd, yr aelodau i'r cyfarfod gan ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Croesawodd Mrs Smith, sef chwaer Mrs Morfa Evans, fel ymwelydd i'r cyfarfod a dymunodd adferiad buan i Mrs Mary Davies.

Cafwyd noson ddiddorol gan yr aelodau gyda pharti gwisg ffansi, a chwis wedi ei drefnu gan Mrs Morgan Jones a gêm 'chwilod' wedi ei threfnu gan Mrs Katie Jones.

Enillodd Mrs Overy y raffl a roddwyd gan Mrs Idris Jones, a rhoddwyd y blodau ar fwrdd y llywydd gan Mrs Missen. Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Neuadd yr Eglwys nos Iau Chwefror 5 pan fydd Mrs Mattram yn rhoi sgwrs ar ei bywyd yn Awstralia.

## YN GANT OED TUA'R NADOLIG



Ym Mhant Hywel Llandegfan ar Ragfyr 17 1880 ganwyd Jane Grace Roberts. Yr oedd ei thad yn weithredydd (agent) i Stad Llynon a'i mam o deulu Morgan, Cadnant, Y Borth.

Diddorol yw nodi mai Y John Elias a fedyddiodd ei thad yn Llanfechell; ac i'w thad yn ddiweddarach golli ei fferm am fod yn Rhyddfrydwr penboeth yn ystod lecsiwn ei feistr tir, Bukley Hughes, yn erbyn Davies Treborth.

Symudodd y teulu i Blas Glynafon y Waunfawr yn 1900, ac oddi yno priododd â Griffith Parry, mab Glan'rafon Bach – ac yn Hafod-y-rhug Isaf y bu'r ddau yn cartrefu am gyfnod hir. Dathlodd ei phen-blwydd yng nghartref ei merch, Gwyneth, yn Aberaeron.

Mae heddiw yn debycach i wraig 70 ifanc, yn gweld a chlywed yn rhyfeddol o dda ac yn cymryd diddordeb mawr mewn hanesion hen a newydd. Mae'n cofio bod ofn y Bardd Cocos, a ddeuai o gwmpas y ffermydd i hel peiswyn i wneud matresi, hen ddyn bach barfog blêr yn dreifio trol a mul; cofio Ellis Jones Griffith A.S. Sir Fôn, ffrind teuluol iddynt, yn amddiffyn Coch Bach y Bala yng Nghaernarfon; cofio'r cannoedd o adroddwyr a gerddai tua'r Hafod o'r pentrefi cyfagos, i gael cymorth deallus Griff, ei gŵr; cofio'r motorbeic a gariai'r tri phlentyn, Gwyneth, Meirion a Rhiannon i Ysgol y Waun. Hyd yn ddiweddar iawn cerddai o Hafod y Rhug i Gapel Croes y Waen – cryn ddwy filltir o ffordd. Ers rhyw dair blynedd bellach mae'n byw yn gyffyrddus yn y Bwthyn yn Aberaeron. Ein dymuniadau da iddi yn y flwyddyn newydd a diolch am gael adnabod gwraig fonheddig.

*Yn y llun gwelir Mrs J.G. Parry a'i dwy ferch yn torri'r deisen pen-blwydd.*

## SIBRYDION O'R YSGOLION

YSGOL BRYNREFAIL

Theatr Cymru – Dydd Mercher, Ionawr 14 ymwelodd Gwen Ellis o Gwmni Theatr Cymru â'r Chweched dosbarth. Rhoddodd sgwrs ddiddorol am y gwaith sy'n rhagflaenu'r perfformiad ar y llwyfan. Cymerodd 'Y Gwenith Gwyn' fel ei henghraifft – dyma'r perfformiad fu mor boblogaidd y llynedd.

**YR URDD**

Dydd Mercher, Ionawr 21, bu Dr Jones o Frynsiencyn yn ymweld ag aelodau'r ysgol o'r Urdd. Dangosodd sleidiau i'r plant a bu'n sgwrsio am ei hanes yn Ffrainc ac yn Sbaen.

**ARWERTHIANT 'BLUE PETER'**

Bore Gwener, Ionawr 23 cafwyd arwerthiant 'Blue Peter' yn yr ysgol i'r dosbarthiadau iau. Trefnwyd yr arwerthiant gan Mrs Jean Pleming a rhai o enethod yr ail flwyddyn. Bydd yr arian yn cael ei yrru i'r rhaglen 'Blue Peter' i gael cerbydau trydan i blant a phobl fethedig.

**RABBI**

Bore Gwener, Ionawr 23 hefyd aeth Mrs Jean Pleming a rhai o aelodau dosbarth ysgrythur y Chweched i weld 'Rabbi' Iddewig i Goleg y Santes Fair, Bangor.

**YMWELIAD A'R COLEG NORMAL**

Yr wythnos hon ymwelodd y Chweched dosbarth â'r Coleg Normal i weld sut y gweinyddir y lle.

**PÊL-DROED**

Ar fore Sadwrn, Ionawr 17 chwaraeodd tîm y flwyddyn gyntaf yn erbyn tîm Ysgolion Cynradd cylch Bangor – colli wnaeth yr ysgol mewn gêm agos o 2 gôl i 1.

**GYMNASTEG**

Mae Matthew Ingle o Ddinorwig wedi ennill gwobr gyntaf y Gymdeithas Gymnasteg Brydeinig. 'Roedd mam Matthew – Mrs Pat Ingle yn athrawes Ymarfer Corff yn yr ysgol flynyddoedd yn ôl.

**JUMPERS**

Nos Wener, Chwefror 27, am 7.30 bydd cwmni dawnsio enwog 'Jumpers', o Gaerdydd, yn perfformio yn yr ysgol. Dyma'r tro cyntaf i'r cwmni berfformio yn gyhoeddus yng Ngwynedd, er iddynt gynnal gweithdy dawns yn yr ysgol amryw o weithiau o'r blaen. Ticedi ar gael yn yr ysgol gan Miss Elisabeth Williams, pris: 50c.

**MR OWEN ELLIS, DEINIOLEN (gynt)**

**Yn ystod y mis diwethaf bu farw yn 91 oed gymwynaswr mawr iawn i'r Ysgol yn y dyddiau a fu. Fe fu Mr Ellis yn Gynghorydd dros ardal Deiniolen ac felly yn aelod o Fwrdd Llywodraethol yr hen Ysgol Brynrefail ac hefyd yr Ysgol newydd a agorwyd ym 1956. Bu hefyd yn Gadeirydd yn ei dro. Fe fu yn gefn ac yn gyfaill i'r Ysgol ar hyd y blynyddoedd.**

**Ef hefyd yn rhinwedd ei alwedigaeth fel saer maen a fu'n gyfrifol am y Gofeb i T. Rowland Hughes, ac am y plac sydd yn cofnodi agor yr Ysgol bresennol. Y mae'r ddau yn Neuadd yr Ysgol fel tysteb barhaol iddo yntau hefyd.**

**Hoffem fel Ysgol dalu teyrnged i'w goffadwriaeth.**

## TRADDODIAD A CHOEL

### gan 'Yr Hen Dderwydd'

Yr ŵyl gyntaf i'w dathlu wedi gwyliau'r Nadolig oedd 'Gŵyl Fair y Canhwyllau' neu 'Ŵyl Fair Forwyn ddechrau'r gwanwyn', sef Chwefror 2. Yn yr hen amser, rhennid canhwyllau ymysg y bobl i ddathlu'r Ŵyl, ac wedi eu goleuo, byddid yn cerdded gyda hwy i'r eglwys i wasanaeth arbennig. Ond datblygodd y canhwyllau fel sumbolau o ddyfodiad y gwanwyn, ac yr oedd y Gymru Wledig amaethyddol yn cyfrif yr Ŵyl hon fel arwydd fod y gaeaf drosodd. O'r dydd hwn ymlaen nid oedd angen golau artiffisial, ac yr oedd yn ddigon golau gyda'r nos i fwydo'r anifeiliaid heb gymorth lamp na channwyll.

Gŵyl symudol oedd y Pasg a'r holl wyliau eraill sy'n perthyn iddi, felly nid oedd cymysgwch ynglŷn â dyddiadau'r gwyliau hyn pan newidiwyd y calendr. 'Doedd y dryswch ynglŷn â gwahanol ddyddiadau'r Nadolig ddim yn bodoli felly. Y Pasg oedd yn penderfynu'r gwyliau am y naw Sul blaenorol, gan gychwyn â'r Ynyd – sef y tri diwrnod olaf cyn dechrau'r Grawys. Daw'r gair 'Ynyd' o'r Lladin 'initum' sy'n golygu 'dechreuad'. Yr hen enw ar ddiwrnod olaf Ynyd oedd Nos Ynyd, ond erbyn heddiw, Dydd Mawrth Ynyd yw'r enw cyffredin, ac ar y diwrnod hwn yr oedd y gwledda olaf cyn cyfnod ympryd y Grawys. Golygai hyn ddefnyddio'r cyflenwad olaf o'r menyn a'r saim, ac felly dyna'r rheswm dros wneud crempogau. Yn Lloegr, gelwid y diwrnod o flaen Dydd Mawrth Ynyd yn 'Collop Monday', ac ar y diwrnod hwn y bwyteid y cyflenwad olaf o gig hallt a gedwid dros y gaeaf.

Arferion eraill, ar wahân i fwyta crempogau, oedd ymladd ceiliogod, ac y mae cofnodion i'w cael o'r arferiad hwn mewn llawer ardal yng Nghymru. Mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, byddai'r tlodion yn casglu blawd a lard ar y diwrnod hwn – traddodiad a elwid yn 'blawta a blonega'. Mewn rhai ardaloedd, cedwid addurniadau'r Nadolig hyd y dyddiad hwn, a'u tynnu i lawr a'u llosgi i wneud tân wrth baratoi'r crempogau.

Yn ystod cyfnod y Grawys, yn enwedig yn y ddeunawfed ganrif, byddai'n arferiad gan rai pobl i wisgo du o barch. Ond ar y cyfan, nid oedd arbenigrwydd yn perthyn i'r Grawys, a dyna'r rheswm pam yr oedd cymaint o briodasau yn ystod y Pasg – pan oedd tymor anlwcus y Grawys drosodd.

'Roedd y Suliau'n arwain at y Pasg yn cael eu cofio gan y pennill canlynol:

Dydd Sul Ynyd, Dydd Sul hefyd;
Dydd Sul a ddaw, Dydd Sul gerllaw;
Dydd Sul y Meibion; Dydd Sul y Gwrychon;
Dydd Sul y Blodau; Pasg a'i ddyddiau.

Roedd y tri Sul cyn y Pasg yn gysylltiedig â llawer o draddodiadau; ond cawn fwy o hanes y rheini y mis nesaf.

## TOSTURIO DROS GEL

### gan Emyr Jones, 17 Hafan Elan, Llanrug

Ychydig dros flwyddyn yn ôl y gwelais i Gel gyntaf. Ci defaid ydyw, a'i gartref oedd Fferm Pant-y-Bryngwyn, Tan-y-coed, hyd farwolaeth ei berchenogion. Doedd ganddynt ddim teulu. Oherwydd hynny yr oedd wedi ei adael yn amddifad, neb i edrych ar ei ôl, nac i roddi tamaid o fwyd iddo.

Y cyfnod hwnnw mi roeddwn yn byw rhyw bedwar cae o'r fferm. Er bod gennyf ddwy gath, mi roeddwn yn gofalu am damaid iddo bob dydd. Yr oeddwn yn dal sylw ei fod yn greadur bach glân, ac yn hoff iawn o blant.

Ychydig ddyddiau cyn Nadolig 1979 cefais air gan y cyngor, fy mod yn derbyn byngalo newydd yn Hafan Elan. Y broblem wedyn oedd beth oeddwn am wneud gyda'r ci?

Bu Mrs Jones y warden yn garedig tros ben wrthyf yn archwilio'r rheolau, a chefais wybod y rheolau sef bod popeth yn iawn imi gael un ci yn fy nghartref.

Erbyn y dyddiau olaf o'r flwyddyn, yr oeddym fel teulu, wedi gorffen ymadael. Roedd Gel yn setlo i lawr yn rhagorol, ond am yn agos i dair wythnos bu'r ddwy gath yn gyndyn. Aeth un yr holl ffordd i Maes-y-Gerddi, Tan-y-coed, fy hen gartref am bron i 63 o flynyddoedd.

Mae Gel yn dal o hyd yn ddigon prysur. Mae'n edrych yn ofalus ar ôl y stad, 25 o fyngalos a'r Ganolfan.

Mae'r holl drigolion yn hoff iawn ohono a bydd yn cael ambell i asgwrn ganddynt. Erbyn hyn mae'n weddol hen, ond yn gwmpeini mawr i mi.



## BRYNREFAIL

YR URDD – Nos Iau, Rhagfyr 11 daeth tymor y Nadolig i ben yng nghwmni difyr Mr Edward Morris Jones. Yn wir dymuna pawb iddo ymweld â'r adran yn fuan eto.

Ailddechreuwyd y tymor gyda 'Disgo'r Urdd' ar Ionawr 9. Mr Elfed Roberts, Swyddog Datblygu'r Urdd ddaeth i gynorthwyo gyda'r Disgo. Fel Adran hoffem ddymuno'n dda iddo yn ei swydd newydd. Yn ystod y noson enillodd y canlynol docyn llyfr: Rhian Morris, Cwm-y-glo, Caron Jones, Brynrefail a Jacqueline Wager, Brynrefail. Mwynhawyd y noson gan bawb ac yn ystod yr egwyl cafwyd oren a sglodion tatws.

Nos Wener, Ionawr 16 ymgasglodd un ar ddeg o'r plant hynaf oddi allan i'r ysgol a disgwylient yn eiddgar iawn am fws i'w cludo i wersyll yr Urdd yng Nglanllyn. Yn ôl pob sôn cafodd y plant benwythnos i'w chofio ac yn sicr edrychant ymlaen i'w hymweliad nesaf â Gwersyll yr Urdd.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Yng nghyfarfod y mis cafwyd noson ddifyr yng nghwmni Mrs Pat Jones yn dangos y grefft o addurno poteli drwy gyfrwng 'macrame'. Rhoddwyd anrheg y mis gan Helen Jones, fe'i henillwyd gan Mrs H.J. Jones. Rhoddwyd y te gan Jennie Hughes a Jennie Williams a diolchwyd gan Mrs H.J. Jones.

CLWB PEDWARUGAIN – Enillwyr mis Rhagfyr: Rhag 5. 1. Eirlys Williams, 2. Bertie Roberts, 3. Eurwyn Williams. Rhagfyr 12: 1. Elwyn Jones, 2. Bobby Roberts, 3. Pat Jones. Rhagfyr 19: 1. Mary Roberts, 2. Dafydd Ellis, 3. Sheila Williams. Rhagfyr 26: 1. Norma Green, 2. Mrs Owen, 3. Len Parry.

CLWB MAMAU – Yng nghyfarfod mis Ionawr yn Nhŷ Glas cafwyd darlith ac arddangosfa ar Gymorth Cyntaf gan Mr M. Lamb o Benisarwaun (Swyddog Cymorth Cyntaf yng ngorsaf Dinorwig). Yr oedd ei hyfforddiant yn dra diddorol, gyda syniadau eithaf syml y gellir eu defnyddio mewn argyfwng. Rhoddwyd y te gan Rhian Jones a Helen Jones. Rhoddwyd anrheg y mis gan Liz Thomas, ac fe'i enillwyd gan Phyllis Jones.

DALIER SYLW – Fod y dosbarth ymarfer corff wedi ailddechrau yn Nhŷ Glas ar nosweithiau Llun am 7.30.

# Dyddiadur y Mis

Chwefror

1, Sul: LLANBERIS – Cyngerdd Mawreddog yng Nghapel Coch. Yr elw er budd Cronfa Ymchwil yr Iau.

2, Llun: LLANBERIS – Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

Cymdeithas Lenyddol y Capeli – Cwis dan ofalaeth Mrs Dilys Baylis.

3, Mawrth: LLANBERIS – Undeb y Mamau.

LLANRUG – Y Gymdeithas Undebol – Gŵr Gwadd fydd Mr Alwyn Owen, Porthaethwy.

Cangen Merched y Wawr yn ymweld â Changen Rhiwlas.

5, Iau: LLANRUG – Noson Goffi Cymdeithas Chwiorydd Capel Mawr.

WAUNFAWR – Sefydliad y Merched – Sgwrs gan Mrs Mattram ar ei bywyd yn Awstralia.

CWM-Y-GLO – Clwb Pobl y Cwm yn y Ganolfan am 2.30.

Pwyllgor y Ganolfan Gymuned am 7.00

6, Gwener: LLANBERIS – Te bach yr Henoed.

YR ARDAL – Clwb Eryri yng Ngwesty'r Gwynedd.

WAUNFAWR – Noson Goffi dan nawdd Adran yr Urdd yn Neuadd yr Eglwys am 6.30.

9, Llun: DEINIOLEN – Y Cyngor Eglwysi.

LLANBERIS – Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

10, Mawrth: LLANRUG – Merched y Wawr – Y Gŵr Gwadd fydd Mr John Ogwen.

BETHEL – Clwb Bro Bethel – Y Gŵr Gwadd fydd Mr Robin Jones.

12, Iau: WAUNFAWR – Clwb Gwyrfai.

Clwb y Mamau yn yr Ysgol am 7.00

CWM-Y-GLO – Clwb Pobl y Cwm.

14, Sadwrn, BETHEL – Eisteddfod.

16, Llun: LLANBERIS – Cinio i ddiweddu tymor Cymdeithas Lenyddol y Capeli ym Mron Eryri.

Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

17, Mawrth: LLANRUG – Y Gymdeithas Undebol – Ffilmiau gan Mr Ieuan Owen a Mr Glyn Jones.

19, Iau: CWM-Y-GLO – Clwb Pobl y Cwm.

20, Gwener: LLANBERIS – Te yr Henoed.

DEINIOLEN – Noson Goffi yn Ysgol Gwaun Gynfi pryd y dewisir Brenhines y Carnifal a'i gosgordd.

CWM-Y-GLO – Merched y Wawr – Noson yng nghwmni Madam Sera.

23, Llun: LLANBERIS – Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

26, Iau: WAUNFAWR – Clwb Gwyrfai.

Merched y Wawr – Ffilmiau am yr Aifft gan Mrs Mary Vaughan Jones.

CWM-Y-GLO – Clwb Pobl y Cwm.

28, Sadwrn: LLANBERIS – Cinio a Dawns y Lleng Brydeinig Frenhinol yng Ngwesty'r Fictora.

Cinio Gŵyl Dewi Sant Cangen Plaid Cymru ym Mron Eryri.

## SIOE FFASIWN

**Fel rhan o'r cwrs 'Gwneud Dillad a Theilwrio' sydd yn cael ei gynnal ym Mhlas Tan y Bwlch, Maentwrog dros y penwythnos Chwefror 13-15 bydd Sioe Ffasiwn fawreddog nos Sadwrn Chwefror 14. Ceir arddangosfa o waith crosio a gwau gan Mrs K. Tudor, a theilwrio gan Mrs Megan Williams a'r merched o'i dosbarthiadau nos ym Mhwllheli. Bydd y sesiwn hon yn un gyhoeddus, felly mae croeso i unrhyw un ddod draw ac ymuno yn y gynulleidfa. Dechreuir yn brydlon am 8.00, felly cofiwch gyrraedd mewn digon o bryd.**

## AM DDIM

**'English Electric – Rapide 50 Automatic' – 4 cylch. Cyflwr da iawn (er bod angen thermostat ar y popty). Cysylltwch â G. Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug. "Cyntaf i'r felin . . . "**

## AR WERTH

**Sgrin arbed gwynt ar gyfer drws Mini 1000. Ffôn: Llanberis 642.**


*Diolch am eich cefnogaeth trwy gydol 1980*

*Rwan ydi'r amser i ymuno â'r Clwb Nadolig ar gyfer 1981*

**Wavell Roberts**

**CIGYDD**

**LONDON HOUSE LLANRUG**

**Ffôn: Caernarfon 3574**

*PEN CIGYDD Y FRO!*


## GYRWYR RALI LLEOL YN AMLWG

Rhew oedd y gelyn i'r gyrwyr eleni yn ystod rali J.J. Brown, a drefnwyd gan Glwb Moduro Môn ac Arfon. Cynhaliwyd y rali ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf. Y rali yma yw uchafbwynt gornestau pencampwyr rali ffyrdd 'Motoring News', y 'British Trials and Rally Drivers Association' a Chymdeithas Clybiau Moduro Cymru.

Daeth rhai o yrwyr gorau Prydain i gystadlu yn y rali yma ar ffyrdd Llŷn, Eifionydd, ardal Caernarfon a Bangor.

Cychwynnodd y rali o faes parcio Wellfield, Bangor gyda Theo Bengry o Leominster yn ei harwain yng nghar rhif un, ac ar gyrrau Pant Glas cychwynnodd yr adrannau cystadlu, heibio i chwarel Graianog, yna ardaloedd Pencaenewydd, Boduan, Dinas ac yna am Lanbedrog am betrol ac egwyl fer cyn mynd ymlaen am Aberdaron, Nefyn, Caernarfon a Bangor.

Erbyn Llanbedrog, roedd rhai o'r ceir wedi gorfod rhoi'r gorau iddi oherwydd gwahanol broblemau, un o'r rhain oedd Bill Gwynne, cyn-bencampwr, ac exhaust ei Opel wedi ei rwygo.

Bu hyd at hynny, yn cystadlu yn y blaen gyda Mick Bryant, Ron Becroft, Theo Bengry, Steve Hill a John Bloxham, aeth John Bloxham allan o'r rali ger Caernarfon pan dorrodd ei Fiat Strada.

Gyrwyr lleol a haeddodd y rhan fwyaf o'r clod, llawer un ohonynt wedi curo rhai o yrwyr mwy profiadol, sef Hywell Evans o Gaeathro gyda John Jones o Benisarwaun yn ennill adran B mewn Toyota Celica, cwta funud ar y blaen i Tony Turner o Fotwnnog.

Enillwyd adran C gan Henry Jordan o'r Fron gyda Terry Jones o Dregarth hefyd mewn Toyota Celica.

Gyrwyr lleol eraill oedd Alun Foulkes o Fethel, Eurwyn Edwards a Brenda Appleton o Gaernarfon, ynghyd â David Atkin gyda Geraint Pritchard o Glynnogfawr, John Morgan o Ddinas Dinlle gyda Geraint Pritchard o Landwrog, oedd yn cystadlu yn eu rali gyntaf erioed, gorffennodd John a Geraint mewn safle canmoladwy mewn rali o safon mor uchel.

Cant o geir a gychwynnodd o Fangor, a dim ond hanner cant a ddychwelodd yn ôl i'r diwedd fore Sul. Dengys hyn y safon sydd ei angen i gystadlu mewn gornestau fel hyn. Dyma'r canlyniadau terfynol:

**1. Steve-Gareth Jones, Bae Colwyn, (Escort RS2000 18m15E).**
**2. Mick Bryant-Dave Kirkham, Luton (Lotus Sunbeam 20, 47E).**
**3. David Carless-Peter Forester, Potteries, Newcastle-U-L (Escort RS2000 22m 39E).**

**ADRAN A:**
**1. Theo Bengry-Paul Watkins, Leominster (Sunbeam).**
**2. Roger Moran-Steve Potter, Hereford (Escort RS2000)**
**3. Arwel Williams-Phil Jones, Harlech (Escort 2000)**

**ADRAN B**
**1. Howell Evans, Caeathro-John Jones, Penisarwaun (Toyota Celica)**
**2. Tony Turner-I. Wray, Botwnnog (Escort RS2000)**
**3. C. Lee-Carol Hughes, Bae Colwyn (Escort RS2000)**

**ADRAN C**
**1. Henry Jordan, Fron-Terry Jones, Tregarth (Toyota Celica)**
**2. Huw Griffiths-W.O. Jones, Harlech (Escort RS2000)**
**3. Aled W. Evans-Geraint Thomas, Harlech (Escort Twin Cam.)**

Ar ran Clwb Moduro Môn ac Arfon, hoffwn ddiolch i drigolion llwybr y rali am eu cefnogaeth i'r rali a hefyd i bawb a gynorthwyodd i'w gwneud yn rali mor lwyddiannus.

*Ifor D. Williams*

**LLANBERIS** (Atodiad)

Bydd cyngerdd yng nghapel Coch nos Sul Chwefror 1 am 8 o'r gloch, drysau'n agored am 7.30. Yr artistiaid fydd Trebor Edwards, Hogia'r Wyddfa, Stuart Jones, ynghyd ag artistiaid eraill lleol. Mae tocynnau ar werth yn Siop Wilson, Mrs D. Phillips a Siop Rosalind. Mae'r elw at'Ymchwil Clefyd yr Iau mewn plant'. Os am fwy o fanylion cysylltwch â Mrs Iola Sellars (ysgrifennydd), Padarn 413.

CANU CAROLAU – Bu aelodau o'r pwyllgor tuag at ymchwil Clefyd yr Iau mewn plant o amgylch y pentref yn canu carolau. Gwnaed elw o £183.89 am y ddwy noson.

Carai'r Pwyllgor ddiolch i Mrs M. Lloyd am arwain y canu a dewis y carolau ac i Mr J.H. Hughes am eu datblygu.

Diolch yn fawr i'r holl ardal am eich cefnogaeth.

Canlyniadau Rasus 'Coets' y tîm pêl-droed a gynhaliwyd ar Ragfyr 26: 1. Maldwyn ac Adrian; Y pâr â'r gwisgoedd gorau: Arfon ac Alan. Coets wedi'i addurno: 1. Arfon ac Alan. Tîm Tŷ Tafarn Buddugol: y 'Prince of Wales'. Genethod: Eleri a Gwenda – neb arall wedi cystadlu, ond yn llawn haeddu ennill. Bydd lluniau yn y rhifyn nesaf.


**GORS BACH PANEL BEATING SERVICE Cwm-y-glo**

**Ffôn : LLANBERIS 814**

**GWASANAETH TORRI-LAWR 24 AWR**



**Lle GWYCH Ar Gyfer Noson Allan!**

**GWESTY'R FOELAS (PREIFAT) LLANRUG**

**(Perch. Richard a Meirwen Thomas)**

**FFÔN: CAERNARFON 4652**

**PRYDAU BASGED BLASUS**

**BAR CLYD Â DEWIS DA O DDIODYDD**

# CHWARAEON

## SUT I FOD YN BENCAMPWR CHWIDONC

Dyma hen gêm a feddylir amdani'n aml fel gêm i blant. Er hynny, hoffwn eich argyhoeddi yn yr ychydig sylwadau sy'n dilyn, y gall 'Chwidonc' (gyda llaw, ar y 'donc' y mae'r acen, nid ar y 'chwi') fod yn gêm eithriadol o astrus, ac y gall plant o bob oedran ei chwarae.

Mantais fawr y gêm yw ei bod mor eithriadol o rad i'w chwarae. Nid oes angen teithio i ganolfan chwaraeon; nid oes angen dillad pwrpasol i'r gêm, ac y mae'r rheolau'n ddigon syml i unrhyw un eu dysgu a'u meistroli mewn ychydig iawn o amser. Gall dau neu bedwar chwaraewr gymryd rhan ar unwaith; gallant fod o unrhyw oedran, pwysau, maint neu ryw. Dyna i chi ddiddorol! A'r un siawns i ennill gan bo un.

Ydw i wedi codi awydd arnoch i wybod mwy? Wel, ymlaen a ni gyda disgrifiad syml o'r gêm a'r prif reolau.

**Cyfarfpar:** 1. Bydd angen set chwarae Chwidonc. Fe'i cewch mewn unrhyw siop deganau neu siop-bob-dim. Gan mai set i blant bach fydd hi, peidiwch a digalonni o brynu bocs yn cynnwys lluniau cymeriadau Walt Disney, neu gwningod neu dylwyth teg. Gallwch luchio'r bocs ar ôl cyrraedd adref; y cynnwys sy'n bwysig.

Dylai'r bocs gynnwys un cawg plastig. Gall fod o unrhyw liw. O fewn y cawg bydd un ar bymtheg o ddoncynnau; sef set o bedwar doncyn o liw gwahanol. Bydd hefyd bedwar cawrdonc o liw gwahanol, ond yn cyfateb i bedwar lliw'r doncynnau. Yn olaf, ceir wyth o ddarnau rhwng maint doncyn a chawrdonc. Fe'u galwn yn dad-donc. Gellwch eu galw'n fam-donc, yn Ms-donc (os ydych yn aelod o'r 'Women's Lib.' ) neu hyd yn oed yn Wawr-donc (pawb at y peth y bo). Bydd y rhain hefyd yn cyfateb o ran lliw i'r doncynnau a'r cawrdoncau. Gwelir felly fod set ar gyfer pedwar chwaraewr ymhob bocs; pedwar doncyn, dau dad-donc ac un cawrdonc i gyd o'r un lliw, a'r setiau eraill o liwiau gwahanol.

Pwrpas y gêm fydd cawgio'r doncynnau a'r dad-doncau wrth eu bodneidio gyda'r cawrdonc, – a hynny cyn i'ch gwrthwynebydd wneud yr un peth. Ond mae rheolau pendant ynglŷn â'r modd i wneud hyn: mwy am hynny'n ddiweddarach.

2. Bydd angen bwrdd arnoch. Ni wnaiff unrhyw fwrdd y tro. Mae bwrdd cegin, pren gwyn yn rhy galed. Mae bwrdd sglein cinio-a-channwyl yn rhy llithrig, a gallwch dreulio noson yn chwilota ar lawr gyda'ch partner am eich doncynnau (gall hyn fod llawn cystal â'r gêm, yn ôl awydd eich partner, wrth gwrs!). Rhaid cael bwrdd sgŵar di-sglein, di-bolish, a gorchudd tebyg i wyneb bwrdd smwddio arno. Dim ond ar fwrdd o'r math hwn y gellir bodneidio doncynnau'n fedrus.

3. Cyd-chwaraewr neu gyd-chwaraewyr. Mae'n dibynnu os oes awydd chwarae fesul dau neu fesul pedwar arnoch. Rhoddaf ddisgrifiad o'r gêm fel pe bai dau'n unig yn chwarae.

Rhaid gosod y bwrdd yn y modd canlynol: rhowch y cawg plastig i eistedd yn daclus ar ganol y bwrdd a'i geg yn agored. Yna, rhaid i chwi a'ch cyd-chwaraewr wynebu eich gilydd ar groes-gongl, gyda set o ddoncynnau, dad-doncau, a chawrdonc o'ch blaen. Gwyliwch fod lliwiau'r ddau ohonoch yn wahanol, neu byddwch mewn trafferthion dyrys cyn diwedd y gêm.

Penderfynwch pwy sydd i ddechrau, a chymerwch afael yn eich cawrdonc rhwng bys a bawd. 'Rydych yn barod rŵan i ddechrau bodneidio'r doncynnau a'r dad-doncau i mewn i'r cawg cyn i'ch gwrthwynebydd wneud yr un peth. Nid yw hyn mor hawdd ac y mae'n ei awgrymu. Gellir atal chwaraewr rhag cawgio drwy fodneidio ar gefn un o'i ddoncynnau. Gelwir hyn yn atalgefnu. Rhaid iddo yntau atalgefnu eich doncyn chwi cyn medru rhyddhau ei hun. Pe bai doncyn yn cael ei fodneidio oddi ar y bwrdd, yna bydd y chwaraewr hwnnw'n colli ei dwrn, a dyna gyfle bendigedig i'r llall gawgio ei holl ddoncynnau ac ennill y gêm.

Gair o gyngor: (a) mae ochr gafnog ac ochr grwm i bob doncyn. Mae'n haws cawgio wrth fodneidio gyda'r ochr grwm ar i waered; ond mae'n haws atalgefnu wrth fodneidio gyda'r ochr gafnog ar i waered.

(b) ceisiwch beidio a chwysu gormod, neu bydd yn anodd iawn dal gafael yn y cawrdonc, ac os bydd chwys ar y doncynnau a'r dad-doncau, yna anodd iawn fydd eu cawgio.

Gobeithio bydd y sylwadau hyn o fudd i chwi i ddysgu'r gêm, a chydag ymarfer a dyfalbarhad, gellwch ddod yn bencampwr chwidonc. Pwy a ŵyr, efallai y gwelwn bencampwriaeth chwidonc 'Eco'r Wyddfa' ryw ddydd.

# PÊL-DROED

Mis y cwpanau fu hwn i dimau'r fro, a chymysglyd fu eu hynt a'u helynt. Llanberis a Llanrug yn ffarwelio â dau gwpan Gogledd Cymru, a Bethel yn ffarwelio â dau o gwpanau'r Gynghrair. Tîm ieuenctid Llanberis yn neidio i frig y Gynghrair Ieuenctid am y tro cyntaf, a gobaith da ganddynt bellach o ennill y bencampwriaeth wedi i Borthmadog lithro'n ôl a cholli dwy gêm yn ystod y mis.

## BETHEL

**Colli fu eu hanes y mis hwn, yn drwm iawn yn erbyn Pwllheli yng Nghwpan Alves, – chwech gôl heibio'r amddiffynfa. Daethant gam yn nes yn y Cwpan Moorings: gêm gyfartal yn erbyn Nefyn, a chyfartal wedyn yn yr ail-chwarae. OND – chwythu' eu plwc yn y chwarae ychwanegol, a'r amddiffynfa eto yn gadael tair gôl heibio.**

## LLANRUG

**Ffarwelio â'r Cwpan Iau ar ôl chwarae'n ddifrifol yn erbyn Hirael, ond yna, maeddu tîm Nantlle yn Rownd 1af Cwpan Alves o 6-1 a gwneud yr un modd wedyn yng Nghwpan Penrhyn, gan guro Porthmadog o 4-0. Dic Owen a Hefin Pritchard yn sgorio'n rheolaidd iddynt.**

### CYNGHRAIR CAERNARFON A'R CYLCH

| | Ch | E | Cyf | Colli | O.Bl. | Yn Erb. | Pt. |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llanrug | 17 | 13 | 3 | 1 | 54 | 17 | 29 |
| Llanberis | 14 | 9 | 3 | 2 | 45 | 23 | 21 |
| Bethel | 17 | 4 | 3 | 10 | 23 | 55 | 11 |

### CYNGHRAIR IEUENCTID

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. Llanberis | 6 | 4 | 1 | 1 | 27 | 10 | 9 |
| 2. Porthmadog | 6 | 4 | 0 | 2 | 20 | 14 | 8 |

gyda 22 gôl yr un y tymor hwn.

Trist oedd gorfod derbyn ymddiswyddiad Elfed Roberts, is-gadeirydd y Clwb oherwydd pwysau gwaith. Bu'n aelod ffyddlon o'r Clwb am rai blynyddoedd.

## LLANBERIS

**Bu Pwllheli yn dipyn o ddraenen yn ystlys Llanberis y mis hwn. Gêm gyfartal yn Rownd 1af Cwpan Penrhyn, a chyfartal wedyn yn yr ail-chwarae. Bu'n rhaid atal y gêm yn yr ail-chwarae oherwydd diffyg goleuni yn y chwarae ychwanegol. Siom arall yn y gêm hon oedd colli dau chwaraewr o Lanberis wedi i'r dyfarnwr anfon y ddau oddi ar y cae am gamymddwyn.**

**Yn y Cpwn Alves, aeth Llanberis ymlaen i'r ail rownd ar ôl curo Hirael 2-1, ond y Sadwrn diwethaf, methu â churo'r tîm ar waelod y Gynghrair, a Thalysarn yn dwyn pwynt oddi arnynt.**

**Ddechrau'r mis, enillodd y tîm ieuenctid yn erbyn eu prif elyn Porthmadog, gan eu maeddu o saith gôl i un; y sgorwyr oedd Terence Griffith (3), Ian Pritchard (2), Kevin Williams a Dewi Roberts.**